



Gwerthusiad Terfynol

ADTRAC

Mai 2021



Gwerthusiad o ADTRAC: Adroddiad

Terfynol

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg hefyd

Awduron yr Adroddiad: Anna Burgess, Endaf Griffiths, Oliver Allies, Chloë Maughan, Paula Gallagher, Sam Grunhut a Tom Marshall / Wavehill



Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn farn Prosiect ADTRAC.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Burgess, A., Griffiths, E., Allies, O., Gallagher, P., Grunhut, S., & Marshall, T. (2021). *ADTRAC Evaluation: Final Report*.

Ar gael yn: gllm.ac.uk/adtrac

I gael rhagor o wybodaeth am yr adroddiad, cysylltwch ag:

Anna Burgess

Ffôn: 01545 571711

E-bost: anna.burgess@wavehill.com

I gael rhagor o wybodaeth am ADTRAC, cysylltwch â:

Sara Williams, Rheolwr Rhanbarthol ADTRAC, Grŵp Llandrillo Menai

Ffôn: 01492 546666

E-bost: sara.williams@gllm.ac.uk

gllm.ac.uk/adtrac

[@adtrac1624](https://twitter.com/adtrac1624)

Geirfa.....	4
1. Cyflwyniad	5
2. Methodoleg a Chyfyngiadau	9
3. Cyd-destun y Prosiect	10
4. Gwerthuso'r Broses	18
5. Gwerthuso Canlyniadau – Canlyniadau i Unigolion.....	44
6. Themâu Trawsbynciol	57
7. Gwerthuso Canlyniadau – Canlyniadau i Sefydliadau	75
8. Camau nesaf ac etifeddiaeth	79
9. Gwerthusiad Economaidd.....	83
10. Casgliadau ac Argymhellion	89
11. Cyfeiriadau	96
12. Atodiad A: Astudiaeth Achos Cyfieithiad Cymraeg o GLIMWC	98

Acronym Diffiniad

<i>AMHS</i>	Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion yng Nghymru
<i>BIPBC</i>	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
<i>CAMHS</i>	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
<i>CBA</i>	Dadansoddiad Cost a Budd
<i>CfW</i>	Cymunedau am Waith
<i>CfW+</i>	Cymunedau am Waith a Mwy
<i>CW</i>	Gyrfa Cymru
<i>DPS</i>	System Brynu Ddeinamig
<i>DWP</i>	Adran Gwaith a Phensiynau
<i>EET</i>	Cyflogaeth, Addysg neu Hyfforddiant
<i>EPC</i>	Cydlynnydd Ymgysylltu a Datblygu
<i>ESF</i>	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
<i>FTE</i>	Cyfwerth ag amser llawn
<i>GAD-7</i>	Asesiad Anhwylder Pryder Cyffredinol
<i>GDPR</i>	Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
<i>GLLM</i>	Grŵp Llandrillo Menai
<i>JCP</i>	Canolfan Byd Gwaith
<i>LA</i>	Awdurdod Lleol
<i>MRS</i>	Cymdeithas Ymchwil i'r Farchnad
<i>NEET</i>	Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
<i>NWEAB</i>	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
<i>ONS</i>	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
<i>PHQ-9</i>	Holiadur Iechyd Cleifion
<i>SPoA</i>	Un Pwynt Mynediad
<i>SROI</i>	Budd Cymdeithasol o Fuddsoddi
<i>TRAC</i>	Darpariaeth 11-24 ar gyfer pobl ifanc sydd mewn addysg ond sy'n wynebu risg o fynd yn NEET
<i>WEFO</i>	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
<i>GLIMWC</i>	Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin
<i>YEPF</i>	Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid

1. Cyflwyniad

- 1.0 Dyma'r trydydd adroddiad a'r un terfynol a luniwyd fel rhan o werthusiad Wavehill o brosiect ADTRAC. Mae Wavehill yn gwmni ymchwil cymdeithasol ac economaidd annibynnol ac fe'i comisiynwyd gan Grŵp Llandrillo Menai (GLIM) i gynnal gwerthusiad o'r prosiect. Comisiynwyd y gwerthusiad ym mis Mai 2019 ac mae wedi cynnwys adroddiad sylfaenol cychwynnol, yn ogystal ag adroddiad gwerthuso interim a luniwyd yn haf 2020. Gellir gweld yr adroddiadau blaenorol [yma](#).

Trosolwg o brosiect ADTRAC

- 1.1 Cynhelir ADTRAC ledled Gogledd Cymru¹ a'i nod yw ceisio lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Caiff ei ariannu'n rhannol dan Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc, Amcan Penodol 1 Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Y bwriad gwreiddiol oedd ei gynnal am dair blynedd rhwng mis Mawrth 2017 a mis Awst 2020 ond cafodd y targedau a'r dyddiadau cyflawni eu hailbroffilio i gael targedau mwy realistig.² Disgwylir iddo nawr ddod i ben ym mis Awst 2021, gyda'r gwaith cyflenwi yn gorffen ym mis Mai 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, rhagwelir y bydd ADTRAC wedi cynorthwyo 1,451³ o bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sy'n atal eu llwybr a'u dilyniant i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys cynnig cymorth i bobl ifanc sydd â phryderon iechyd meddwl ysgafn i gymedrol. Nodir isod y targedau gwreiddiol a'r targedau yn dilyn yr ailbroffilio.
- 1.2 Arweinir y prosiect gan GLIM a'i gynnal ar draws ardaloedd y chwe awdurdod lleol yn y Gogledd. Yn weinyddol, ceir dau brosiect ar wahân, sef: prosiect Gorllewin

¹ Yn benodol ar draws yr Awdurdodau Lleol canlynol: Cyngor Sir Ynys Môn; Cyngor Gwynedd; Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Cyngor Sir Ddinbych; Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; Cyngor Sir y Fflint.

² Noder: roedd y dyddiadau dechrau yn wahanol ledled draws y rhanbarth o ganlyniad i recriwtio'r tîm. Yn Ynys Môn, dechreuodd Rheolwr y Prosiect ym mis Ionawr 2018 a phenodwyd mentoriaid ym mis Mawrth y flwyddyn honno. Dechreuwyd ar y monitro data ar 22 Ionawr 2018, cafwyd y cofrestrriad cyntaf ar 15 Mawrth, a chynhaliwyd lansiad swyddogol y prosiect ar 19 Ebrill 2018.

Dechreuodd ADTRAC yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy weithredu ddiwedd Chwefror 2018.

Yn Sir Ddinbych, aeth y prosiect yn fyw 13 Tachwedd 2017.

Yn Wrecsam a Sir y Fflint, cafwyd yr atgyfeiriad cyntaf ym mis Rhagfyr 2017, ac erbyn hynny, roedd y tîm eisoes ar waith.

Cafwyd rhagor o atgyfeiriadau ym mis Ionawr 2018 a dechreuodd y mentoriaid ddatblygu llwyth achosion.

Yng Ngwynedd, dechreuodd Rheolwr y Prosiect yn ei swydd ym mis Mehefin 2017 a dechreuodd aelodau'r Tîm Cyflenwi yn eu swyddi ym mis Medi 2017. Dechreuodd y prosiect dderbyn atgyfeiriadau ym mis Tachwedd 2017.

³ Diwygiwyd y ffigur hwn o darged cychwynnol o 1,651 yn dilyn ailbroffilio'r prosiect.

Cymru a'r Cymoedd a phrosiect Dwyrain Cymru. Mae'r prosiectau yn dwyn ynghyd GLIM, pob un o chwe awdurdod lleol y Gogledd, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), sy'n darparu arbenigedd ym maes iechyd meddwl a lles. Dan arweiniad GLIM, gweithredir y prosiectau gan dimau wedi'u harwain gan y chwe awdurdod lleol, ac mae arbenigedd staff BIPBC yn rhan o bob tîm.

Targedau'r Prosiect

- 1.3 Yn dilyn ailbroffilio'r prosiect, aeth y cyd-fuddiolwyr ati yn ystod cyfnod y prosiect i weithio gyda 1,451 o bobl ifanc a nodir i fod yn unigolion NEET, gyda'r nod o gyflawni'r canlyniadau canlynol:

Tabl 1.1: Targedau canlyniadau

Targed canlyniadau	Targed nifer y cyfranogwyr	Targed nifer y cyfranogwyr (cyn yr ailbroffilio)
Cyfanswm cyfranogwyr	1,451	1,651
Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) yn ennill cymwysterau erbyn iddynt adael	350	350
Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) mewn addysg/hyfforddiant ar ôl gadael	270	280
Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) yn mynd i gyflogaeth ar ôl gadael	367	357
Cyfranogwyr yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol eraill ⁴	290	330

Ffynhonnell: Cynlluniau Busnes

⁴ Gallai canlyniadau cadarnhaol eraill gynnwys y canlynol:

- Ennill mwy nag un cymhwyster/achrediad o ganlyniad i'r ymyriad
- Ennill rhan-gymhwyster/achrediad
- Cyflawni hyfforddiant heb ei achredu
- Cael ardystiad sy'n berthnasol i fyd gwaith erbyn gadael
- Dechrau ar gwrs addysg rhan-amser (llai nag 16 awr)
- Cwblhau lleoliad profiad gwaith/cyfle gwirfoddoli
- Dechrau cyflogaeth am lai nag 16 awr (gan gynnwys hunangyflogaeth)
- Dechrau cyflogaeth ar gontract dim oriau
- Dechrau ar hyffordddeaeth
- Gwelliant yn eu lles meddyliol
- Gwelliant mewn canlyniadau meddal

Sylwer: nid oedd dechrau ar hyffordddeaeth yn cyfrif tuag at 'ganlyniad mynd i addysg/hyfforddiant' hyd nes mis Medi 2020, ond gellid ei gynnwys yng nghategori 'canlyniadau cadarnhaol eraill' cyn iddo gael ei dderbyn gan WEFO yn y 'canlyniad mynd i addysg/hyfforddiant'.

- 1.4 Yn ychwanegol at y targedau hyn, yn dilyn yr ailbroffilio, mae gan ADTRAC gyfres o dargedau cyfranogi (fel yr amlinellir yn Nhabl 1.2 isod).

Tabl 1.2: Targedau cyfranogi

Grŵp cyfranogwyr	Targed	Targed (%)
Cyfanswm cyfranogwyr	1,451	
Cyfranogwyr sydd ag anabledd/cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio	112	8%
Cyfranogwyr sy'n Ddu, Asiaidd, neu Leiafrifoedd Ethnig/Mudwyr/Lleiafrifoedd	31	2%
Cyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofal plant/gofalu	121	8%
Cyfranogwyr gwrywaidd	721	50%
Cyfranogwyr benywaidd	730	50%

Ffynhonnell: Cynlluniau Busnes

Sut mae ADTRAC yn gweithio

- 1.5 Mae ADTRAC yn cynnig cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan fynd i'r afael ag anghenion unigol cyfranogwyr a'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag mynd i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae ADTRAC yn gweithio gyda chyfranogwyr i nodi'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag sicrhau cyflogaeth, ac yna mae'n rhoi cymorth i'w helpu i oresgyn y rhwystrau hyn neu'n eu hatgyfeirio at asiantaethau eraill sy'n gallu darparu'r cymorth hwn.
- 1.6 Yng nghyd-destun y dull holistig hwn a ddefnyddir ganddynt o ganolbwyntio ar yr unigolyn, mae'r prosiect yn dwyn ynghyd cymorth cyflogadwyedd a darpariaeth iechyd meddwl a lles, a'r rhain wedi'u rhoi yn rhannol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol cymwys o BIPBC. Nid yw hon yn nodwedd gyffredin mewn ymyriadau cyflogadwyedd; penderfynwyd ei gynnwys yn y prosiect oherwydd pryder ynghylch lefelau uchel iechyd meddwl a lles gwael ymhlith unigolion sy'n NEET. Mae'r prosiect felly yn gyfle pwysig i ddysgu sut i weithio gyda'r garfan hon, yn ogystal â dysgu mwy am y rhwystrau sy'n atal pobl ifanc sy'n NEET rhag mynd i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.
- 1.7 Un o nodweddion anarferol eraill ADTRAC yw ei fod yn cael ei arwain gan GLIM, sefydliad nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r prosiect. Roedd rôl GLIM yn cynnwys sefydlu'r prosiect, trefnu methodoleg a phrosesau adrodd,

gwaith monitro a darpariaeth y prosiect, sicrhau cyfathrebu parhaus rhwng partneriaid, gan gynnwys holi barn partneriaid am benderfyniadau strategol a gweithredol, a darparu diweddariadau prosiect gan WEFO.

Amcanion y Gwerthusiad Terfynol

1.8 Mae'r gwerthusiad hwn yn werthusiad crynodol o brosiect ADTRAC, ac felly mae'n asesu effeithiolrwydd cyffredinol y prosiect. Mae'n archwilio a yw'r gwaith wedi cael effaith ar gyfranogwyr a sut, yn ogystal â'r sefydliadau sy'n ymwneud â chynnal ADTRAC. Yn unol â chynllun Monitro a Gwerthuso'r prosiect, nod y gwerthusiad yw:


- Asesu effeithiolrwydd y prosiect a'r dulliau a ddefnyddiwyd, gan gynnwys adolygu'r prosesau sydd ar waith, nodi beth sy'n gweithio ac i bwy, darganfod sut mae ymyriadau lles yn gweithio a pham eu bod yn gweithio, gan gynnwys cefnogaeth ac addasrwydd yr ymyriadau a gynigir i ddiwallu anghenion y cyfranogwyr
- Nodi arfer da a thynnu sylw ato
- Cyfrif gwerth am arian y prosiect, gan gynnwys effaith economaidd y canlyniadau lles sy'n deillio o'r prosiect
- Llunio asesiad o effaith tymor byr a thymor hwy y prosiect a nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol
- Adolygu dulliau Themâu Trawsbynciol a'r monitro ar y rhain
- Cyfrannu at ddatblygu polisi a phrosiectau yn y dyfodol.

1.9 Yn ogystal â Chynllun Monitro a Gwerthuso ADTRAC, mae'r gwerthusiad terfynol hwn hefyd yn seiliedig ar y cwestiynau gwerthuso a nodir yn y fframwaith gwerthuso, fel y cyflwynwyd yn yr adroddiad cychwynnol.

2. Methodoleg a Chyfyngiadau

- 2.0 Mae'r gwerthusiad hwn wedi defnyddio dull sy'n seiliedig ar theori. Roedd hyn yn cynnwys datblygu cadwyn resymeg ar gyfer yr ymyriad ynghyd â fframwaith gwerthuso a oedd yn cynnwys dangosyddion ar gyfer mesur cynnydd y prosiect tuag at ganlyniadau a ragwelwyd.
- 2.1 Amlinellwyd y gadwyn resymeg lawn ar gyfer y prosiect yn yr Adroddiad Gwerthuso Cychwynnol. Fodd bynnag, mae'n seiliedig ar y rhesymeg ymyrryd gymharol syml ganlynol:

Ffigur 2.1: Cadwyn resymeg ganolog ar gyfer ADTRAC



- 2.2 Ar sail y rhesymeg hon y datblygwyd fframwaith gwerthuso, gan gynnwys cwestiynau ynghylch y broses a chanlyniadau ac effaith, ynghyd â dangosyddion gwrthrychol a goddrychol.

3. Cyd-destun y Prosiect

- 3.0 Ceir amlinelliaid o gyd-destun y prosiect yn yr Adroddiad Cychwynnol, gan gynnwys adolygiad o lenyddiaeth berthnasol, mentrau cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru ac ystadegau mynediad agored. Mae'r rhan fwyaf o'r deunydd hwn yn parhau i fod yn berthnasol, er bod cyd-destun y prosiect wedi newid, yn enwedig oherwydd effaith COVID-19 a'r tarfu economaidd cysylltiedig ar Ogledd Cymru. Mae'r bennod hon yn cyflwyno dadansoddiad o sut mae cyd-destun y prosiect wedi newid ers y cam sefydlu, gan fod â ffocws penodol ar effaith pandemig COVID-19 ar gyflogaeth ymhlith pobl ifanc y Gogledd.

Newid yn y cyd-destun cyflogaeth

- 3.1 Rhwng Gorffennaf a Medi 2020, nodwyd bod 757,000 o bobl ifanc (16-24 oed) yn NEET (pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant), sef 11 y cant o'r holl bobl ifanc yn y Deyrnas Unedig (Swyddfa Ystadegau Gwladol ONS, 2020).
- 3.2 Er mai gostwng yn gyffredinol a wnaeth cyfraddau NEET trwy gydol y degawd hyd at 2017, bu cynnydd bach yn y cyfraddau rhwng 2018 a 2019. Mae pryderon eisoes yn cael eu codi ynghylch yr effaith y gallai COVID-19 ei gael ar y ffigurau hyn o ganlyniad i'r cwmp economaidd a ragwelir o ganlyniad i'r pandemig, ond hyd yn hyn nid yw hyn wedi bod yn wir. Mae amcangyfrifon trydydd chwarter 2020 ar gyfer y ddau grŵp oedran a dynnwyd o'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth ymhlith y cyfraddau isaf yn y cyfnod er 2010. Y tebygrwydd yw y bydd effaith hyn yn dod yn gliriach wrth i amser fynd rhagddo.
- 3.3 Yn ôl data o'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, mae cyfraddau amcangyfrifedig NEET ar gyfer trydydd chwarter 2020 (wedi'u cyfrifo drwy ddefnyddio cyfartaleddau pedwar chwarter treigl) yn dangos ledled Cymru bod 7.8 y cant o bobl ifanc 16-18 oed ac 14.6 y cant o rai 19–24 oed yn NEET yn nhrydydd chwarter 2020.⁵

⁵ Ffynhonnell: 'Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): Hydref 2019 i Fedi 2020' (Datganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru). Codir y data o'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth <https://llyw.cymru/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-hydref-2019-i-fedi-2020>

- 3.4 Fodd bynnag, roedd cyfraddau NEET yn uwch yng Nghymru na'r cyfartaledd ledled y DU ar gyfer trydydd chwarter 2020 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021).

Tabl 3.1: Amcangyfrifcanran y bobl ifanc sy'n NEET yn ôl oedran a gwlad yn y Deyrnas Unedig⁶

	16-18 oed		19-24 oed	
	2019 Ch3	2020 Ch 3	2019 Ch 3	2020 Ch 3
Cymru	8.6	7.8	15.5	14.6
Lloegr	7.7	6.4	14.1	13.8
Yr Alban	10.5	9.2	11.6	12.4
Gogledd Iwerddon	(!) 4.9	(!) 6.8	16.1	12.9
Y Deyrnas Unedig	7.9	6.7	14.0	13.7


Ffynhonnell: StatsCymru Pobl Ifanc NEET Ebrill 2019-2020

- 3.5 Mae yna hefyd amrywiad bychan yn y cyfraddau hyn o fewn rhanbarthau Cymru, gyda chyfran y bobl ifanc 16-24 oed sydd yn NEET ar eu huchaf yn y Gogledd (14.2 y cant) rhwng Chwarter 3 2018 a Chwarter 3 2020, mewn cyferbyniad â'r De-ddwyrain sydd â'r gyfradd NEET isaf yng Nghymru am y cyfnod hwn, sef yn 12.5 y cant.
- 3.6 Ymhellach, mae cymharu Chwarter 3 yn y cyfnodau 2016-2018, 2017-2019 a 2018-2020 (pan gyfrifir cyfartaledd ar gyfer pob cyfnod) yn dangos nad yw'r tueddiadau o ran cyfradd y bobl ifanc sy'n NEET yn gyson ar draws tri rhanbarth Cymru. Roedd data a gasglwyd ar lefel ranbarthol ar adeg flaenorol yr adrodd (cymharu Chwarter 1 yn y cyfnodau 2014-2016, 2015-2017 a 2016-2018) yn awgrymu bod y gostyngiad yng nghyfraddau NEET yn digwydd ar draws pob rhanbarth ledled Cymru. Fodd bynnag, yn ôl amcangyfrifon Chwarter 3 o 2016-2018, 2017-2019 a 2018-2020, er bod cyfraddau wedi aros yn weddol sefydlog yn y Canolbarth a'r De-orllewin ac i weld fel petaent wedi gostwng yn y De-ddwyrain, mae'n ymddangos bod y cyfraddau wedi codi yn ystod y cyfnod hwn yn y Gogledd. Mae'n bwysig nodi nad

⁶ Ffynhonnell: Pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET), Y Flwyddyn hyd at 30 Medi 2020 (Llywodraeth Cymru). Mae'r ffigurau yn seiliedig ar ymatebion i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, mae (!) yn dangos gwerthoedd lle mae'r data o ansawdd isel oherwydd y nifer fach o ymatebion.

oes modd cymharu'r wybodaeth hon yn uniongyrchol gan fod yr amcangyfrifon wedi'u tynnu o wahanol chwarteri.

Ffigur 3.1: Canran y bobl ifanc (16-24) NEET yn ôl rhanbarth 2014-2018



Ffynhonnell: StatsCymru Pobl Ifanc NEET Ebrill 2017-2018

Tabl 3.2: Canran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru yn ôl rhanbarth⁷

Yn ôl Rhanbarth (16-24)	2016/Ch3 – 2018/Ch3	2017/Ch3 – 2019/Ch3	2018/Ch3 – 2020/Ch3
Gogledd	12.9	13.5	14.0
Y Canolbarth a'r De-orllewin	13.2	13.6	13.5
Y De-ddwyrain	14.1	12.6	12.5
Cymru	13.6	13.1	13.1


Ffynhonnell: StatsCymru Pobl Ifanc NEET Medi 2020

3.7 Mae'r patrymau hyn yn cyd-fynd â thueddiadau diweithdra rhanbarthol ar gyfer pobl rhwng 16 a 24 oed.⁸

⁷ Ffynhonnell: Pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET), Y Flwyddyn hyd at 30 Medi 2020 (Llywodraeth Cymru). Mae ffigurau yn seiliedig ar yr ymatebion i'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth.

⁸ Ffynhonnell: Cyfradd gyflogaeth yn ôl ardal leol yng Nghymru, blwyddyn a rhyw, Ystadegau Cymru <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Persons-Employed/employmentrate-by-welshlocalarea-year-gender>

Ffigur 3.2: Cyfradd diweithdra yn ôl rhanbarth 2014-2018⁹




Sylwer: Mae amcangyfrifon data ar gyfer y Gogledd a'r Canolbarth a'r De ar gyfer y Flwyddyn sy'n dod i ben ar 30 Medi 2020 yn seiliedig ar oddeutu 25-40 o ymatebion i'r arolwg ac felly cânt eu categorio i fod yn rhai o ansawdd isel.

Tueddiadau yn ôl Nodweddion

- 3.8 Mae Ffigur 3.1 uchod yn dangos y gwahaniaeth yng nghyfraddau NEET o'u dadgyfuno yn ôl oedran, gyda'r gyfradd NEET uchaf yn gyffredinol ar 16.4 y cant ar gyfer pobl 23 oed yn 2019. Mae'r cyfraddau'n is ar gyfer y rhai yn y grŵp oedran 16-18, y gellid ei briodoli mae'n siŵr i ymadawyr ysgol nad yw'n gyfreithiol ofynnol iddynt aros mewn addysg a hyfforddiant.
- 3.9 Mae Ffigur 3.2 yn dangos bod gostyngiad wedi bod yng nghyfraddau NEET y ddau grŵp ers 2010. Dengys y duedd gyffredinol ostyngiad o 12.7 y cant yn 2010 i 8.4 y cant yn 2019 ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed a gostyngiad tebyg o 22.3 y cant i 15 y cant ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed. Mae'r gostyngiad hwn yn cyd-fynd â gostyngiad cyffredinol mewn cyfraddau diweithdra, ac yn debygol o fod oherwydd gwell amodau economaidd.

⁹ https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/young-people-not-in-education-employment-or-training-neet-april-2017-to-march-2018_0.pdf

Ffigur 3.3: Canran y bobl ifanc yng Nghymru sy'n NEET wedi'u dadgyfuno yn ôl grŵp oedran



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

3.10 Yn yr un modd, mae'r cyfartaleddau dros dri chyfnod yn awgrymu nad yw'r newid yng nghanrannau NEET yn gyson wrth ei ddadansoddi yn ôl oedran; mae'r niferoedd naill ai'n gostwng neu'n sefydlog ar gyfer y mwyafrif o oedrannau, ond mae canran y bobl ifanc 20 a 21 oed sy'n NEET wedi cynyddu dros y cyfnod hwn

Tabl 3.3: Canran y bobl ifanc sy'n NEET yng Nghymru yn ôl oedran¹⁰


Oedran	2016/Ch3-2018/Ch3	2017/Ch3-2019/Ch3	2018/Ch3-2020/Ch3
16	(!) 3.5	(!) 4.1	(!) 4.6
17	8.1	8.9	8.5
18	13.9	12.9	12.0
19	15.1	13.6	13.3
20	14.2	15.1	15.6
21	15.6	15.8	16.2
22	16.5	13.9	15.8
23	16.2	16.1	14.1
24	17.3	15.2	15.2

Ffynhonnell: StatsCymru Pobl Ifanc NEET Medi 2020

¹⁰ Ffynhonnell: Pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET), y Flwyddyn hyd at 30 Medi 2020 (Llywodraeth Cymru). Mae'r ffigurau yn seiliedig ar ymatebion i'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, mae (!) yn dangos gwerthoedd lle mae'r data o ansawdd isel oherwydd y nifer fach o ymatebion.

3.11 Mae yna ystod o ffactorau sy'n codi'r risg i bobl ifanc ddod yn NEET, gan gynnwys cyrhaeddiad addysgol isel ar lefel TGAU, problemau iechyd, cyfrifoldebau gofalu, ac amgylchiadau teuluol anodd (Powell A. , 2018). Dengys ystadegau a luniwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod pobl ifanc sydd ag anableddau neu gyflyrau iechyd difrifol yn fwy tebygol o fod yn NEET na'r rhai nad ydynt (Swyddfa Ystadegau Gwladol ONS, 2020). Mae ffigurau NEET ledled Cymru yn cadarnhau hyn, sy'n dangos bod pobl ifanc sydd ag anabledd yn fwy tebygol o fod yn NEET na'r rheiny heb anabledd, gwahaniaeth sy'n arbennig o amlwg yn y grŵp oedran 19-24 oed.

Ffigur 3.4: Canran y bobl ifanc (16-24) sydd ag anabledd yn erbyn y rhai heb anabledd



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

3.12 Yn ôl data o'r Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, awgrymir hefyd fod rhyw yr unigolyn yn effeithio ar eu tebygolrwydd o ddod yn NEET. Fel y nodwyd mewn adroddiad gan yr OECD ar gydraddoldeb rhywiol, mae menywod ifanc yn debygol o "gael mwy o flynyddoedd o addysg na dynion ifanc" ond maent yn llai tebygol o wneud gwaith â thâl.¹¹

¹¹ OECD (2017), The Pursuit of Gender Equality: An Uphill Battle, OECD Publishing Paris https://read.oecd-ilibrary.org/social-issues-migration-health/the-pursuit-of-gender-equality_9789264281318-en#page1

Tabl 3.4: Canran y bobl ifanc sy'n NEET yng Nghymru yn ôl rhyw 16-18 oed¹²

Rhyw	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019
Dynion NEET	13.7	14.4	12.8	12.2	11.7	11.9	12.9	10.9	11.5	12.2
Menywod NEET	9.3	9.9	9.1	9.1	9.8	9.4	8.2	9.6	9.6	10

Ffynhonnell: StatsCymru Pobl Ifanc NEET Medi 2020

Tabl 3.5: Canran y bobl ifanc sy'n NEET yng Nghymru yn ôl rhyw 19-24 oed¹³

Rhyw	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019
Dynion NEET	22.1	19.4	21.5	19.3	18.2	16.3	17.9	14	16.5	15.2
Menywod NEET	23.8	25.2	24.6	22.8	22.9	21.8	19.1	16.3	15.4	16.3

Ffynhonnell: StatsCymru Pobl Ifanc NEET Medi 2020

Gwerth Ychwanegol ADTRAC

- 3.13 Roedd yr holl randdeiliaid o'r farn fod gwerth ychwanegol ADTRAC yn deillio o'r angen clir am gefnogaeth i'r bobl ifanc anoddaf eu cyrraedd yn y Gogledd. O fewn hyn, er bod cefnogaeth arall ar gael sy'n canolbwyntio ar gyflogadwydd, awgrymodd rhanddeiliaid bod dull ADTRAC yn unigryw oherwydd y mentora un-i-un, y ffocws ar iechyd meddwl a'r ddarpariaeth arbenigol, a hyblygrwydd y dull gweithredu i gyd-fynd ag anghenion cyfranogwyr:

‘Mae mentora un-i-un yn gwbl allweddol i gael gwared ar rwystrau. Wrth fentora, gallwch chi dynnu'r haenau fesul un, cyrraedd gwaelod yr hyn sy'n digwydd ym mywyd y person ifanc hwnnw. Ni fyddai llawer o'r cyfranogwyr hyn yn cael cefnogaeth yn yr ardal hon heb ADTRAC.’ **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

¹² Ffynhonnell: Pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET), y Flwyddyn hyd at 30 Medi 2020 (Llywodraeth Cymru). Mae'r ffigurau yn seiliedig ar ymatebion i'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, mae (!) yn dangos gwerthoedd lle mae'r data o ansawdd isel oherwydd y nifer fach o ymatebion.

¹³ Ffynhonnell: Pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET), y Flwyddyn hyd at 30 Medi 2020 (Llywodraeth Cymru). Mae'r ffigurau yn seiliedig ar ymatebion i'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, mae (!) yn dangos gwerthoedd lle mae'r data o ansawdd isel oherwydd y nifer fach o ymatebion.

- 3.14 Awgrymai rhanddeiliaid yn aml fod ADTRAC yn gydnaws â chefnogaeth arall i'r grŵp targed yn y Gogledd (6/9). Ystyrir bod ADTRAC yn hyn o beth yn llenwi bylchau mewn modelau gwasanaeth a oedd yn bodoli cyn y rhaglen ac yn mynd un cam ymhellach nag y mae gwasanaethau eraill yn gallu eu gwneud wrth roi sylw i'r rhwystrau sy'n wynebu'r rhai o'r bobl anoddaf eu cyrraedd. Awgrymwyd hefyd fod ADTRAC wedi bod yn gatalydd i wella partneriaethau rhwng gwasanaethau sy'n cyfrannu at waith Awdurdodau Lleol yn cyflawni amcanion y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid trwy well systemau atgyfeirio a rhannu data.
- 3.15 Roedd pum rhanddeiliad a gyfwelwyd yng nghanol y gwerthusiad hwn wedi mynegi pryder am y camau nesaf, gan awgrymu y bydd bwlch sylweddol yn y gefnogaeth a ddarperir i bobl ifanc heb ADTRAC. Disgrifiodd tri o'r rhanddeiliaid hynny fwlch amlwg yn narpariaeth iechyd meddwl gwasanaethau statudol cyn ADTRAC gan fynegi pryder y bydd y bwlch hwn yn y ddarpariaeth yn tyfu heb gyfraniad cadarnhaol ADTRAC. Yn ôl un rhanddeiliad:

'Rwy'n bryderus iawn y bydd ADTRAC yn dod i ben ac nad oes darpariaeth arall i'r cyfranogwyr hyn. Byddant yn syrthio oddi ar glogwyn a bydd bwlch enfawr. [...] Mae ei egwyddorion yn gwbl hanfodol i'r grŵp oedran hwn ac mae dod ag iechyd i mewn iddo wedi bod yn gwbl hanfodol. [...] Mae'r holl brosiectau eraill yn wirioneddol genfigennus gan fod gweithiwr iechyd meddwl yn rhan o'r prosiect, a bod iechyd meddwl yn broblem enfawr i gael pobl i mewn i waith.'

(Cyfweliad â rhanddeiliad)

Archwilir safbwyntiau ynghylch etifeddiaeth y prosiect a'r camau nesaf ymhellach yn Adran 6.

4. Gwerthuso'r Broses

- 4.0 Mae'r adran hon yn archwilio ac yn asesu'r prosesau sy'n gysylltiedig â gweithredu ADTRAC. Sylwer bod gwerthuso'r broses ar gyfer yr adroddiad terfynol hwn yn canolbwyntio'n benodol ar y gweithredu rhwng 2020-2021 (h.y., yn ystod pandemig COVID-19). Mae rhagor o fanylion am y prosesau gweithredu cyn y pandemig hefyd i'w gweld yn [Adroddiad Interim ADTRAC](#).

Proffil y Cyfranogwyr

- 4.1 Dros gyfnod oes ADTRAC (2017-2021), dengys y data monitro bod 1,178 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn y prosiect. O'r rhain, roedd cofnodion llawn am 1,174 ohonynt ac felly defnyddir y rhif hwn fel ffigur sylfaenol ar gyfer y rhan fwyaf o'r dadansoddiad.
- 4.2 Mae ADTRAC wedi cyflawni 81 y cant o'i darged cyffredinol ar gyfer nifer y cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â hwy, er bod hyn yn amrywio ledled yr awdurdodau lleol (gweler Tabl 4.1 isod). Er na chyrhaeddwyd targedau y nifer yn ymgysylltu mewn unrhyw awdurdod lleol, eto llwyddodd yr holl gyd-fuddiolwyr i gynyddu nifer eu cyfranogwyr rhwng 12-20 y cant ers yr adroddiad interim y llynedd. O gofio'r amgylchiadau, mae'r ymgysylltiad hwn yn gadarnhaol, yn enwedig yn sgil yr anawsterau a gododd oherwydd COVID-19 (fel yr archwilir ymhellach yn Adran 4.18).


Tabl 4.1: Targedau cyfranogi yn ôl Awdurdod Lleol (2017-2021)

Cyd-fuddiolwr	Targed Cyfranogwyr	Cyfanswm a gyflawnwyd	Canran y cyfanswm a gyflawnwyd ar adeg yr Interim (%)	Canran y cyfanswm a gyflawnwyd yn gyfan gwbl (%)
Cyfanswm ADTRAC	1451	1178	62%	81%
Ynys Môn	269	190	59%	71%
Gwynedd	301	276	63%	92%
Conwy	250	199	55%	80%
Sir Ddinbych	307	212	51%	69%
Wrecsam a Sir y Fflint	324	298	77%	92%

Sylfaen: Data Monitro Cyfranogwyr (n=1178)

- 4.3 Roedd bron i hanner holl gyfranogwyr ADTRAC yn gallu deall Cymraeg tra bod tua thraean ohonynt yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg (fel y dangosir yn Ffigur 4.1 isod). Wedi dweud hyn, dim ond chwech y cant o'r cyfranogwyr (75/1170) a gafodd wasanaeth ADTRAC yn Gymraeg (roedd pedwar y cant; 41/1170 wedi cael eu holl ddarpariaeth ADTRAC drwy gyfrwng y Gymraeg). Archwilir ymhellach yn Adran 5 y diffyg defnyddio hwn ar y ddarpariaeth yn y Gymraeg.

Ffigur 4.1: Gallu Cyfranogwyr yn y Gymraeg



Sylfaen: Data Monitro Cyfranogwyr (n=1178)

- 4.4 Mae Tabl 4.2 isod yn rhoi dadansoddiad o wahanol grwpiau demograffig a gymerodd ran yn ADTRAC, ochr yn ochr â'r targedau a osodwyd ar gyfer y prosiect. Tra bod y prosiect wedi rhagori ar ei darged ymgysylltu mewn perthynas â chyfranogwyr sy'n Ddu, Asiaidd, neu Leiafrifoedd Ethnig a bron â chyflawni ei darged ar gyfer cyfranogwyr gwrywaidd, parhau yn is wnâi nifer y cyfranogwyr benywaidd a chyfranogwyr â chyfrifoldebau gofalu (fel y gwelwyd yn [Adroddiad Interim ADTRAC](#)). Er bod adroddiadau blaenorol wedi awgrymu y dylai staff ganolbwyntio eu hymdrechion ar ymgysylltu â rhagor o fenywod â chyfrifoldebau gofalu, soniodd staff a gyfwelwyd yng nghanol olaf y gwerthusiad fod hyn yn anodd yn sgil COVID-19 oherwydd y straen ar unigolion â chyfrifoldebau gofalu ac oherwydd bod y prosiect yn dibynnu ar atgyfeiriadau. Mae'r prosiect hefyd wedi bod â chyfraddau cyfranogi sy'n anghymesur o uchel ymhlith unigolion ag

anabledd neu gyflwr sy'n cyfyngu ar iechyd, a oedd yn cyfrif am 28 y cant o gyfanswm y cyfranogwyr.

Tabl 4.2: Targedau cyfranogi a data perfformio, yn ôl grŵp demograffig

Grŵp cyfranogwyr	Targed	Targed (%)	Nifer a gyflawnwyd	Canran y targed a gyflawnwyd
Cyfanswm cyfranogwyr	1,451		1179	81%
Cyfranogwyr sydd ag anabledd/cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio	112	8%	331	296%
Cyfranogwyr sy'n Ddu, Asiaidd, neu Leiafrifoedd Ethnig	31	2%	34	110%
Cyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofal plant/gofalu	121	8%	74	61%
Cyfranogwyr gwrywaidd	721	50%	688	95%
Cyfranogwyr benywaidd	730	50%	487	67%

Sylfaen: Data Monitro Cyfranogwyr (n=1178)

- 4.5 Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn ddi-waith hirdymor ar adeg dechrau cael cefnogaeth ADTRAC (56 y cant o'r cyfranogwyr), ac roedd traean y cyfranogwyr yn dod o aelwydydd di-waith (33 y cant). Mae hyn yn cadarnhau mai mwyafrif cyfranogwyr ADTRAC yw'r rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur ac ailadroddir hyn yn y rhwystrau cyffredin y mae cyfranogwyr wedi wynebu er mwyn cael cyflogaeth (gweler Tabl 4.3 isod). O'r holl gyfranogwyr, roedd 67 y cant (781/1174) hefyd yn byw mewn ardal o amddifadedd.

Tabl 4.3: Statws cyflogaeth ar ddechrau'r ymyriad


	Cyfanswm cyfranogwyr	Canran y Cyfranogwyr (%)
Yn ddi-waith hirdymor	661	56%
Yn economaidd anweithgar (ac eithrio hyfforddiant neu addysg amser llawn)	133	11%
Di-waith yn y tymor byr	380	32%

Sylfaen: Data monitro'r holl gyfranogwyr (n=1174)

- 4.6 Ar adeg ymuno ag ADTRAC, roedd gan 83 y cant o'r cyfranogwyr gymwysterau Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW) lefel 2 neu is (fel y dangosir yn Ffigur 4.2 isod). Mae hyn yn cynnwys 18 y cant o'r cyfranogwyr (209/1171) nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau. Soniodd llawer o gyfranogwyr hefyd am brofiadau dysgu negyddol yn y gorffennol (44 y cant; 517/1174). Mae hyn eto'n dangos bod ADTRAC yn aml wedi cefnogi unigolion sydd wedi ymddieithrio fwyaf o addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, gan alinio ag amcanion y prosiect ond hefyd

yn pwysleisio y gallai cyfranogwyr fod angen cefnogaeth ddwys gan eu cynghorydd ADTRAC.


Ffigur 4.2:Lefel cymwysterau yr oedd ganddynt yn barod ar adeg ymuno ag ADTRAC



Sylfaen: Data monitro'r holl gyfranogwyr (n=1174)

- 4.7 O ystyried y rhwystrau sy'n wynebu unigolion a gefnogir trwy ADTRAC, yr elfen fwyaf cyffredin a nodwyd gan gyfranogwyr i fod yn rhwystr allweddol rhag sicrhau cyflogaeth oedd hyder, gyda bron i draean hefyd yn nodi pryderon iechyd meddwl (gweler Ffigur 4.3 isod). Fel yr archwilir ymhellach yn Adran 5, gallai nifer sylweddol o rwystrau ei gwneud yn anoddach i bobl ifanc ymgysylltu ag ADTRAC ac/neu arwain atynt yn ymwneud â'r prosiect yn hirach na'r disgwyl.


Ffigur 4.3:A oeddech chi'n teimlo bod unrhyw rwystrau a oedd yn eich atal chi rhag sicrhau cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant?



Sylfaen: yr holl gyfranogwyr i ateb y cwestiwn (n=80)

- 4.8 O gymharu, wrth asesu'r rhwystrau a wynebai holl gyfranogwyr ADTRAC, unwaith eto hyder yw un o'r rhwystrau mwyaf cyffredin a nodwyd (gweler Ffigur 4.4 isod). Mae'r rhestr o rwystrau a nodwyd ar draws y sampl yn dangos ac yn cadarnhau'r ystod o rwystrau sy'n wynebu cyfranogwyr ADTRAC. Yn benodol, mae ystod ac amllder y rhwystrau yn dangos yr angen am gymorth arferol sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd (e.e., meithrin sgiliau ac ailymgysylltu ag addysg) ond hefyd yr angen am gefnogaeth iechyd meddwl a lles, gyda dros hanner y sampl wedi dweud fod ganddynt bryderon iechyd meddwl (60 y cant; 703/1174), 42 y cant wedi'u hynysu'n gymdeithasol (498/1174) a 32 y cant yn rhai â phryderon lles/llesiant (371/1174). Roedd hyn yn cynnwys cyfranogwyr a ddisgrifiodd 'pryder yn gadael y tŷ', a phroblemau pyliau o banig a phryder cymdeithasol.

Ffigur 4.4:Rhwystrau a nodwyd yn y data monitro



Sylfaen: yr holl gyfranogwyr yn y data monitro (n=1174)

- 4.9 Fel y nodwyd yn 4.6, roedd gan gyfranogwyr ADTRAC yn aml rwystrau lluosog a chymhleth. Yn aml, soniai cyfranogwyr a gyfwelwyd am nifer o rwystrau a oedd yn eu hatal rhag mynd i gyflogaeth. Dywedodd un cyfranogwr ei fod yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith oherwydd:

‘Diffyg profiad gwaith gan fod yr holl swyddi yn gofyn am bobl sydd ag o leiaf 18 mis o brofiad. Hefyd, roedd llawer o swyddi yn gofyn am bethau fel cael trwydded ar gyfer defnyddio fforch godi a doedd gen i mohoni. Roedd llawer o'r swyddi'n eithaf pell a does gen i ddim cludiant fy hun a does dim llawer o fysiau'n dod heibio lle rwy'n byw.’ **(Cyfweliad â chyfranogwr)**

- 4.10 Ar gyfartaledd, cofnodai cyfranogwyr fod ganddynt 7.6 o'r rhwystrau a restrir yn Ffigur 4.4 ar adeg ymuno â'r prosiect. Roedd hyn yn cynnwys niferoedd cymharol uchel o gyfranogwyr oedd â phroblemau cymhleth fel digartrefedd neu mewn perygl o fod yn ddigartref (14 y cant; 159/1174), camddefnyddio sylweddau (11 y cant; 133/1174), wedi ymwneud yn flaenorol â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid (11 y cant; 130/1174), neu gam-drin domestig (11 y cant; 124/1174).
- 4.11 Ar lefel leol, mae'r rhwystrau sy'n wynebu cyfranogwyr yn eang ac yn niferus, gan amlygu'r themâu o gyfweliadau ansoddol yn Adran 4.10. Mae Tabl 4.4. isod yn dangos bod gan o leiaf 99 y cant o'r holl gyfranogwyr ledled yr holl awdurdodau lleol o leiaf un rhwystr ac, ar gyfartaledd, dywedodd staff fod cyfranogwyr yn wynebu o leiaf bum rhwystr gwahanol. Mae ystod ac amlygrwydd y rhwystrau hynny yn awgrymu bod angen cynyddol am gefnogaeth fel ADTRAC h.y., cefnogaeth sy'n rhoi cymorth cyfannol sy'n canolbwyntio ar les, gan danlinellu ymhellach honiadau rhanddeiliaid am werth ADTRAC.

Tabl 4.4: Rhwystrau a nodwyd yn y data monitro, yn ôl Awdurdod Lleol

Awdurdod Lleol	% sydd ag o leiaf un rhwystr	Nifer y rhwystrau ar gyfartaledd
Wrecsam (N=152)	100%	9.01
Ynys Môn (N=190)	100%	8.29
Sir y Fflint (N=55)	100%	7.85
Sir Ddinbych (N=209)	100%	5.79
Conwy (N=199)	99%	7.03
Gwynedd (N=276)	99%	6.01

Sylfaen: yr holl gyfranogwyr (n=1174)


- 4.12 Fel yr adroddwyd o'r blaen, soniodd lleiafrif o randdeiliaid a staff strategol am y risg o ddyblygu rhwng ADTRAC a rhai prosiectau eraill sy'n cael eu cynnal yn yr ardal, gan gynnwys gorgyffwrdd â Chymunedau am Waith (CfW). O ganlyniad i

gyfyngiadau llif cyllid, dywedodd rhai staff fod rhywfaint o gyfyngiadau ar ble y gall y prosiectau weithredu. Mae hyn wedi peri mwy o broblem i rai cyd-fuddiolwyr nag eraill, yn dibynnu ar nifer y codau post Cymunedau yn Gyntaf yn yr awdurdodau lleol. Ar draws y sampl, roedd 11 y cant o'r cyfranogwyr yn byw mewn ardal sy'n rhan o Cymunedau yn Gyntaf. Fodd bynnag, dylid cofio hefyd er y gallai fod risg o orgyffwrdd, roedd hyn yn gyfyngedig oherwydd y gefnogaeth wahanol a gynigid trwy ADTRAC a rhaglenni cyflogadwyedd eraill e.e., cynnig iechyd meddwl a lles pwrpasol ADTRAC.

Ymgysylltiad y Cyfranogwyr

- 4.13 Fel y dangosir yn Ffigur 4.5. isod, roedd bron i draean o'r cyfranogwyr a gyfwelwyd wedi dod i gysylltiad ag ADTRAC trwy'r Ganolfan Byd Gwaith (JCP). Mae hyn yn cyd-fynd yn dda â'r hyn a ddywedai staff mai'r Ganolfan Byd Gwaith oedd un o'r llwybrau atgyfeirio mwyaf cyson ac amlaf. Yr ail lwybr atgyfeirio a nodwyd amlaf oedd 'gwasanaeth cymorth arall'. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys nifer o wasanaethau llai fel cymdeithasau tai a chefnogaeth i grwpiau penodol e.e., cefnogaeth i ofalwyr ifanc. Mae'r ystod o wasanaethau cymorth a restrwyd, ac amllder y cyfranogwyr a ddywedodd mai'r rhain oedd eu llwybrau atgyfeirio, unwaith eto yn ategu'r ystod eang o anghenion ac amgylchiadau sy'n wynebu'r cyfranogwyr.

Ffigur 4.5:Sut dechreuodd eich cyswllt gydag ADTRAC?



Sylfaen: yr holl gyfranogwyr a atebodd y cwestiwn (n=81)

- 4.14 Er bod y Ganolfan Byd Gwaith yn ddull atgyfeirio a ddefnyddir yn gyson (cyfeirir ato yn nogfennaeth y prosiect fel yr Adran Gwaith a Phensiynau / DWP), eto fel y dangosir yn Nhabl 4.5 isod, roedd y llwybrau atgyfeirio yn amrywio ledled yr awdurdodau lleol. Mae hyn yn cyd-fynd yn dda â'r dull hyblyg a ddefnyddir ym mhob awdurdod lleol, y berthynas a sefydlwyd eisoes a'r gwahaniaethau yn y mathau eraill o gefnogaeth sydd ar gael ym mhob ALL. Yn benodol, cyfeiriodd rhanddeiliaid at grwpiau llywio a byrddau partneriaeth (e.e., byrddau Partneriaeth NEET) o fewn eu hawdurdod lleol sy'n sicrhau bod gwasanaethau a phrosiectau yn ymwybodol o gynigion ac i ble y gellir cyfeirio atgyfeiriadau. Fodd bynnag, un farn a fynegwyd gan leiafrif o randdeiliaid oedd bod y systemau presennol lle mae ymadawyr ysgol yn cael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol at Gyrfa Cymru ac wedi hynny Cymru'n Gweithio yn arwain at fylchau mewn cyfathrebu a chefnogaeth. Yn benodol, awgrymodd staff y byddai'n well atgyfeirio rhai ymadawyr ysgol a chyfranogwyr TRAC yn syth at ADTRAC:

'Dylid anfon unrhyw berson ifanc at ADTRAC, a dydw i ddim yn deall pam nad ydyn nhw. Yr un peth yn achos y rhai sy'n gadael ysgol. Ar hyn o bryd maen nhw'n cael eu cyfeirio at Gyrfa Cymru, ac yna Cymru'n Gweithio, felly mae yna fethiant yn y cysylltiad ar hyn o bryd, pan allai fod yn wirioneddol dreiddgar.

[...] Dwi'n meddwl am TRAC i rai sydd mewn addysg ond mewn perygl o syrthio oddi ar y cledrau, ond dwi'n meddwl am ADTRAC ar gyfer pan rydych chi *wedi* syrthio oddi ar y cledrau. Dydyn ni ddim yn cael atgyfeiriadau gan TRAC a chredaf y dylem.' **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

Fodd bynnag, dylid cydnabod mai dyma ddealltwriaeth staff sy'n ymwneud ag ADTRAC ac oherwydd bod Cymru'n Gweithio yn cael ei weithredu gan Gyrfa Cymru, ni fyddai unigolion yn cael eu hatgyfeirio fel hyn. Dylid ystyried hefyd mai bwriad Cymru'n Gweithio yw bod yn 'siop un stop' ar gyfer cefnogaeth i fynd i'r afael ag anghenion yr unigolyn yn annibynnol.

Tabl 4.5: Atgyfeiriadau Cyfranogwyr, yn ôl Awdurdod Lleol


Math o Atgyfeirio	Wrecsam (N=204)	Sir y Fflint (N=97)	Ynys Môn (N=190)	Sir Ddinbych (N=209)	Conwy (N=198)	Gwynedd (N=276)
Adran Gwaith a Phensiynau	21%	19%	40%	35%	32%	47%
Gyrfa Cymru	9%	39%	29%	11%	19%	18%
Awdurdod Lleol	24%	10%	12%	19%	26%	9%
Arall	8%	6%	1%	9%	10%	9%
BIPBC	12%	11%	6%	1%	3%	7%
Trydydd Sector	1%	3%	6%	16%	0%	3%
Hunanatgyfeirio	23%	5%	2%	9%	6%	2%
Addysg Bellach	2%	1%	0%	0%	0%	1%
Addysg Uwch	0%	0%	0%	0%	0%	0%
Prosiect ESF arall	1%	0%	0%	0%	0%	0%
Panel Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF)	0%	0%	3%	0%	4%	0%

Sylfaen: yr holl gyfranogwyr yn y data monitro (n=1174)

- 4.15 Dywedodd mwyafrif helaeth y cyfranogwyr a gyfwelwyd fod ymgysylltu ag ADTRAC yn syml (96 y cant; 75/78). Pan oedd cyfranogwyr yn gadarnhaol, disgrifiwyd yr ymgysylltu ganddynt fel rhywbeth rhwydd a chyflym ac ni chynigiwyd unrhyw awgrym ganddynt ar gyfer gwella. Awgrymodd yr ychydig gyfranogwyr a oedd yn negyddol (pedwar y cant; 3/78) fod eu gweithiwr allweddol, ar brydiau, yn araf i ymateb ac/neu nad oeddent yn clywed yn ôl gan staff. Roedd cyfranogwyr o'r farn bod yr amrywio yn yr amser ymateb wedi digwydd o ganlyniad i COVID-19.
- 4.16 Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o amcanion ac uchelgeisiau cyfranogwyr, gofynnwyd i'r cyfranogwyr beth yr oeddent wedi gobeithio'i gyflawni trwy eu cysylltiad ag ADTRAC. Fel y dangosir yn Ffigur 4.6 isod, roedd bron i hanner ohonynt yn gobeithio cael swydd tra dywedodd un o bob pump o'r cyfranogwyr yr hoffent wella eu hyder a'u sgiliau cyfathrebu, mynd ar gyrsiau a hyfforddiant a

chael rhywfaint o gymorth i chwilio am gyflogaeth briodol iddynt. Pan oedd cyfranogwyr eisiau cefnogaeth i ganfod cyflogaeth briodol, roeddent yn aml yn disgrifio eu hunain i fod 'heb gyfeiriad' neu'n teimlo 'ar goll'. Pan oedd hyn yn wir, roedd cyfranogwyr yn gobeithio y gallai eu cynghorydd ADTRAC eu helpu i ddatrys eu camau nesaf.

Ffigur 4.6: Beth oeddech chi'n gobeithio ei sicrhau trwy eich cyswllt gydag ADTRAC?



Sylfaen: yr holl gyfranogwyr i ateb y cwestiwn (n=80)

Astudiaeth Achos, Wrecsam

Dechreuodd David ymwneud ag ADTRAC trwy ei weithiwr cymdeithasol, ac yntau ar y pryd yn ddi-waith ac yn cael trafferthion ariannol. Yn flaenorol, roedd wedi cael cymorth cyflogadwyedd trwy Gyrfa Cymru, a thrwy Geiswyr Gwaith, fodd bynnag, teimlai fod ei gysylltiad â nhw yn ymwneud â thicio blychau, ac nad oedd ei ddiddordebau ef yn bwysig iddynt.

Teimlai fod ADTRAC yn llawer mwy croesawgar a'u bod yn llawn cymorth ac yn gefnogol iawn i'r hyn yr oedd am ei wneud. Un o'i brif bryderon wrth ymgysylltu oedd ei ddiffyg cyfeiriad ynghylch yr hyn yr oedd am ei wneud gyda'i fywyd, a ddim yn gwybod pwy allai ei helpu gyda hynny.

Cymerodd ADTRAC yr amser gyda David i weld beth yr oedd wedi mynd drwyddo a beth ddylai ei gamau nesaf fod. Sylweddolodd David fod ganddo ddiddordeb mewn trin coed a helpodd ADTRAC ef i oresgyn y rhwystrau y teimlai ef oedd rhyngddo ef a'r nod hwnnw. Helpodd ADTRAC ef i weithio tuag at ei gerdyn CSCS sy'n hanfodol ar gyfer y math o waith a ddymunai, yn ogystal â'i gynorthwyo hefyd i gael gwersi gyrru i'w helpu i deithio o gwmpas yn haws gan y byddai hynny'n bwysig i ddilyn gyrfa fel triniwr coed.

Ar ôl cael cefnogaeth gan ADTRAC, mae David bellach wedi cael gwaith fel triniwr coed a thirluniwr gan ffrind iddo ar sail hunangyflogedig. Ar ben hyn, mae'n teimlo o ganlyniad i'r gefnogaeth bod mwy o gyfeiriad i'w fywyd a'i fod hefyd wedi gallu gwella ei hyder a'i sgiliau â phobl.

- 4.17 Roedd mwy na dau o bob pump o'r cyfranogwyr (44 y cant; 35/80) wedi cael cefnogaeth arall cyn ADTRAC. Fodd bynnag, dywedodd traean o'r cyfranogwyr hynny (34 y cant; 12/35) fod ADTRAC yn teimlo'n fwy pwrpasol ar eu cyfer nhw na'r gefnogaeth arall a gawsant; disgrifiodd 23 y cant fod staff ADTRAC yn haws ymwneud â nhw ac yn cyfathrebu'n well â chyfranogwyr (8/35) a dywedodd pedwar cyfranogwr fod ADTRAC yn well oherwydd y gefnogaeth iechyd meddwl y mae'n ei chynnig. Mae hyn yn cefnogi cred staff a rhanddeiliaid fod cryn fudd yn deillio o weithio'n bwrpasol ac yn benodol y budd o gynnig gwasanaeth amlddisgyblaethol sydd wedi'i gynllunio i ddiwallu amrywiaeth eang o anghenion, gan fynd ymhellach nag y gall prosiectau eraill ei wneud.

Effaith COVID-19

- 4.18 Mae adroddiadau blaenorol wedi amlinellu'r prosesau arferol ynghylch sut y câi pobl ifanc eu hatgyfeirio i ADTRAC. Yn sgil COVID-19 a'r cyfyngiadau ar symud a osodwyd gan y llywodraeth wedi hynny, gofynnwyd i staff yn rownd olaf y gwaith maes adfyfrio ar sut yr oedd prosesau atgyfeirio wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ôl y disgwyl, nododd yr holl staff nifer o newidiadau i'r ffordd yr oedd prosesau atgyfeirio yn gweithio.
- 4.19 Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, dywedodd y mwyafrif o staff nad oedd eu llwybrau atgyfeirio nodweddiadol wedi gweithredu (10/12 o staff). Mae hyn i'w ddisgwyl, gan mai'r Ganolfan Byd Gwaith oedd y llwybr atgyfeirio mwyaf poblogaidd ac, fel rhan o'u hymateb i'r pandemig, newidiwyd blaenoriaethau llwythi gwaith y Ganolfan i wneud lle i gefnogaeth yn gysylltiedig â'r pandemig. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau atgyfeirio wedi amrywio ar draws awdurdodau lleol dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda rhai staff yn nodi niferoedd atgyfeirio uwch (5/12) o ganlyniad i farchnadoedd llafur gorlawn tra bod eraill wedi dweud bod eu hatgyfeiriadau wedi gostwng (6/12). Pan soniai staff am ostyngiad yn yr atgyfeiriadau, awgrymwyd bod hyn o ganlyniad i newidiadau yn y llwybr atgyfeirio nodweddiadol ac/neu oherwydd ei bod yn anoddach cyrraedd pobl ifanc â rhwystrau difrifol:


'Mae [atgyfeiriadau] wedi gostwng, mae ADTRAC yn cefnogi'r unigolion pellaf i'w cyrraedd felly oherwydd eu natur bydd ganddyn nhw rwystrau – mae gennym ni rai nad ydyn nhw'n siarad â ni dros y ffôn, dydi ADTRAC ddim yn gallu cefnogi'r rhain wedyn gan fod angen iddyn nhw gymryd rhan yn llawn.'

(Cyfweliad â staff rheoli a chyflenwi)

- 4.20 Er bod y pandemig wedi effeithio ar nifer yr atgyfeiriadau ar y dechrau, mewn lleiafrif o achosion (3/12), dywedodd staff fod hyn wedi gwella dros amser wrth i lwybrau atgyfeirio addasu i ffyrdd newydd o weithio ac/neu agor eto. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio nad oedd hyn yn wir am bob awdurdod lleol. Nododd dau aelod o staff fod atgyfeiriadau wedi parhau i ostwng ers dechrau'r pandemig oherwydd bod y prosiect yn 'dirwyn i ben' beth bynnag. Mae Ffigur 4.7 isod yn dangos cryn dipyn yn llai o atgyfeiriadau i ADTRAC yn 2020 o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Felly mae'n amlwg fod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar nifer yr atgyfeiriadau i ADTRAC ac felly dylid cadw hyn mewn cof wrth asesu perfformiad y prosiect. Sylwer mai dim ond atgyfeiriadau a arweiniodd at gofrestru yw'r atgyfeiriadau sydd wedi'u cynnwys yma. Pan nad oedd yr atgyfeirio wedi arwain at gofrestru'r unigolyn, roedd hyn fel rheol oherwydd nad oedd unigolion yn addas ar gyfer ymyriad ADTRAC, eu bod eisoes yn byw mewn ardal

Cymunedau yn Gyntaf ac felly na allent weithio gydag ADTRAC, neu nad oeddent yn gymwys i gael cymorth ac/neu nid oeddent wedi llwyddo i ddarparu'r dystiolaeth a oedd yn ofynnol i gofrestru.

Ffigur 4.7: Canran yr atgyfeiriadau i ADTRAC, fesul blwyddyn



Sylfaen: yr holl gyfranogwyr yn y data monitro (n=1174). Sylwer bod 2017 a 2021 wedi'u heithrio o'r dadansoddiad hwn gan fod cyfran yr atgyfeiriadau o'r blynyddoedd hyn yn gyfanswm o 1 y cant ar hyn o bryd.¹⁴

- 4.21 Cadarnhaodd staff a gyfwelwyd fod yr holl waith wyneb-yn-wyneb wedi dod i ben yn ystod y cyfnod clo cyntaf a'r rhai dilynol. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o staff yn dal i allu rhoi rhywfaint o gefnogaeth i gyfranogwyr trwy alwad ffôn, neges destun neu drwy ddulliau digidol (14/17) er bod peth gwaith grŵp a chysiau wedi'u canslo neu eu gohirio (4/17). O ganlyniad i'r dulliau ymgysylltu newydd, disgrifiodd rhai staff ymgysylltiad cyfranogwyr i fod yn amrywiol ac anwadal (6/17), yn enwedig gostyngiad mawr cychwynnol yn ystod y cyfnod clo cyntaf (4/6). Yn gyffredinol, roedd staff yn cydnabod bod ennyn diddordeb cyfranogwyr yn anoddach o ganlyniad i'r pandemig a'r newid yn y dulliau cyflenwi. Yr eithriad i hyn, awgrymodd staff, oedd achosion pan oedd perthynas gref wedi'i meithrin gyda chyfranogwyr cyn y pandemig (2/17). Yn yr achosion hynny, dywedodd staff fod sylfaen dda o ran ymddiriedaeth eisoes wedi'i hadeiladu ac felly roedd cyfranogwyr yr un mor fodlon ymgysylltu â'u cynghorydd ADTRAC trwy ddulliau eraill (nad oeddent wyneb yn wyneb).

¹⁴ Sylwer bod y dadansoddi ar y Wybodaeth Monitro wedi'i wneud ym mis Mawrth 2021 ac felly nid yw unrhyw atgyfeiriadau a wnaed i ADTRAC ar ôl mis Chwefror 2021 wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

- 4.22 Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, disgrifiodd dau aelod o staff y gefnogaeth a roddwyd i gyfranogwyr fel un a oedd yn symud o gefnogaeth ADTRAC arferol i gadw llygad ar eu lles. Yn yr achosion hyn, dywedodd staff nad oeddent yn gallu darparu cefnogaeth o'r un ansawdd ar-lein neu dros y ffôn a'i bod yn bwysicach, yn y senario hwn, i wneud yn siŵr fod cyfranogwyr yn ymdopi a bod rhywun yn holi sut oeddynt.
- 4.23 Dywedodd staff fod COVID-19 wedi atgyfnerthu a gwaethygu rhai o'r problemau yr oedd gan gyfranogwyr eisoes, gan sôn yn benodol am fwy o bryder a theimlo'n ynysig (7/17). Meddai un aelod o staff:
- ‘Y bobl sydd gennym ar y prosiect mewn gwirionedd yw pobl nad ydynt erioed wedi camu y tu allan i'w cartrefi. Mae wedi cymryd amser hir i rai ohonyn nhw ddechrau ar eu taith, mynd allan, mynd i hyfforddiant ac ymgysylltu â'u grŵp cyfoedion ac mae COVID wedi dod a'u llorio eto. Roedd llawer ohonynt yn dysgu drwy gael profiad ymarferol a gwirfoddoli. Ond pan ddaeth COVID, fe gaeodd bopeth i lawr. Roedd yn rhaid i ni ddarganfod ffordd o ymgysylltu â nhw. Pa bynnag ffordd yr oedden nhw am gynnal cyswllt, mi ddilynon ni hynny.’ **(Cyfweliad â staff rheoli a chyflenwi)**
- 4.24 Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, fod rhai staff wedi gallu ailafael mewn rhai gweithgareddau corfforol awyr agored rhwng y cyfnodau clo. Dywedwyd bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfranogwyr a chynghorwyr ADTRAC. Pan nad oedd staff wedi gallu aildechrau gweithgareddau awyr agored, roedd hyn o ganlyniad i brotocolau yn eu hawdurdod lleol. Rhaid cymryd yn ganiataol felly bod protocolau ar gyfer gweithgareddau awyr agored ar adegau llacio ar gyfyngiadau symud wedi amrywio ledled yr awdurdodau lleol.
- 4.25 Er y newid yn y ffordd o weithio o fod wyneb-yn-wyneb i fod yn ddigidol, nid oes hollt yn y farn bod cefnogaeth cyn-COVID yn dda a'r gefnogaeth ôl- COVID yn annigonol. Yn hytrach, mae'r farn am gyflenwi'n ddigidol yn amrywio ac yn dibynnu ar gyd-destun ac amgylchiadau unigol. Er enghraifft, awgrymodd dros hanner y staff a gyfwelwyd fod ymgysylltu digidol wedi bod yn fwy effeithiol gyda rhai cyfranogwyr nag ymwneud wyneb-yn-wyneb. Disgrifiwyd cysylltu ar-lein yma fel rhywbeth a oedd yn haws ei wneud i rai yn enwedig pan fo gan unigolion gyfrifoldebau gofalu ac/neu'n byw yn rhywle anghysbell (gan ei gwneud hi'n anodd teithio i gefnogaeth ADTRAC). Gan gyd-fynd â chefnogaeth sy'n hyrwyddo themâu trawsbynciol, disgrifiodd un aelod o staff yr ymgysylltu ar-lein yn gweithio'n arbennig o dda gyda grŵp o famau ifanc, gan ddweud:

‘Roedd gennym garfan o famau ifanc, a oedd, cyn y pandemig, yn anodd ymgysylltu â nhw ond yna dyma nhw’n cymryd diddordeb yn yr hyfforddiant ar-lein. Dros yr ychydig fisoedd cyntaf cwblhaodd cryn dipyn [o’r mamau ifanc] hyfforddiant ardystiedig Lefel 2 e.e., hylendid bwyd, gofal cwsmer, cymorth cyntaf a chymorth cyntaf pediatreg er mwyn iddynt fedru mynd i ofal plant, iechyd a diogelwch.’ **(Cyfweliad â staff rheoli a chyflenwi)**

- 4.26 Ar y llaw arall, awgrymodd bron i hanner y staff nad yw ymgysylltu digidol mor effeithiol â chymorth ADTRAC traddodiadol wyneb yn wyneb (7/17). Roedd staff yn ystyried bod ymgysylltu digidol yn llai effeithiol oherwydd nad oeddent yn gallu ‘dal dwylo’ yn sensitif a rhyngweithio â’r cyfranogwyr yn yr un modd trwy ddulliau rhithwir. Dywedodd lleiafrif o staff (5/17) hefyd fod rhai cyfranogwyr wedi ymgysylltu llai ac/neu wedi bod â llai o awydd ymgysylltu â’u cynghorydd yn ystod y cyfnodau clo ac awgrymwyd nad yw cyflwyno digidol yn effeithiol oni bai fod gan gyfranogwyr fodd o ddefnyddio adnoddau e.e., rhyngwrdd dros y ffôn, gliniadur neu lechen ac nad oedd hyn bob amser yn bosibl i’r cyfranogwyr. Mae hyn yn awgrymu, er bod cefnogaeth gyfannol ac wyneb-yn-wyneb yn hanfodol ac yn gynhenid i werth ADTRAC, efallai y bydd rhai achosion pan fo’n well cysylltu’n ddigidol. Dylai unrhyw gefnogaeth yn y dyfodol, wrth asesu anghenion cyfranogwyr, ystyried opsiynau digidol ac wyneb-yn-wyneb, gan gynnig model cymorth hybrid a chyfunol.
- 4.27 Ar y cyfan, er nad oedd gweithgareddau traddodiadol ADTRAC (e.e., cymorth wyneb-yn-wyneb) wedi gallu digwydd yn yr un modd ag yr oeddent o’r blaen ar gyfer yr holl gyfranogwyr yn ystod y pandemig, dylid cydnabod a chymeradwyo bod timau cyflenwi wedi gallu addasu eu gwasanaethau o fewn cyfnod byr ar ddechrau cyfyngiadau COVID-19. Mewn rhai achosion, i staff roedd hyn yn golygu gwrthio i weithio’n fwy arloesol mewn amgylchedd dan bwysau a chydweithio’n agos gyda phartneriaid:
- ‘Rwy’n credu, o safbwynt darparu gwasanaeth, ein bod wedi gorfod addasu a bod yn greadigol yn ein hardal. Rydyn ni wedi gorfod gweithio gydag asiantaethau i helpu gyda hyn. Ydech, rydech chi’n gweithio gartref ond gallwn ni’n dal ddarparu gwasanaeth [...] Mae pobl wedi dweud wrthyn ni ein bod ni’n gwneud yn dda iawn. Mae wedi effeithio ar ein gwaith darparu gwasanaeth ond mae manteision ac anfanteision i hynny.’ **(Cyfweliad â staff rheoli a chyflenwi)**

Effaith COVID-19 ar Gyfranogwyr

- 4.28 Soniai staff yn aml am yr effaith y credent i COVID-19 ei chael ar gyfranogwyr. Fel y nodwyd uchod, dywedodd staff bod cyflyrau iechyd meddwl, yn enwedig pryder ac iselder ysbryd wedi gwaethgu o ganlyniad i'r pandemig ynghyd â chyfranogwyr yn teimlo'n ynysig, a hyn eisoes yn bryder mawr cyn y pandemig. Er bod diogelu bob amser wedi bod yn elfen bwysig yn y gefnogaeth, awgrymwyd hefyd ei bod wedi dod yn anoddach i staff sicrhau hyn gan eu bod yn pryderu nad oeddent yn cael 'y darlun cyfan' o'r hyn oedd yn digwydd yng nghartref unigolyn trwy alwadau a negeseuon testun.
- 4.29 Nododd staff hefyd fod y pandemig wedi bod yn 'ergyd' ychwanegol i gyfranogwyr ac y bydd yn anoddach iddynt gael swydd o ganlyniad i farchnad lafur sy'n orlawn. O fewn hyn, rhagwelodd staff mai llawer o'r unigolion a fydd hefyd yn chwilio am waith fydd y rhai â sgiliau a phrofiad uwch o ganlyniad i ddiswyddiadau a wnaed yn ystod y pandemig. Tybiwyd y bydd cyfranogwyr yn ei chael yn anoddach cael gwaith ac y bydd hyn yn cael effaith ychwanegol ar eu hyder a'u hunan-barch. Pryder ychwanegol a godwyd oedd nad yw sectorau y mae cyfranogwyr yn draddodiadol yn mynd iddynt, megis lletygarwch, yn ymarferol bosibl ar hyn o bryd ac felly ychydig iawn o gyfleoedd sydd gan gyfranogwyr i gael cyflogaeth.

Astudiaeth Achos, Sir Ddinbych

‘Canlyn breuddwydion’

Hanes goresgyn rhwystrau yn ystod cyfnod clo COVID i gefnogi cyfranogwr ADTRAC i gael lleoliad gwaith mewn sba/salon harddwch.

Roedd gan Nia eisoes gymwysterau Lefel 2 a 3 mewn Gwasanaethau Harddwch ac Ewinedd ond roedd hi am ennill cymwysterau pellach gan nad oedd wedi llwyddo i gael swydd mewn sba iechyd lleol yn y gorffennol gan eu bod yn gofyn iddi feddu ar gymwysterau tylino. Roedd Nia hefyd eisiau ennill rhywfaint o brofiad gwaith perthnasol i wella ei CV a'i helpu i feithrin ei hyder yn y gweithle.

Llwyddodd ei mentor ADTRAC i gael cwrs tylino iddi gyda Natural Touch Training a oedd yn gweithio yn ardal y Gogledd. Nid oedd y cwrs yn gallu dechrau'n syth oherwydd y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf ond wrth i'r cyfyngiadau lacio llwyddwyd i gynnal yr hyfforddiant. Rhoddwyd yr holl gyfarpar diogelu personol angenrheidiol i Nia er mwyn iddi fynychu'r cwrs yn ddiogel. Trefnwyd cludiant i'r lleoliad hyfforddi ac oddi yno hefyd oherwydd nad oedd trafndiaeth gyhoeddus ar gael i'r lleoliad hyfforddi o'i chartref gwledig. Yn ogystal, rhoddodd ADTRAC liniadur iddi er mwyn iddi fedru cwblhau ei modiwlau Anatomeg a Ffisioleg ar-lein fel rhan o'i chymhwyster. Pasiodd Nia yr asesiadau ar-lein a'r diwrnod asesu ymarferol ar gyfer tylino Swedaidd ac mae ar fin dilyn cwrs tylino Cerrig Poeth, ac ar ôl hyn bydd ganddi'r holl gymwysterau angenrheidiol i'w galluogi i ymgeisio am swyddi mewn sba iechyd.

Yn ddiweddar, ymgeisiodd Nia am swydd wag mewn sba leol, gan gyflwyno ei CV wedi'i ddiweddarau gyda'i chymwysterau newydd eu hennill, a threfnwyd cyfweiliad. Cafodd Nia rywfaint o gymorth wrth baratoi at y cyfweiliad i'w helpu i deimlo'n fwy hyderus gan Swyddog Ymgysylltu â Chyflogwyr a mentor ADTRAC, ac roedd hi hefyd wedi cwblhau cwrs tridiau ar-lein ar Hyder a Grymuso gyda'r Gweithdy yn Ninbych a hwnnw, meddai, wedi helpu i gynyddu ei hyder.

Yn anffodus, cafodd y cyfweiliad ei ganslo ar y funud olaf oherwydd cyfyngiadau lleol yn Sir Ddinbych yn sgil COVID. Ar hyn o bryd mae'r cyflogwr wedi gohirio eu recriwtio ond maen nhw wedi dweud y byddant yn cysylltu â Nia eto ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio er mwyn iddi allu mynychu'r cyfweiliad bryd hynny.

Yn y cyfamser, bydd ADTRAC yn parhau i gefnogi Nia wrth ganolbwyntio ar chwilio am leoliad gwaith mewn sba neu salon harddwch iddi, chwilio am gyfleoedd cyflogaeth â thâl ac i ymgeisio a pharatoi at gyfweiliadau. Er y gohirio dros-dro ar rai o ddyheadau Nia yn ystod cyfnod cyfyngiadau'r pandemig oherwydd bod y diwydiant Harddwch wedi cau, mae hi'n dal

i fod yn llawn cymhelliant ac wedi ymwneud yn llawn â'i chefnogaeth drwy'r cyfan a bydd yn cyflawni ei breuddwyd o gael gwaith yn y sector harddwch yn y dyfodol agos.

- 4.30 Fel y nodwyd wrth drafod ymatebion cyfranogwyr i wahanol ddulliau cyflenwi, awgrymodd staff, ar sail amgylchiadau a chyd-destun personol, bod cyfranogwyr i gyd wedi ymateb yn wahanol i'r pandemig, gyda rhai unigolion yn ymgysylltu mwy a rhai yn cilio o'r gefnogaeth. Yn ogystal, er bod systemau a gwiriadau wedi'u sefydlu i sicrhau lles cyfranogwyr, roedd y gefnogaeth wedi gweithio i rai dros y pandemig ond nid i eraill. Mewn pedwar achos, dywedodd staff fod hyn hefyd yn wir am staff, gyda rhai yn gallu gweithio o gartref yn rhwydd tra nad oedd hynny'n wir i eraill:


'Dwi'n credu ei fod wedi mynd yn un o dair ffordd. Roedd rhai pobl yn ei ystyried yn gyfle i gychwyn o'r newydd ac roedd eraill yn ei weld yn esgus ac yna roedd rhai eraill ohonyn nhw wedi llithro'n ôl. Allech chi ddim cysylltu hynny â grŵp neu garfan benodol, mae mor unigol. Rydym wedi rhoi mecanweithiau ar waith i gefnogi ond mae eu hamgylchiadau i gyd mor wahanol. Nid ADTRAC yn unig yw hynny, mae pawb yr un fath, mae hyd yn oed y bobl fwyaf cryf yn ei chael hi'n anodd ar brydiau ac mae hynny'n iawn. Y rhai nad oedd ganddynt yr ymyriad [cyn-COVID-19], dwi'n poeni a oes ganddyn nhw'r sylfaen i fwrw drwyddi.' **(Cyfweiliad â staff rheoli a chyflenwi)**

Rhoi cefnogaeth

- 4.31 Fel y dangosir yn Ffigur 4.8 isod, roedd cyfranogwyr fel arfer wedi cael cefnogaeth gan ADTRAC am gyfnod oedd yn para rhwng tri a chwe mis (21 y cant; 157/739). Fodd bynnag, cafodd dros hanner y cyfranogwyr gefnogaeth am dros chwe mis (55 y cant; 410/739) a bron i chwarter ohonynt wedi cael cefnogaeth am flwyddyn neu hirach (24 y cant; 178/739). Roedd adroddiadau blaenorol wedi tynnu sylw at bryderon a fynegwyd gan randdeiliaid ynghylch pa mor hir y câi cyfranogwyr gefnogaeth ADTRAC ac nad oedd hyn yn cyd-fynd â'r cynllun busnes gwreiddiol. Er bod y pryderon hyn yn parhau i fod yn amlwg, mae'n bwysig pwysleisio bod 60 y cant o gyfranogwyr ADTRAC (703/1174) wedi bod â phryderon iechyd meddwl wrth ymuno ag ADTRAC, roedd dros hanner yn ddi-waith hirdymor (56 y cant; 661/1174), roedd 44 y cant wedi cael profiadau dysgu negyddol yn y gorffennol, nid oedd gan 18 y cant unrhyw gymwysterau ac, ar gyfartaledd, cofnodwyd bod gan gyfranogwyr 7.6 rhwystr ar yr adeg yr oeddent wedi ymgysylltu ag ADTRAC. Er bod cyfranogwyr i raddau helaeth wedi cael cefnogaeth am gyfnod hirach nag y disgwyliid wrth ddylunio'r prosiect, mae angen cydnabod maint a difrifoldeb y

rhwystrau sy'n wynebu cyfranogwyr ADTRAC fel rheswm allweddol dros hyn. Yn ogystal, dylai rhaglenni yn y dyfodol sy'n ceisio helpu'r unigolion anoddaf eu cyrraedd, gadw mewn cof y gallai fod angen cefnogaeth hirach ar y garfan hon nag a bennwyd wrth gynllunio'r prosiect.

Ffigur 4.8:Pa mor hir roedd cyfranogwyr yn y prosiect



Sylfaen: Yr holl gyfranogwyr perthnasol yn y data monitro (n=739)

- 4.32 Roedd mwyafrif llethol y cyfranogwyr yn gadarnhaol iawn ynghylch y gefnogaeth a gawsant gan ADTRAC, gydag 89 y cant o'r cyfranogwyr (70/79) yn ei disgrifio i fod yn ddefnyddiol. Yn fwyaf aml, rhoddai cyfranogwyr sylw blaenllaw i'w perthynas â'u cynghorydd ADTRAC fel ffactor cadarnhaol allweddol (36 y cant; 25/70) gan ddisgrifio staff yn fawr eu cymorth, yn gefnogol ac yn anfeirniadol. Mae'n arbennig o bwysig tynnu sylw at y ffaith bod cyfranogwyr yn tueddu i ddisgrifio eu cynghorydd ADTRAC fel rhywun y gallent ymddiried ynddynt ('*confidante*') a rhywun y gallent droi atynt:

'[Roedd] wir yn wasanaeth anhygoel; mae fy mentor wedi mynd y tu hwnt i'r galw ac wedi bod yn help ac yn gefnogaeth wych i mi.' **(Cyfweliad â chyfranogwr)**

'Da iawn ac mae wedi'i deilwra ar gyfer beth sy'n digwydd yn eich bywyd. Ambell i ddiwrnod pan oeddwn i'n strygly, wnaethon ni ddim chwilio am

swyddi na chysiau, wnaethon ni sgwrsio yn lle hynny a dyna'n union roeddwn ei angen ar ddiwrnodau fel hynny – dydyn nhw ddim yn gwrthio eu agenda arnoch chi drwy'r amser. Weithiau pan doeddwn i ddim eisiau gwneud unrhyw beth byddai fy ngweithiwr cymorth yn dod efo fi i fynd â fy nghifft am dro a jest sgwrsio. Roedden nhw'n hynod gefnogol i fy anghenion ac ar y cyfan, mae'r gwasanaeth wir yn dda iawn, iawn.' **(Cyfweliad â chyfranogwr)**

- 4.33 Wrth ystyried yr hyn a weithiodd yn dda yng nghefnogaeth ADTRAC, soniodd y cyfranogwyr hefyd am:
- Natur bersonol a phwrpasol y gefnogaeth (11 y cant; 8/70),
 - Cyngor ar gyflogaeth a oedd yn uniongyrchol bersonol ac yn berthnasol iddynt hwy (11 y cant; 8/70), ac
 - Y gefnogaeth iechyd meddwl a lles (chwech y cant; 4/70).
- 4.34 Yn yr ychydig iawn o achosion pan oedd cyfranogwyr yn negyddol (11 y cant; 9/79) roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i gyfathrebu anghyson â'u cynghorydd (5/9). Dywedodd pob un o'r pum cyfranogwr fod staff wedi rhoi'r gorau i ymateb iddynt a thibiai pedwar cyfranogwr fod hyn o ganlyniad i'r pandemig. Er bod y pandemig wedi peri nifer o rwystrau ac anawsterau wrth hwyluso ymgysylltiad, dylai aelod staff priodol fod wedi cysylltu â'r holl gyfranogwyr a oedd yn ymwneud ag ADTRAC i sicrhau nad oedd y cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn cael eu 'siomi' a'u bod wedi mynd yn angof gan y prosiect. Roedd dau gyfranogwr hefyd yn negyddol am ADTRAC oherwydd bod angen mwy o gymorth iechyd meddwl arnynt nag yr oedd modd iddynt ei gael drwy'r prosiect. Fodd bynnag, dylid cadw mewn cof efallai na fyddai atgofion cyfranogwyr yn rhoi'r stori lawn, gan fod cefnogaeth iechyd meddwl ar gael drwy ADTRAC. Y naill ffordd neu'r llall, dylai cefnogaeth yn y dyfodol sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn gwbl ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt a, phan fyddai cyfranogwyr yn rhoi'r gorau i ymgysylltu, dylai staff fynd ar ôl y cyfranogwyr hynny i sicrhau eu bod yn cael gwybod am yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt.
- 4.35 Fel y soniwyd yn yr adroddiad interim, roedd disgwyl i'r timau cyflenwi lleol ymgorffori'r Pum Ffordd at Les wrth roi cefnogaeth ADTRAC. Mae'r Pum Ffordd at Les yn gasgliad o strategaethau a ddefnyddir yn helaeth a'u hyrwyddo gan GIG a sefydliadau iechyd meddwl i helpu unigolion i gefnogi eu hiechyd meddwl a'u lles eu hunain. Er bod cyfranogwyr a oedd angen cymorth iechyd meddwl arbenigol yn cael eu hatgyfeirio at y gefnogaeth briodol, roedd y Pum Ffordd at Les hefyd yn rhan o'r ddarpariaeth leol er mwyn gwneud yn siŵr bod ADTRAC yn cydymffurfio ag arfer gorau o ran lles meddyliol, yn ogystal â chefnogi'r rheini â phryderon

iechyd ysgafn i gymedrol. I gael rhagor o fanylion am y dull hwn a sut y cafodd ei ddefnyddio yn ADTRAC gweler [Adroddiad Interim ADTRAC](#).

- 4.36 Nododd mwyafrif helaeth y cyfranogwyr a gyfwelwyd eu bod yn trafod eu lles gyda'u cynghorydd ADTRAC (81 y cant; 63/78) ac, i'r rhan fwyaf ohonynt, roedd hyn o gymorth iddynt (71 y cant; 45/63). O ganlyniad i sgysiau am eu lles gyda'u cynghorydd, dywedai cyfranogwyr yn aml eu bod yn gallu derbyn cefnogaeth yn uniongyrchol (42 y cant; 19/45), cael eu cyfeirio at wasanaethau eraill sydd ar gael (29 y cant; 13/45) a thrafod eu diffyg hyder ac/neu sgiliau meddal eraill (31 y cant; 14/45). Yn yr achosion hyn, roedd cyfranogwyr wedi disgrifio cynghorwyr ADTRAC fel *confidante* y gallent 'fwrw eu boliau iddynt'.

'Do, mi wnes i siarad efo nhw am fy mhroblemau hyder, roedd hi'n braf iawn ei gael pethau allan ac roedd jest cael siarad efo rhywun a oedd yn deall wedi fy helpu.' **(Cyfweliad â chyfranogwr)**

Astudiaeth Achos, Sir Ddinbych

Cofrestrodd Luke gydag ADTRAC ym mis Chwefror 2019. Roedd angen cymorth arno o ran cymhelliant a chynyddu ei hyder. Roedd wedi gadael yr ysgol ym mlwyddyn 9 heb unrhyw gymwysterau ac ychydig bach iawn o brofiad gwaith ond fe wyddai ei fod eisiau cael swydd ymarferol megis trin coed neu ffermio un diwrnod. Teimlai'n ynysig gan ei fod yn byw mewn rhan wledig o Sir Ddinbych.

Gweithiai ei Fentor ADTRAC gydag ef ar ei gyflymder ef i ddatblygu cynllun gweithredu pwrpasol a thrwy gael cefnogaeth Ymarferydd Iechyd Meddwl BIPBC ADTRAC mynychodd amryw o gyrsiau Hyder a Phendantrwydd.

Cafodd Luke gyfle i gael lleoliad gwaith gydag adran Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych ac roedd hynny wedi rhoi blas iddo ar goedlannu, gan ddysgu sut i ddefnyddio offer amrywiol, cyflwyniad i ymwybyddiaeth iechyd a diogelwch a gweithio fel rhan o dîm. Arweiniodd hyn ato yn mynychu Cwrs Crefft Bondocio yng Nghanolfan Sgiliau Coetiroedd ym Modfari yn ogystal â mynd ar gyrsiau sgiliau sylfaenol i wella ei sgiliau Mathemateg, Saesneg a chyfrifiaduron. Rhoddodd ADTRAC gymorth â chlodiant i alluogi Luke i gyrraedd gwahanol leoliadau ar gyfer cyrsiau hyfforddi gan ei fod yn byw mewn lleoliad gwledig, gan ddatblygu ei CV a phrynu gliniadur iddo yn ystod y cyfnod clo er mwyn iddo allu cwblhau cyrsiau ar-lein o'i gartref.

I ddechrau arni, roedd Luke eisiau cael gwaith cyflogedig ond yn ystod ei gyfnod gydag ADTRAC sylweddolodd ei fod yn mwynhau dysgu sgiliau newydd felly newidiodd ei feddwl ac am fynd i'r coleg yn llawn amser. Gyda chefnogaeth ei fentor gwnaeth gais llwyddiannus am gwrs Diwydiannau'r Tir Lefel 1 yng Ngholeg Cambria yn ogystal â chymorth i brynu'r offer yr oedd ei angen arno ar gyfer y cwrs.

Dyweddodd Mentor ADTRAC Luke:

'Mae wedi bod yn bleser cefnogi Luke. Mae wedi dod mor bell yn yr amser rydw i wedi ei adnabod o – o fod heb ddigon o hyder i gysylltu â mi yn uniongyrchol i gael sgysiau ffôn hir am ei amcanion ar gyfer y dyfodol. Rydw i mor falch ein bod wedi sicrhau canlyniad addysg amser llawn. Rydw i'n gwybod y bydd yn gwneud yn dda ac yn cael yr yrfa y mae'n gobeithio ei chael yn y dyfodol.'

Meddai Luke:

'Rydw i mor ddiolchgar am yr help gan ADTRAC. Rydw i'n berson gwahanol rŵan. Fyddai'r sgiliau na'r hyder ddim gen i heddiw oni bai am fy mentor a chymorth ADTRAC. Erbyn rŵan mae gen i drefn i fy mywyd ac rydw i'n rhoi fy mryd i gyd rŵan ar fynd i'r coleg i gyflawni fy amcanion ar gyfer y dyfodol.'

4.37 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae rhanddeiliaid yn ystyried bod cynnwys BIPBC yn ADTRAC yn gryfder allweddol ac yn rhoi gwerth i'r prosiect (5/8). Amlygwyd hyn hefyd yn y cyfweiliadau â staff wrth iddynt ddweud ei fod yn darparu set sgiliau sydd fawr ei hangen wrth ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau iechyd meddwl yn ogystal ag yn cefnogi staff i sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn gwneud y penderfyniadau cywir o ran cefnogaeth (8/17 o staff a 3/8 o randdeiliaid). Er y gwyddai un aelod o staff yn iawn pa mor gyffredin oedd problemau iechyd meddwl, dywedodd fod cynnwys BIPBC wedi helpu i dystiolaethu hyn yn ogystal â phwysleisio pwysigrwydd y gefnogaeth hon:

'Yr anghenion sylfaenol o ran iechyd meddwl a aeth bedair gwaith yn fwy na'r targedau gwreiddiol. Mae wedi dangos gwir ddealltwriaeth o sut mae gweithwyr yn deall iechyd meddwl. Credwyd mai cyllid oedd yr angen amlwg gwreiddiol [gan gyfranogwyr] ond mae hynny'n arwain yn ôl at iechyd meddwl yn aml. Mae rhywbeth fel pryder yn dwysáu ei hun a hynny'n achosi ansefydlogrwydd ariannol, gan achosi problemau tai neu gamddefnyddio sylweddau. Mae'n ystod gymhleth o anghenion, mae pobl yn deall mwy am yr anghenion amlwg rŵan, fel rheol mae'n dod yn ôl at iechyd meddwl. Mae'n gyflawniad trist iawn bod ADTRAC wedi dangos hyn ond, o ran gwasanaethau cyhoeddus a phrosiectau ar gyfer y dyfodol, dyma'r brif neges.' **(Cyfweiliad â staff rheoli a chyflenwi)**

4.38 Fel y nodwyd yn yr adroddiad interim, bu oedi cyn i BIPBC ddod yn rhan ac roedd hyn yn dal i gael ei ystyried yn rhwystr i gefnogaeth iechyd meddwl a lles effeithiol mewn lleiafrif o achosion (4/17). Er bod hyd byrrach cyfranogiad BIPBC yn siomedig, roedd y mwyafrif yn dal i fod yn gadarnhaol ynghylch y budd a'r effaith. Fodd bynnag, dylai cefnogaeth yn y dyfodol barhau i ystyried faint o amser rhagarweiniol sydd ei angen ac amser rhoi pethau ar waith, yn enwedig wrth weithio mewn partneriaeth â sefydliadau mawr fel BIPBC nad ydynt efallai yn gallu symud agendâu yn eu blaen mor gyflym ag eraill. Soniodd dau aelod o staff am enghreifftiau o hyn pan nad oedd BIPBC wedi gallu darparu staff a oedd yn gallu siarad Cymraeg. Yn ôl yr hyn a ddeallir, mae BIPBC wedi ceisio llenwi'r swyddi gwag hyn ond nid ydynt wedi gallu gwneud hynny ar gyfer gweddill oes y prosiect.

Cefnogaeth BIPBC

- 4.39 O'r 1,174 o gyfranogwyr a oedd wedi ymwneud ag ADTRAC, cafodd 437 (37 y cant) eu hatgyfeirio i Betsi Cadwaladr (BIPBC).¹⁵ O'r achosion a atgyfeirwyd i BIPBC, cofnodwyd ymyriadau ar gyfer 298 o gyfranogwyr (68 y cant) ac, fel y dangosir yn Nhabl 4.6 isod, roedd yr ymyriad uniongyrchol gan yr ymarferwyr iechyd meddwl yn tueddu i fod yn gefnogaeth ddwysach un-i-un. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cefnogaeth ADTRAC, yn enwedig ei ffocws ar iechyd meddwl a'r galw am y math hwn o gefnogaeth, gyda 15 y cant o holl gyfranogwyr ADTRAC wedi cael cymorth iechyd meddwl un-i-un gan BIPBC drwy gydol cyfnod y prosiect (180/1174). Dylid cydnabod hefyd mai prif flaenoriaeth rôl yr ymarferydd iechyd meddwl oedd gweithio'n anuniongyrchol gyda chyfranogwyr trwy gefnogi'r staff yn nhimau ADTRAC i sylweddoli pwysigrwydd iechyd, lles a gwynnwch emosiynol, cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau ar sut i weithio gyda materion iechyd emosiynol, a sylweddoli pryd fod angen atgyfeirio ymlaen.

Tabl 4.6: Ymyraethau BIPBC a gofnodwyd

Ymyriad BIPBC	Nifer yr Ymyraethau	Canran
Un-i-un	180	60%
Dim gweithredu	40	13%
Cymorth lles	49	16%
Cyffyrddiad ysgafn	2	1%
Cymorth mentor	4	1%
Sesiynau grŵp	9	3%
Ymgynghoriad	9	3%
Atgyfeirio i Wasanaethau	5	2%
Craidd		

Sylfaen: Yr holl gyfranogwyr perthnasol yn y data monitro (n=298)

¹⁵ Sylwer y cafwyd 253 o ymatebion gwag i'r cwestiwn hwn yn y data monitro a'r tîm gwerthuso wedi cymryd hyn i olygu na ofynnwyd am atgyfeiriadau yn yr achosion hyn.

Astudiaeth Achos, Conwy

Cyn ymwneud ag ADTRAC, roedd Laura yn dioddef o iechyd meddwl gwael, hunan-barch isel, a diffyg hyder a hyn oll yn gwneud iddi deimlo fel nad oedd hi'n abl i gael swydd. Argymhellodd ei meddyg teulu y dylai gysylltu ag ADTRAC a rhoddodd y manylion cyswllt angenrheidiol iddi.

Cysylltodd Laura ag ADTRAC ac ymhen wythnos derbyniodd ymweliad yn ei chartref gan aelod o'r tîm a nyrs iechyd meddwl. Teimlai Laura fod y ddwy ohonyn nhw'n gyfeillgar iawn ac fe wnaethon nhw gymryd yr amser i egluro iddi beth oedd y gwahanol wasanaethau yr oedd ADTRAC yn eu cynnig a sut y gallen nhw fod o fudd iddi. Roedd hi'n gwerthfawrogi'r ffaith nad oedd angen iddi ymrwymo i unrhyw beth gan y teimlai fod hyn wedi rhoi llai o bwysau arni i gymryd rhan.

Yn ogystal â'i sesiynau gyda'r nyrs iechyd meddwl, aeth Laura i ddosbarthiadau a oedd yn canolbwyntio ar lunio CV, cyngor ar wneud ceisiadau, a ble i chwilio am swyddi yn ei hardal leol. Awgrymwyd hefyd i Laura y dylai efallai ystyried gwirfoddoli, a hyn yn rhywbeth nad oedd wedi meddwl y gallai ei wneud o'r blaen.

Dechreuodd Laura wirfoddoli yn ei chyngor lleol ac mae bellach wedi cael swydd, ac mae hi'n priodoli hynny i'r CV a'r gwaith cyfweld a wnaeth trwy ADTRAC. O safbwynt iechyd meddwl, mae hi'n teimlo'n fwy hyderus ac mae ei hunan-barch lawer yn uwch nag yr oedd o'r blaen; teimla hefyd fod ei hamser gydag ADTRAC wedi rhoi pwrpas iddi ar adeg pan nad oedd ganddi mohono ac mae wedi rhoi modd iddi roi trefn ar ei bywyd.

Roedd y gefnogaeth bwrpasol iddi hi yn rhan allweddol o'r gwasanaeth a gafodd, ambell ddiwrnod roedd hi'n cael popeth yn anodd a ddim yn teimlo fel chwilio am swyddi neu gyrsiau i ymgeisio amdanyn nhw. Ar y dyddiau hynny, angen sgwrsio y byddai hi a dyna'n union beth oedd ADTRAC yn fodlon ei wneud. Ar ddiwrnodau eraill, nid oedd hi wir eisiau gwneud unrhyw beth o gwbl felly byddai ei gweithiwr cymorth yn ymweld â hi ac yn mynd gyda hi i fynd â'i chi am dro. Roedd natur gefnogol ADTRAC a'r tîm yn glir iddi ac ni theimlai ei bod yn rhan o agenda ond yn hytrach fod ganddynt wir ddiddordeb yn yr hyn yr oedd hi eisiau i ddigwydd.

5. Gwerthuso Canlyniadau – Canlyniadau i Unigolion

Adolygu Data Monitro

- 5.0 Mae ADTRAC wedi cefnogi cyfanswm o 1,178 o gyfranogwyr rhwng 2017-2021. O'r nifer hwn mae 615 (52 y cant) wedi gadael y prosiect yn ffurfiol.

Tabl 5.1: Statws Cyfranogwyr ar y Prosiect

Statws	Nifer y Cyfranogwyr	Canran y Cyfranogwyr (%)
Gweithredol: wedi gadael	615	52%
Gweithredol: yn fyw	267	23%
Gweithredol: wedi ailymgysylltu	4	0%
Gweithredol: wedi ymddieithrio	289	25%
Cyfanswm	1175	100%

Sylfaen: yr holl gyfranogwyr yn y data monitro oedd â gwybodaeth gyflawn ar eu cyfer (n=1175)

- 5.1 Fel y dangosir yn Nhabl 5.2 isod, o'r cyfranogwyr sydd wedi gadael ADTRAC, roedd 44 y cant ohonynt wedi ennill cymhwyster, roedd 34 y cant wedi mynd i gyflogaeth ac roedd 24 y cant wedi mynd i addysg a hyfforddiant. Yn ogystal â'r canlyniadau caled hyn, roedd 70 y cant o'r cyfranogwyr a oedd wedi gadael wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol eraill, gan gynnwys canlyniadau meddal.¹⁶
- 5.2 O'u mynegi o gyfanswm yr holl gyfranogwyr, roedd 18 y cant o'r holl gyfranogwyr wedi mynd i gyflogaeth, 23 y cant wedi ennill cymhwyster, ac 13 y cant wedi dechrau addysg neu hyfforddiant, tra bod 37 y cant wedi cyflawni canlyniad cadarnhaol arall.

¹⁶ Gallai canlyniadau cadarnhaol eraill gynnwys y canlynol:

- Ennill mwy nag un cymhwyster/achrediad o ganlyniad i'r ymyriad
- Ennill rhan-gymhwyster/achrediad
- Cyflawni hyfforddiant heb ei achredu
- Cael ardystiad sy'n berthnasol i fyd gwaith erbyn gadael
- Dechrau ar gwrs addysg rhan-amser (llai nag 16 awr)
- Cwblhau lleoliad profiad gwaith/cyfle gwirfoddoli
- Dechrau cyflogaeth am lai nag 16 awr (gan gynnwys hunangyflogaeth)
- Dechrau cyflogaeth ar gontract dim oriau
- Dechrau ar hyfforddeiaeth
- Gwelliant yn eu lles meddyliol
- Gwelliant mewn canlyniadau meddal

Tabl 5.2: Canlyniadau cyfranogwyr ymysg y rhai sydd wedi gadael

Canlyniad	Nifer y Cyfranogwyr	Canran y cyfranogwyr sydd wedi gadael
Mynd i gyflogaeth	210	34%
Ennill cymhwyster	271	44%
Mynd i addysg/hyfforddiant	147	24%
Canlyniadau cadarnhaol eraill	430	70%

Sylfaen: yr holl gyfranogwyr sydd wedi gadael y prosiect (n=615)

- 5.3 Drwyddi draw, mae'r prosiect wedi rhagori ar ei darged canlyniadau o ran cyfranogwyr yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol eraill, gyda 430 o gyfranogwyr yn cael canlyniadau cadarnhaol eraill yn erbyn targed o 290. Fodd bynnag, mae'r prosiect wedi cael trafferth cyflawni ei darged cychwynnol ar gyfer nifer y cyfranogwyr yn mynd i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, fel y dangosir yn Nhabl 5.3.
- 5.4 Mae'n debygol bod pandemig COVID-19 wedi effeithio'n andwyol ar berfformiad y prosiect yn erbyn y targedau hyn, gan ei fod wedi creu amgylchiadau marchnad mwy heriol yn sgil cau busnesau, rhoi staff ar ffyrlo a chau rhai lleoliadau addysgol a hyfforddiant. Mae tystiolaeth o hyn yn natganiad ystadegol Arolwg o'r Llafurlu Mawrth 2021 Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n amlinellu mai canran y bobl ifanc NEET yn y DU rhwng Hydref a Rhagfyr 2021 oedd tua 11.6 y cant (sy'n cyfateb i 797,000 o bobl ifanc), cynnydd o 0.6 y cant o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2019 (cynnydd o tua 34,000 o bobl ifanc).¹⁷
- 5.5 Fodd bynnag, dylid nodi hefyd, yn y cam Gwerthuso Interim, cyn y gellid teimlo effeithiau'r pandemig mewn gwirionedd, nododd staff cyflenwi ei bod yn annhebygol y caiff targedau eu cyflawni oherwydd cymhlethdod y rhwystrau a wynebai cyfranogwyr. Roedd ymdeimlad ymhlith rhai aelodau'r tîm cyflenwi bod y cyfranogwyr sydd wedi ymuno ag ADTRAC wedi bod yn llawer pellach o'r farchnad lafur nag yr oedd Cyd-fuddiolwyr wedi'i ragweld ar ddechrau'r prosiect. Fel y dywedwyd yn flaenorol, roedd rhwystrau cymhleth a lluosog gan lawer o'r cyfranogwyr a gâi gefnogaeth ac roedd angen cefnogaeth hirdymor, ddwys arnynt cyn y gallent fod yn barod i ymuno â'r farchnad lafur.

¹⁷ ONS, Arolwg o'r Llafurlu, 4^{ydd} Mawrth 2021:

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/unemployment/bulletins/youngpeoplenotineducationemploymentortrainingneet/march2021>

Tabl 5.3: Targedau a Chanlyniadau Cyfranogwyr

Maen prawf	Targed nifer y cyfranogwyr	Targed nifer y cyfranogwyr (cyn yr ailbroffilio)	Perfformiad hyd yma	% y targed sydd wedi'i gyflawni hyd yma
Cyfanswm cyfranogwyr	1,451	1,651	1174	81%
Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) yn ennill cymwysterau erbyn iddynt adael	350	350	271	77%
Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) mewn addysg / hyfforddiant ar ôl gadael	270	280	147	54%
Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) yn mynd i gyflogaeth ar ôl gadael	367	357	210	57%
Cyfranogwyr yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol eraill	290	330	430	148%

Sylfaen: yr holl gyfranogwyr yn y data monitro (n=1174)

5.6 Mae cryn amrywio ym mherfformiad gwahanol awdurdodau lleol yn erbyn y targedau canlyniadau a bennwyd ar ddechrau'r prosiect. Fel y gwelir yn y tri thabl isod (Tablau 5.4 i 5.6), wrth gymharu'r holl awdurdodau lleol ac o ran y tri tharged Cyflogaeth, Addysg neu Hyfforddiant, llwyddodd Ynys Môn i ragori ar ei darged cymwysterau a rhagorodd Wrecsam a Sir y Fflint ar eu targed addysg a hyfforddiant; fodd bynnag, ni chyflawnwyd unrhyw dargedau eraill gan yr awdurdodau lleol.

Tabl 5.4: Cyfranogwyr NEET yn ennill cymhwyster wrth adael - targedau a pherfformiad, yn ôl Awdurdod Lleol

Awdurdod Lleol	Targed	Cyfanswm	Canran y cyfanswm a gyflawnwyd ar adeg yr interim %	Canran y cyfanswm a gyflawnwyd yn gyfan gwbl %
Ynys Môn	54	63	89%	117%
Gwynedd	84	63	49%	75%
Conwy	66	37	47%	56%
Sir Ddinbych	62	31	29%	50%
Wrecsam a Sir y Fflint	84	77	74%	92%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (base = 1174)

- 5.7 Er mai dim ond Ynys Môn a gyflawnodd ei darged canlyniad cymwysterau, mae'n bwysig nodi bod 17 y cant o'r holl gyfranogwyr (196/1174) hefyd wedi ennill ardystiad sy'n berthnasol i waith o ganlyniad i'w hymwneud ag ADTRAC. Mae'n bwysig cydnabod y cyflawniad hwn gan ei fod yn cynnwys ardystiadau nad oeddent yn bodloni'r meini prawf canlyniad cymwysterau, fodd bynnag, ond fe allent fod wedi bod yn allweddol i rai unigolion i fynd i waith. Enghraifft dda o'r math hwn o gymhwyster yw cerdyn Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS) gan na all unigolion weithio ar safle adeiladu heb fod yn berchen ar un.
- 5.8 Er na chyflawnwyd unrhyw dargedau eraill, dylid cydnabod bod y pellter a deithiwyd wedi bod yn sylweddol. Gellir gweld hyn yn arbennig yn y perfformiad yn erbyn y targed addysg a hyfforddiant lle mae canran y cyfanswm a gyflawnwyd yng Nghonwy a Sir Ddinbych wedi cynyddu oddeutu 20 y cant dros y flwyddyn ddiwethaf. O ystyried yr anawsterau a gafwyd yn ystod y flwyddyn, yn enwedig COVID-19, dylid canmol y pellter hwn a deithiwyd ac mae'n awgrymu, pan fu angen darparu ar-lein, bod cynigion addysg a hyfforddiant yn dal wedi bod yn bosibl i raddau.

Tabl 5.5: Cyfranogwyr NEET mewn addysg/hyfforddiant wrth adael - targedau a pherfformiad, yn ôl Awdurdod Lleol

Awdurdod Lleol	Targed	Cyfanswm	Canran y cyfanswm a gyflawnwyd ar adeg yr interim %	Canran y cyfanswm a gyflawnwyd yn gyfan gwbl %
Ynys Môn	46	15	22%	33%
Gwynedd	60	31	38%	52%
Conwy	56	23	21%	41%
Sir Ddinbych	53	19	17%	36%
Wrecsam a Sir y Fflint	55	59	69%	107%

Sylfaen: Data Monitro Cyfranogwyr (n= 1174)

- 5.9 Gan mwyaf, nid yw awdurdodau lleol ledled y prosiect wedi cyflawni eu targedau cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Fodd bynnag, dylid ystyried perfformiad y prosiect mewn cyd-destun ehangach. Roedd blwyddyn olaf ADTRAC wedi'i gynnal yn ystod pandemig byd-eang digynsail ac felly nid oedd wedi gallu cefnogi

cyfranogwyr trwy'r mecanweithiau a ddefnyddiai'n draddodiadol. Ar ben hynny, mae yna ffactorau cyd-destunol eraill a allai fod wedi cael effaith ychwanegol ar ganlyniadau cyflogaeth, addysg a hyfforddiant, megis nodweddion demograffig pob awdurdod lleol ac, mewn rhai achosion, oedi cyn dechrau ar y rhaglen e.e., dechreuodd Ynys Môn weithredu ADTRAC ym mis Ebrill 2018. Wedi dweud hyn, roedd hi'n dal yn bosibl gweld buddion ac effeithiau cadarnhaol ac edrychir yn fanylach ar y rhain isod.

Tabl 5.6: Cyfranogwyr NEET mewn cyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth wrth adael – targedau a pherfformiad, yn ôl Awdurdod Lleol¹⁸

Awdurdod Lleol	Targed	Cyfanswm	Canran y cyfanswm a gyflawnwyd ar adeg yr interim %	Canran y cyfanswm a gyflawnwyd yn gyfan gwbl %
Ynys Môn	54	27	35%	50%
Gwynedd	94	52	39%	55%
Conwy	66	43	35%	65%
Sir Ddinbych	62	44	63%	71%
Wrecsam a Sir y Fflint	91	42	34%	46%

Sylfaen: Data Monitro Cyfranogwyr (n= 1174)

- 5.10 Fel yr amlinellwyd yn 5.2 a 5.3, o blith yr holl gyfranogwyr a oedd wedi ymwneud ag ADTRAC, roedd 37 y cant wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol ond codai hyn i 70 y cant ymhlith cyfranogwyr a oedd wedi gadael ADTRAC. Yn fwyaf cyffredin, cofnodai cyfranogwyr welliannau mewn canlyniadau meddal neu les emosiynol neu feddyliol (gweler Tabl 5.7 isod). O blith y cyfranogwyr a oedd wedi gadael y gefnogaeth, nododd 42 y cant fod eu lles emosiynol a meddyliol wedi gwella. Mae hwn yn llwyddiant arbennig o berthnasol i ADTRAC, o gofio'r bwlch a ddywedai rhanddeiliaid sydd yn y gefnogaeth iechyd meddwl sydd ar gael trwy wasanaethau statudol. Mae cyfranogwyr hefyd wedi cael cefnogaeth i gyflawni canlyniadau a fydd yn helpu i wella eu cyflogadwyedd. Er enghraifft, roedd 60 o gyfranogwyr wedi cwblhau cyfle gwirfoddoli, 47 wedi cwblhau lleoliad profiad gwaith, a 94 wedi gwneud hyfforddiant heb ei achredu.

¹⁸ Dylid nodi, mewn rhai achosion, bod oedi wrth adrodd am ddata monitro gan fod swyddogion monitro yn aros am dystiolaeth o gyflogaeth e.e., contractau cyflogaeth. Gall hyn arwain at gyfansymiau uwch ledled y Cyd-fuddiolwyr nad oeddent ar gael ar gyfer yr adroddiad terfynol hwn.

Tabl 5.7: Canlyniadau cadarnhaol eraill a gyflawnwyd gan gyfranogwyr¹⁹

Canlyniadau cadarnhaol eraill	Nifer y Cyfranogwyr	Canran yr holl gyfranogwyr
Sicrhau rhan-gymhwyster	11	1%
Cyflawni hyfforddiant heb ei achredu	94	8%
Addysg/hyfforddiant sy'n llai nag 16 awr	18	2%
Cwblhau lleoliad profiad gwaith	47	4%
Cwblhau cyfle gwirfoddoli	60	5%
Cyflogaeth/hunangyflogaeth sy'n llai nag 16 awr	23	2%
Dechrau cyflogaeth ar gontract dim oriau	11	1%
Gwelliant mewn lles emosiynol/meddylol	259	22%
Gwelliant mewn canlyniadau meddal	339	29%
Mwy nag un cymhwyster	117	10%
Dechrau ar hyfforddeiaeth	17	1%
Unrhyw ganlyniad cadarnhaol	430	37%

Sylfaen: data monitro'r holl gyfranogwyr (n=1173)

- 5.11 Fel y soniwyd yn Adran 4, wrth ymgysylltu ag ADTRAC am y tro cyntaf, cyfeiriai cyfranogwyr yn aml at nifer o rwystrau a oedd yn eu hatal rhag mynd i gyflogaeth. Wrth adael, ar gyfartaledd roedd gan gyfranogwyr 2.8 rhwystr rhag mynd i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, mewn cymhariaeth â 7.6 rhwystr a nodwyd wrth ddechrau ar y prosiect.²⁰ Yn yr un modd mae dadansoddi parau cyfatebol²¹ yn cadarnhau bod gan gyfranogwyr, ar gyfartaledd, 6.9 o rwystrau wedi'u dogfennu wrth ddechrau ADTRAC ac wrth adael; roedd gan yr un cyfranogwyr hynny 2.5 rhwystr ar gyfartaledd. Roedd y gostyngiad hwn mewn rhwystrau yn ystadegol arwyddocaol ac mae'n dangos bod ADTRAC yn lleihau nifer y rhwystrau i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant ymhlith cyfranogwyr. Mae'r gostyngiad amlwg

¹⁹ Yn yr un modd â chanlyniadau cyflogaeth, mewn rhai achosion, bu oedi wrth fonitro data gan fod swyddogion monitro yn aros i'r cyfranogwyr adael yn llawn o'r prosiect. Gall hyn arwain at gyfansymiau uwch ar draws y Cyd-fuddiolwyr gan nad oeddent ar gael ar gyfer yr adroddiad terfynol.


²⁰ Sylwer bod hyn yn cynnwys yr holl gyfranogwyr lle nodwyd nifer y rhwystrau.

²¹ Cyfranogwyr a oedd wedi rhoi nifer y rhwystrau ar ddechrau ADTRAC ac wrth adael.

hwn yn y rhwystrau ynghyd â chyfran uchel y canlyniadau cadarnhaol a gafodd cyfranogwyr yn cadarnhau'r budd ychwanegol i gyfranogwyr p'un a oeddent wedi llwyddo i gael canlyniadau cyflogaeth, addysg/hyfforddiant ai peidio.

5.12 Mae Ffigur 5.1 isod yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch pa rwystrau y llwyddwyd i'w goresgyn yn bennaf. Wrth gyrraedd y prosiect, soniodd 65 y cant o'r cyfranogwyr am hyder fel rhwystr iddynt fynd i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Wrth adael, roedd hyn wedi gostwng i 23 y cant. Yn ogystal, roedd cyfran y cyfranogwyr a gofnododd ddiffyg profiad/cyflogadwyedd wedi gostwng o 67 y cant i 28 y cant, ac roedd cyfran y cyfranogwyr a nododd nad oedd ganddynt sgiliau a chymwysterau wedi gostwng o 64 y cant i 25 y cant. Gan mai'r rhain yw'r rhwystrau mwyaf cyffredin ar draws y garfan, mae'r lliniaru sylweddol arnynt yn llwyddiant allweddol i'r prosiect.

Ffigur 5.1: Rhwystrau i gyfranogwyr rhag mynd i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, ar adeg dechrau ac wrth adael



Sylfaen: yr holl gyfranogwyr sydd wedi gadael y prosiect (n=615)

- 5.13 O ystyried ffocws ADTRAC ar les ac iechyd meddwl, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod rhwystrau sy'n gysylltiedig â lles hefyd wedi lleihau ymhlith y cyfranogwyr a oedd wedi gadael ADTRAC. Er enghraifft, roedd canran y cyfranogwyr a ddywedai bod teimlo'n ynysig yn gymdeithasol yn rhwystr i fynd i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant wedi gostwng o 42 y cant i 15 y cant. Yn ogystal, gostwng hefyd oedd cyfran y cyfranogwyr a gofnododd bryderon iechyd meddwl a phryderon lles/llesiant fel rhwystrau i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

Newidiadau i sgoriau Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin (GLIMWC)

- 5.14 Mesurwyd lles cyfranogwyr gan ddefnyddio GLIMWC wrth iddynt ddechrau'r prosiect ac wrth iddynt adael.²²
- 5.15 Ar gyfartaledd, y sgôr lles ar gyfer yr holl gyfranogwyr wrth ddechrau oedd 43.2, ac ar adeg gadael y prosiect roedd y sgôr hon wedi codi i 51. Mae'r cynnydd hwn yn ystadegol arwyddocaol. I roi hyn yn ei gyd-destun, sgôr cyfartalog GLIMWC ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed ledled Cymru a gofnodwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-2019 oedd 50.6 (StatsCymru, 2019). Mae hyn yn golygu, ar adeg cyrraedd ADTRAC bod sgoriau lles cyfartalog cyfranogwyr yn sylweddol is nag ymhlith pobl ifanc Cymru. Fodd bynnag, roedd sgoriau cyfartalog cyfranogwyr ADTRAC wrth adael ychydig yn uwch na ffigur cyfartalog Arolwg Cenedlaethol Cymru. Awgryma hyn fod ADTRAC yn cael effaith amlwg ar les cyfranogwyr.
- 5.16 Yn gyfan gwbl, roedd 83 y cant o gyfranogwyr ADTRAC wedi gweld cynnydd yn eu sgôr llesiant wrth adael y gefnogaeth, o'i gymharu â'u sgôr wrth ddechrau. Roedd cydberthynas gadarnhaol rhwng cynnydd yn lles cyfranogwyr a chyfranogwyr yn mynd i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Er bod hon yn gyfran ychydig yn is o gyfranogwyr nag a gofnodwyd yn yr adroddiad gwerthuso Interim (87 y cant), eto mae'n dal i gyfrif am dros bedair rhan o bump o'r cyfranogwyr a dylid ystyried effaith COVID-19 yn ffactor a allai fod wedi cael effaith lles negyddol ar gyfranogwyr.

²² Canllawiau ar ddehongli sgoriau GLIMWC: mae'r GLIMWC yn cynnwys 14 eitem sy'n gysylltiedig â lles cadarnhaol. Ar gyfer pob eitem mae'r unigolyn sy'n ymateb yn rhoi sgôr rhwng 1a 5, gan olygu cyfanswm sgôr rhwng 14 a 70. (Warwick Medical School, 2020). Ar y sgôr byddai graddfa uwch yn dangos lles uwch. Mae mwy o wybodaeth ar sgorio a dehongli sgoriau GLIMWC ar gael [yma](https://www.warwick.ac.uk/health/warwick-medical-school/interim-report).

- 5.17 Ledled y ddau ryw, statws anabledd, statws cyflogaeth a chyfranogwyr yn nodi iechyd meddwl fel rhwystr, gwelwyd bod sgoriau llesiant yn ystadegol arwyddocaol. Er bod rhywfaint o amrywio rhwng y sgoriau wrth ddechrau ac wrth adael ar draws y nodweddion (fel y gwelir yn Ffigur 5.8 isod) dylid cydnabod a chanmol y gwelliant sylweddol o ganlyniad i ADTRAC.

Tabl 5.8: Sgoriau GLIMWC cyfranogwyr, yn ôl nodwedd

Nodwedd	Categori	GLIMWC wrth ddechrau	GLIMWC wrth adael
Rhyw	Dyn	44.4	54.4
	Menyw	39.4	49.3
Anabledd	Oes	38.7	48.7
	Nac oes	42.6	52.3
Statws cyflogaeth ar adeg yr ymyriad	Yn ddi-waith hirdymor	42.2	52.6
	Economaidd anweithgar	40.9	49.5
	Di-waith yn y tymor byr	42.8	52.3
Iechyd meddwl yn rhwystr	Ydi	38.6	49.1
	Nac ydi	48.3	56.2

Sylfaen: yr holl gyfranogwyr sydd wedi gadael y prosiect (n=615)

Newidiadau mewn Cyflogadwyedd ac yn Barod am Waith


- 5.18 Gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr lenwi [Work Star](#) wrth iddynt ymuno â'r prosiect ac wrth adael. Mae Work Star yn mesur gwahanol agweddau ar gyflogadwyedd a chyflogaeth, ac fe'i defnyddir fel rheol i fesur taith oedolion sydd heb waith neu sy'n dychwelyd i'r gweithle.²³ Mae'r offeryn yn archwilio saith agwedd ar gyflogadwyedd, gan roi sgôr rhwng 1 a 10 i bob un ohonynt.
- 5.19 Ar adeg ymuno â'r gefnogaeth, y sgôr cyfartalog ar draws pob un o'r saith elfen oedd 6.1. Wrth adael, roedd y sgôr cyfartalog wedi codi i 7.5. Roedd y cynnydd hwn yn ystadegol arwyddocaol, gan gadarnhau bod ADTRAC wedi llwyddo i wella sgiliau ac ymddygiad cyfranogwyr mewn cysylltiad â chyflogadwyedd. Yn gyfan gwbl,

²³ Mae rhagor o wybodaeth am y Work Star i'w gael [yma](#).

roedd 93% o'r cyfranogwyr a adawodd y gefnogaeth wedi gweld cynnydd yn eu sgôr Work Star.

- 5.20 Fel y dangosir yn Ffigur 5.2 isod, ar gyfartaledd, roedd sgoriau cyfranogwyr wedi gwella'n sylweddol ar draws pob elfen y Work Star. Mae'r cynnydd mwyaf i'w weld yn yr elfennau 'uchelgais a chymhelliant' a 'profiad a sgiliau swydd'. Mae gwelliannau sgoriau Work Star yn cyd-fynd ag awgrymiadau cynharach fod cyfranogwyr, wrth ymgysylltu ag ADTRAC, eisiau cymorth i chwilio am gyflogaeth briodol gan eu bod yn aml yn disgrifio eu hunain i fod 'heb gyfeiriad' neu'n teimlo 'ar goll'. Awgryma hyn fod ADTRAC wedi ymateb i anghenion unigolion. Caiff hyn ei ystyried ymhellach ym marn cyfranogwyr am effaith y rhaglen (o Adran 5.24).

Ffigur 5.2: Sgoriau Work Star y cyfranogwyr, wrth ddechrau ac wrth adael



Sylfaen: yr holl gyfranogwyr sydd wedi gadael y prosiect (n=615). Sylwer bod echel y graff radar yn dangos graddfa 10 pwynt Work Star.

Barn Staff am Effaith

- 5.21 Ar y cyfan, roedd staff o'r farn bod ADTRAC yn perfformio'n dda (9/15) ac yn awgrymu y dylid cydnabod camp y prosiect yn cefnogi lles cyfranogwyr ochr yn ochr â'u helpu i sicrhau canlyniadau cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, yn enwedig dros y flwyddyn ddiwethaf. Gan mwyaf, i staff perfformiad da oedd cyflawni'r targedau neu gyflawni targedau ar gyfer canlyniad penodol. Dywedodd chwe aelod o staff eu bod wedi perfformio'n dda yn erbyn eu targedau hyfforddi tra bod tri aelod o staff wedi dweud yr un peth am eu targedau addysg. Roedd canlyniadau cyflogaeth yn fwy o bryder i staff, gyda saith yn dweud nad ydynt wedi cyrraedd eu targedau. Er mai'r targed cyflogaeth fel rheol yw'r canlyniad anoddaf i'w gyflawni ar gyfer pobl ifanc sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, roedd hyn wedi gwaethygu hyd yn oed yn fwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (o ganlyniad i bandemig COVID-19) ac oherwydd y crebachu ar sectorau penodol fel lletygarwch a thwristiaeth. Mae hyn wedi arwain at lai o gyfleoedd i bobl ifanc, gan effeithio'n anghymesur ar y rhai sydd anoddaf eu cyrraedd.
- 5.22 Wrth adfyfrio ar berfformiad, awgrymodd saith aelod o staff hefyd nad oedd targedau'r prosiect yn cyd-fynd â'r cyfleoedd sydd ar gael yn eu hardal leol, y gefnogaeth i'r garfan benodol ac/neu'r rhwystrau y mae'r garfan yn eu hwynebu. Awgrymodd staff hefyd, gyda'r garfan o bobl ifanc y maent yn eu cefnogi, bod angen cydnabod y gall hi gymryd mwy o amser na'r disgwyl i'w cael i ganlyniad cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Meddai un aelod o staff:
- ‘Dwi'n meddwl mai rhywbeth sy'n llosgi'n araf ydi ADTRAC. Dydi o ddim yn brosiect sy'n ennill yn gyflym; dydi o ddim wedi bod mor llwyddiannus ag y gallai fod ond [...] doedden ni ddim yn gwybod pa mor wael yr oedd pethau'n mynd i fod a faint o heriau yr oedd pobl ifanc yn mynd i'w cael. Mae wastad wedi bod yn broblem anferth. [...] Ar yr wyneb, dydyn ni ddim wedi cyflawni'r hyn roedden ni'n bwriadu ei wneud ond mae'r ansawdd yno a rhaid i ni roi'r pwys priodol ar y rhwystrau rydyn ni wedi'u hwynebu.’ **(Staff rheoli a chyflenwi)**
- 5.23 Fel y gellir disgwyl, pan ofynnwyd iddynt ystyried a yw COVID-19 wedi cael effaith ar berfformiad ADTRAC, dywedodd yr holl staff a deimlai y gallent wneud sylw am hyn (13/17) fod COVID-19 wedi cael effaith. Fel y nodwyd uchod, yr hyn a ddywedai

staff amlaf oedd ei bod wedi dod yn anoddach dod o hyd i gyflogaeth i bobl ifanc yn ystod y pandemig. Roedd hyn oherwydd mwy o gystadleuaeth yn y farchnad lafur (4/5) ac oherwydd nad oedd cynghorwyr ADTRAC wedi gallu darparu profiad gwaith na chyfleoedd gwirfoddoli i gyfranogwyr (3/5). Ystyrid bod profiad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli yn cael eu defnyddio fel 'cam' ymlaen sy'n helpu cyfranogwyr i ymglyfarwyddo ag amgylchedd byd gwaith. Awgrymodd pedwar aelod o staff hefyd ei bod yn anoddach sicrhau y byddai pobl ifanc yn symud ymlaen i'r coleg oherwydd bod y pandemig wedi 'tarfu ar y broses bontio honno'. Er nad yw wedi bod yn bosibl trefnu cyfleoedd o'r fath yn ystod y pandemig, dylai cefnogaeth yn y dyfodol ystyried sut arall y gallai staff helpu cyfranogwyr i addasu i'r cam nesaf yn eu taith h.y., cyflogaeth, hyfforddiant neu addysg.

Barn Cyfranogwyr am Effaith


- 5.24 Roedd mwyafrif llethol y cyfranogwyr (65/79) yn gallu enwi nifer o effeithiau cadarnhaol a oedd wedi digwydd o ganlyniad i ADTRAC. Fel y dangosir yn Ffigur 5.3 isod, roedd cyfranogwyr fel arfer yn nodi nifer o fuddion, gyda llawer o'r rhain yn ymwneud â chynnydd yn eu hyder. Mae'n bwysig tynnu sylw, hyd yn oed mewn achosion pan nad yw cyfranogwyr wedi gallu sicrhau canlyniad cyflogaeth eto, bod y rhan fwyaf ohonynt fel petaent yn gadarnhaol am eu datblygiad personol o ganlyniad i ADTRAC ac yn teimlo eu bod mewn sefyllfa well ar gyfer eu camau nesaf. Yng ngeiriau'r cyfranogwyr:

'Rydw i'n dal i chwilio am waith, ond erbyn hyn mae gen i drwydded yrru fforch godi ac oherwydd hyn rydw i wedi cael mwy o lwyddiant gyda fy CV ac wedi cael mwy o gyfweiliadau swydd. Rwy'n teimlo'n fwy hyderus, ac rwy'n gallu siarad yn well mewn cyfweiliadau swydd. Mae gen i well syniad o ba fath o swydd rydw i eisiau ei gwneud.' **(Cyfweiliad â chyfranogwr)**

'[Rydw i'n] fwy hyderus, rydw i'n teimlo y gallaf wneud mwy yn yr ystyr fy mod wedi sylweddoli fy sgiliau fy hun a beth rydw i'n gallu ei wneud, er fy mod yn ei chael yn anodd dod o hyd i waith oherwydd y pandemig.' **(Cyfweiliad â chyfranogwr)**

- 5.25 Hyd yn oed pan nad yw cyfranogwyr wedi llwyddo i sicrhau cyflogaeth, felly, dylid ystyried, fel yr archwilir yn Adran 7, fod datblygu sgiliau a hyder ganddynt wedi eu symud yn agosach at y farchnad lafur o ganlyniad i gefnogaeth ADTRAC.

Ffigur 5.3: Beth sy'n wahanol am eich bywyd nawr eich bod wedi bod yn rhan o ADTRAC?



Sylfaen: yr holl gyfranogwyr i ateb y cwestiwn (n=79)

- 5.26 O'r 14 cyfranogwr a ddywedodd nad oedd eu bywydau wedi newid o ganlyniad i ADTRAC, mae'n bwysig nodi bod hanner ohonynt wedi awgrymu bod hyn oherwydd rhwystrau neu resymau meddygol eraill; er enghraifft, dywedodd tri fod eu pryderon iechyd meddwl yn eu hatal rhag symud ymlaen a dywedodd dwy eu bod yn feichiog ac felly'n methu â pharhau ag ADTRAC ar hyn o bryd. O ran y lleill, awgrymodd tri mai bach oedd eu cyswllt ag ADTRAC, yn enwedig dros y flwyddyn ddiwethaf, tra bod dau wedi penderfynu symud ymlaen heb gefnogaeth ADTRAC a nododd y ddau gyfranogwr arall nad oedd ADTRAC wedi gallu darparu ar gyfer eu hanghenion. Fel yr awgrymwyd yn flaenorol, dylai unrhyw gefnogaeth yn y dyfodol sicrhau bod systemau ar waith i atal cyfranogwyr rhag teimlo eu bod wedi mynd yn 'angof' ac, os yw anghenion unigolyn yn ddifrifol, yna dylid eu hatgyfeirio at y gwasanaeth priodol. Mae'r rhwystrau y mae pryderon iechyd meddwl yn esgor arnynt yn y cyswllt hwn hefyd yn dystiolaeth bellach o bwysigrwydd a budd gweithio mewn partneriaeth rhwng prosiect fel ADTRAC a GIG.

6. Themâu Trawsbynciol

6.0 Un o amodau cyllid ESF yw'r gofyniad i bob prosiect a ariennir ddangos tystiolaeth eu bod wedi mynd i'r afael â'r Themâu Trawsbynciol canlynol:

- Cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd
- Datblygu cynaliadwy
- Trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol; a
- Hybu'r iaith Gymraeg.

6.1 Cytunodd ADTRAC ar y dangosyddion lefel achosion canlynol ar gyfer ei weithrediadau.

Tabl 6.1: Dangosyddion Themâu Trawsbynciol lefel achosion ADTRAC

Themâu Trawsbynciol	Dangosyddion ThT lefel achosion ADTRAC
CC a phrif ffrydio rhywedd	• Mesur gweithredu cadarnhaol – Pobl Ifanc
	• Mesur gweithredu cadarnhaol – Pobl Ddu, Asiaidd, neu Leiafrifoedd Ethnig
	• Mesur gweithredu cadarnhaol – Pobl Anabl
	• Mesur gweithredu cadarnhaol – Arall (cronfa rwystrau)
	• Gweithgarwch i gefnogi siaradwyr Cymraeg
	• Gweithgarwch gwahanu galwedigaethol
Datblygu cynaliadwy	• Ymgysylltu â Grŵp Mynediad Anabledd
Trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol	• Datblygu Cod Eco
	• Gweithgarwch meithrin sgiliau yn y gymuned
	• Gweithgarwch mentora/eiriolaeth
Themâu Trawsbynciol yn Gyffredinol	• Cynlluniau gwirfoddoli
	• Hyrwyddwr y Themâu

6.2 Isod trafodir pob un o'r Themâu Trawsbynciol hyn, a sut mae prosiect ADTRAC wedi rhoi sylw iddynt.

Cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd

6.3 Mewn perthynas â'r thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd, roedd y prosiect wedi cynnwys y dangosyddion lefel achosion canlynol:

- Mesur gweithredu cadarnhaol – Pobl Ifanc
- Mesur gweithredu cadarnhaol – Pobl Ddu, Asiaidd, neu Leiafrifoedd Ethnig
- Mesur gweithredu cadarnhaol – Pobl Anabl
- Mesur gweithredu cadarnhaol – Arall (cronfa rwystrau)
- Gweithgarwch i gefnogi siaradwyr Cymraeg
- Gweithgarwch gwahanu galwedigaethol
- Ymgysylltu â Grŵp Mynediad Anabledd.

6.4 Er mwyn dangos tystiolaeth o'r dangosyddion hyn, roedd y prosiect wedi gosod sawl targed yn ymwneud â demograffeg cyfranogwyr. Dengys y tabl isod sut mae'r prosiect wedi perfformio yn erbyn pob un o'i dargedau.

Tabl 6.2: Targedau cyfranogi a data perfformiad, yn ôl grŵp demograffig

Grŵp cyfranogwyr	Targed	Targed (%)	Nifer a gyflawnwyd	Canran y targed a gyflawnwyd
Cyfanswm cyfranogwyr	1,451		1179	81%
Cyfranogwyr sydd ag anabledd/cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio	112	8%	331	296%
Cyfranogwyr sy'n Ddu, Asiaidd, neu Leiafrifoedd Ethnig/Mudwyr/Lleiafrifoedd	31	2%	34	110%
Cyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofal plant/gofalu	121	8%	74	61%
Cyfranogwyr gwrywaidd	721	50%	688	95%
Cyfranogwyr benywaidd	730	50%	487	67%

Sylfaen: Data Monitro Cyfranogwyr (n = 1179)

Gweithredu cadarnhaol – Pobl Anabl

6.5 Fel y dangosir yn Nhabl 6.2 uchod, mae'r prosiect wedi rhagori ar dargedau mewn perthynas â chyfranogwyr sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, ac o ran cyfranogwyr o gefndir Du, Asiaidd, neu Leiafrifoedd Ethnig / Mudwyr / Lleiafrifoedd. Yn benodol, ymgysylltodd y prosiect â bron i deirgwaith yn

fwy nag yn y targedau cyfranogwyr ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.

- 6.6 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y gall tystiolaeth o'r thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal gynnwys mesurau gweithredu cadarnhaol i gefnogi pobl anabl (Llywodraeth Cymru, 2019). Mae cryn dystiolaeth o gamau cadarnhaol gan y prosiect yn y maes hwn. Er enghraifft, dywedodd staff cyflenwi iddynt gyflogi cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain (BSL) i gefnogi cyfranogwr â nam ar ei glyw ac wedi gwneud hyfforddiant BSL i wella'r gefnogaeth a gynigiwyd ganddynt i'r cyfranogwr. Barnwyd bod hyn yn wahanol i unrhyw gefnogaeth arall a gafodd y cyfranogwr o'r blaen, pan na chafwyd cyfieithydd ar y pryd iddynt. Gweithiodd rhai staff gydag unigolion oedd ag anableddau dysgu nad oedd wedi cael diagnosis cyn hynny gan eu cefnogi i gael mynediad at ddiagnosis i sicrhau rhoi'r gefnogaeth gywir iddynt. Roedd staff hefyd wedi mynychu hyfforddiant i roi cefnogaeth i gyfranogwyr ag anableddau penodol. Er enghraifft, cynhaliodd staff o Ynys Môn hyfforddiant ynghylch rhoi meddyginiaeth yn y boch i gefnogi person ifanc ag epilepsi difrifol. Roedd tystiolaeth hefyd bod staff wedi gweithio i frocera perthynas rhwng darparwyr hyfforddiant a chyfranogwyr ag anableddau. Nodweddd arall o weithredu cadarnhaol oedd y ffordd yr oedd staff yn annog cyfranogwyr i siarad am eu hanabledd. Gofynnai staff cyflenwi i'r cyfranogwyr a oeddent yn hunanddiffinio eu hunain i fod ag anabledd, roedd hyn yn hybu sgysiau agored am anabledd a allai helpu i lunio'r gefnogaeth i'r person ifanc.
- 6.7 Er mwyn cefnogi cyfranogwyr anabl, mae'r prosiect hefyd wedi cymryd camau cadarnhaol drwy ymgysylltu â grwpiau mynediad i'r anabl, trwy Rwydwaith Anabledd dan arweiniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a drefnodd lwybrau a fforymau trafod ar gyfer cyfranogwyr anabl. Adroddodd Sir y Fflint a Wrecsam fod pobl ifanc ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol wedi mynychu sesiwn grŵp ADTRAC unwaith yr wythnos. Daeth Sir Ddinbych â siaradwyr gwadd i'w sesiynau Aros ar y Llwybr/Keep on Track i gynnal sesiwn ymwybyddiaeth am awtistiaeth, gyda thystysgrif ar gael i'r cyfranogwyr ar ôl cwblhau cwis.
- 6.8 Isod mae astudiaeth achos fer sy'n dangos sut mae ADTRAC wedi cefnogi cyfranogwr sydd ag anabledd:

Astudiaeth Achos, Gwynedd

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae prosiect ADTRAC wedi bod yn cefnogi J sy'n hunanddiffinio yn anabl. Mae J yn ynysig yn gymdeithasol ac yn cael anawsterau wrth ddefnyddio rhai dulliau Trafnidiaeth Gyhoeddus oherwydd ei hanabledd.

Aeth prosiect ADTRAC ati i gefnogi J i gael mynediad at weithgareddau a chyfleoedd ar sail y cynllun Pum Ffordd at Les i helpu J i wella ei lles, cael rhywfaint o bwrpas a threfn i'w bywyd beunyddiol ac i gwrdd â phobl ifanc eraill. Mae J wedi cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau ac ADTRAC wedi sicrhau mynediad iddi i'r gweithgareddau trwy drefnu ac ariannu tacsis a sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cynnal mewn lleoliadau sy'n darparu mynediad cyfartal. Cefnogwyd J i fynychu rhaglen datblygiad personol chwe wythnos a oedd yn defnyddio cyfryngau creadigol i archwilio hunaniaeth personol, labelu a stereoteipio. Trwy hyn cwblhaodd J Gymhwyster Datblygiad Personol L3.

Uchelgais tymor canolig J oedd mynd i'r coleg, a chefnogodd ADTRAC hi i gyflawni'r dyhead hwn trwy drafod ac eirioli ar ei rhan gyda'r coleg lleol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Roedd hyn yn cynnwys cefnogi J i gael mynediad at addasiadau rhesymol a fyddai'n ei galluogi i gael mynediad i addysg amser llawn.

Gweithredu cadarnhaol – Pobl Ddu, Asiaidd, neu Leiafrifoedd Ethnig

- 6.9 Drwy gydol oes ADTRAC (2017-2021) mae'r prosiect wedi rhagori ar y targedau ar gyfer cynnwys cyfranogwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd, neu Leiafrifoedd Ethnig/Mudwyr/Lleiafrif. Fel y dangosir yn Nhabl 6.3 isod, gellir gweld y llwyddiant hwn hefyd ar draws pob ardal cyd-fuddiolwyr namyn un. Ymddengys fod llwyddiant wrth gyflawni'r targed hwn yn gysylltiedig â gwahanol nodweddion poblogaeth ym mhob ardal, gyda rhai staff cyflenwi yn nodi mai bach iawn oedd y poblogaethau Du, Asiaidd, neu Leiafrifoedd Ethnig/Mudwyr/Lleiafrif yn yr ardaloedd yr oeddent yn gweithio ynddynt.

Tabl 6.3:Yr ymgysylltiad â chyfranogwyr Du, Asiaidd, neu Leiafrifoedd Ethnig, yn ôl Awdurdod Lleol

Awdurdod Lleol	Targed	Cyfanswm	Cyfanswm
ADTRAC	31	34	110%
Ynys Môn	3	5	167%
Gwynedd	14	7	50%
Conwy	6	6	100%
Sir Ddinbych	3	4	133%
Sir y Fflint a Wrecsam	6	12	200%

Sylfaen: Data Monitro Cyfranogwyr (n = 1179)

- 6.10 Roedd tystiolaeth hefyd o weithredu cadarnhaol i hyrwyddo cynnwys poblogaethau Du, Asiaidd, neu Leiafrifoedd Ethnig/Mudwyr/Lleiafrif. Er enghraifft, roedd Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint wedi cynnwys pobl o wahanol ethnigrwydd mewn deunyddiau marchnata i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei hyrwyddo fel un sy'n agored i bawb. Yn ogystal, nododd staff cyflenwi eu bod wedi ymgysylltu â chymunedau teithwyr, sefydliadau cymunedol Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig a sefydliad ffoaduriaid o Syria i godi ymwybyddiaeth am ADTRAC. Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r gwaith hwn wedi esgor ar atgyfeiriadau sylweddol i'r prosiect. Mae BIPBC hefyd wedi cymryd camau cadarnhaol i gefnogi cyfranogwyr Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig trwy ymuno â'r Pwyllgor Gwrth-Hiliaeth, Gwrth-wahaniaethu a Chymhwysedd Diwylliannol i wella pa mor hygyrch yw ei wasanaethau ymhlith pobl Ddu, Asiaidd, neu Leiafrifoedd Ethnig. Yn ystod pandemig COVID-19, roedd BIPBC hefyd wedi hyrwyddo Llinell Gymorth BAME Cymru, sef llinell gymorth a sefydlwyd i ymateb i'r cynnydd yn y galw am gefnogaeth gan gymunedau Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig wrth i'r pandemig effeithio arnynt.

Gweithredu cadarnhaol – Menywod a Gofalwyr

- 6.11 Fel y nodwyd yn yr adroddiad interim, cafodd y prosiect hi'n anoddach cyrraedd y targedau mewn perthynas â chyfranogwyr benywaidd a chyfranogwyr â gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill.
- 6.12 Fodd bynnag, rhoddodd ADTRAC gefnogaeth ar waith i geisio hybu cyfranogiad cyfranogwyr â chyfrifoldebau gofal plant. Er enghraifft, disgrifiodd staff y prosiect eu bod wedi trefnu lleoedd gofal plant a meithrinfeydd i gynorthwyo rhieni i gymryd rhan. Roedd y gefnogaeth hon am ddim i rieni er mwyn iddynt fedru mynychu cymwysterau ac ennill profiad gwaith. Cyn cyfnodau clo'r Deyrnas Unedig, roedd staff ADTRAC hefyd yn trefnu grwpiau rhieni i roi cyfle i gyfranogwyr â chyfrifoldebau gofal plant drafod rianta a chwilio am waith. Nododd un aelod o staff fod hyn wedi arwain y grŵp i fod yn 'grŵp helpu'i gilydd', ac roedd rhai o'r cyfranogwyr wedi cefnogi ei gilydd drwy fynd ar gyrsiau gyda'i gilydd a chymryd camau i addysg bellach. Fodd bynnag, nododd rhai staff prosiect, er eu bod wedi gwneud gwaith sylweddol i drefnu gofal plant, roedd y nifer a fanteisiodd ar hynny yn gymharol isel, ac ymddengys ei fod pe bai'n adlewyrchu'r ffaith fod yn well gan rai rhieni fod gartref gyda'u plant. I rai o'r cyfranogwyr hyn, mae hyfforddiant ar-lein / o bell wedi bod yn well ganddynt gan ei fod yn eu galluogi i aros gyda'u plant. Mae hyn wedi bod yn fantais anfwriadol i sut mae COVID-19 wedi effeithio ar waith y prosiect, gan ei fod yn rhoi mwy o hyblygrwydd i rai rhieni ymgysylltu â'r cymorth y mae ADTRAC yn ei gynnig iddynt.
- 6.13 O ran unigolion oedd â chyfrifoldebau gofalu eraill, er enghraifft y rhai a oedd yn ofalwyr di-dâl i berthynas sy'n oedolyn, ceisiai'r prosiect eu cefnogi i fynd i'r afael â'r rhwystrau yr oeddent yn eu hwynebu a'u cefnogi i sicrhau eu bod yn cael y budd-daliadau sydd ar gael iddynt. Dywedodd staff o Wynedd eu bod wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'r adran gofalwyr ifanc i weld sut y gallent gefnogi'r bobl ifanc hyn. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd nododd staff ei bod hi'n anodd ennyn ymgysylltiad y bobl ifanc hyn, gan fod rhai ohonynt yn teimlo nad oeddent yn gallu mynd i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant oherwydd yr angen i fod gartref yn gofalu.

6.14 Y targed a osodwyd gan y prosiect ar gyfer dynion a menywod oedd 50 y cant yr un o'r grŵp cyfranogwyr. Fodd bynnag, roedd menywod wedi'u tangynrychioli ymhlith cyfanswm y cyfranogwyr, gan gyfrif am 41 y cant o'r cyfranogwyr, tra bod 59 y cant o'r cyfranogwyr yn ddynion ifanc. Mewn cyfweiliadau, dywedodd rhai staff cyflenwi fod y prosiect wedi gweld nifer uwch o gyfranogwyr gwrywaidd a nodi eu bod wedi cael trafferthion cael rhagor o gyfranogwyr benywaidd er gwaethaf ymdrechion i'w hyrwyddo. Fodd bynnag, mae'r staff cyflenwi wedi cymryd camau i gynyddu nifer y cyfranogwyr benywaidd, er enghraifft, mae Sir Ddinbych wedi ysgrifennu deunyddiau hyrwyddo newydd yn y gobaith y byddai cynulleidfa fenywaidd yn uniaethu'n well â'r rheiny. Roedd rhai staff wedi dweud fod hwn yn faes yn y prosiect y teimlent na allent ddylanwadu arno lawer, gan fod cyfranogwyr yn cael eu hatgyfeirio i ADTRAC o ffynonellau eraill:

'Dyma'r un peth na allwn wneud unrhyw beth yn ei gylch, rydyn ni'n cael yr atgyfeiriadau a gawn, allwn ni ddim gwneud unrhyw beth i godi'r proffil.'

(Cyfweiliadau â staff y prosiect)

Astudiaeth Achos, Gwynedd

Mae James yn gofalu am aelod o'i deulu a hynny, yn ei farn ef, yn rhwystr mawr iddo fynd i gyflogaeth, ynghyd â'i ddiffyg profiad mewn gweithle. Argymhellodd yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr y dylai James ymgysylltu ag ADTRAC er mwyn iddo fynd i'r afael â'r rhwystrau a deimlai oedd yn ei atal rhag mynd i gyflogaeth. Yn dilyn ei atgyfeirio, cafodd James y broses i fod yn syml iawn, roedd staff ADTRAC wedi cwrdd ag ef yn ystod yr wythnos ar ôl ei atgyfeirio, gan symud ymlaen o'r fan honno. Credai fod y staff yn dda iawn am ei gofio a beth oedd ei sylfaen sgiliau, gan wneud i'r gwasanaeth deimlo'n fwy personol a phwrpasol.

Aeth ADTRAC ati i gofrestru James ar gwrs coleg a oedd yn canolbwyntio ar baratoi pobl at waith. Roedd y cwrs yn ymdrin ag elfennau yn ymwneud â sicrhau cyflogaeth megis: sut i chwilio am waith, sut i ysgrifennu CV, sut i fod yn llwyddiannus mewn cyfweiliadau, ynghyd ag awgrymiadau eraill. Roedd y cwrs hefyd yn cynnwys cyflogwyr lleol yn dod i mewn ac yn siarad am yr hyn maen nhw'n ei wneud. Mae James o'r farn mai'r cwrs hwn wnaeth ei helpu yn y pen draw i baratoi ar gyfer gwaith a llwyddo i gael gwaith cyflogedig.

Yn ogystal â'r cwrs, helpodd ADTRAC James i sylweddoli bod ei rôl fel gofalwr yn rhywbeth a allai ei helpu i ddod o hyd i swydd yn hytrach na bod yn rhwystr i waith. Daeth i ddeall fod rhai o'r pethau y mae wedi bod yn eu gwneud fel rhan o'i gyfrifoldebau gofalu hefyd yn trosi i sgiliau y gellir eu defnyddio yn y gweithle.

Bellach mae gan James swydd ac ar y cyfan mae'n teimlo'n fwy hyderus. Mae'n teimlo cyn ATRAC ei fod wedi dibrisio ei hun oherwydd ei gyfrifoldebau gofalu, ond mewn gwirionedd mae'n gwybod bellach fod hynny wedi rhoi llawer o sgiliau iddo sy'n ei wneud yn ddefnyddiol iawn i gyflogwyr. Mae James yn ystyried ADTRAC fel rhywbeth a all wirioneddol helpu pobl sy'n ei chael hi'n anodd cael gwaith, neu hyd yn oed wella eu CV.

Gweithgarwch gwahanu galwedigaethol

- 6.15 Yn ogystal â thargedau cyfranogwyr mewn perthynas â rhyw unigolion, mae gan y prosiect amcanion yn ymwneud â phrif ffrydio rhywedd. Mae gweithgareddau i hyrwyddo prif ffrydio yn ymwneud ag 'arloesi, hyblygrwydd, dysgu a derbyn normau newydd' (OECD, 2014). O ganlyniad, mae'r term 'prif ffrydio rhywedd' yn ymwneud â gweithgareddau sy'n hyrwyddo cynhwysiant rhyw ledled y prosiect. Pan ofynnwyd iddynt sut roedd ADTRAC wedi bod yn gweithio tuag at y thema drawsbynciol hon, nododd rhai staff na chymerwyd dull gwahanol o reidrwydd tuag at gefnogi cyfranogwyr gwrywaidd neu fenywaidd, gan fod y gefnogaeth yn ei hanfod yn 'canolbwyntio ar yr unigolyn', fodd bynnag, roedd tystiolaeth bod staff

cyflenwi wedi cymryd camau cadarnhaol i hyrwyddo gweithgarwch prif ffrydio rhywedd.

6.16 Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru ar Themâu Trawsbynciol dylai gweithgarwch prif ffrydio rhywedd gynnwys gweithgareddau sy'n herio gwahanu galwedigaethol a chefnogi merched i fynd i feysydd STEM (Llywodraeth Cymru, 2019). Mae tystiolaeth bod y prosiect wedi cefnogi unigolion i fynd i alwedigaethau sy'n mynd yn groes i ystrydebau ar sail rhyw ac felly'n cyfrannu at ddiwylliant o normaleiddio neu 'brif ffrydio'. Er enghraifft, nododd un aelod o dîm y staff cyflenwi eu bod yn cynnal hyfforddiant ar sut i ddelio ag ystrydebau rhyw mewn galwedigaethau a'u bod wedi gweithio gyda chyfranogwyr i'w cefnogi i fynd i alwedigaethau anhraddodiadol. O fewn hyn, roeddent wedi cefnogi cyfranogwyr benywaidd a oedd eisiau mynychu cyrsiau ar feysydd wedi'u dominyddu'n draddodiadol gan ddynion, megis STEM, codio cyfrifiadurol ac adeiladu, ac yn yr un modd wedi cefnogi cyfranogwyr gwrywaidd a oedd â diddordeb mewn mynd i alwedigaethau mwy traddodiadol fenywaidd megis gofal. Cyflwynodd cyd-fuddiolwyr y dystiolaeth ganlynol ynghylch cefnogi cyfranogwyr benywaidd i fynd i feysydd wedi'u dominyddu'n draddodiadol gan ddynion:

- Cefnogwyd cyfranogwr benywaidd i ymgeisio a mynd am gyfweiliadau ar gyfer ymuno â'r Llynges.
- Roedd cyfranogwr benywaidd wedi gwneud cais llwyddiannus i gwrs Peirianeg Lefel 2.
- Cefnogwyd cyfranogwr benywaidd i fynd ar gwrs gosod lloriau lamedig.
- Roedd cyfranogwr benywaidd wedi cofrestru ar gwrs mecaneg mewn coleg lleol.
- Roedd cyfranogwr benywaidd wedi gadael i fynd i weithio fel prentis diffoddwr tân

6.17 Roedd staff cyflenwi hefyd wedi trefnu sgysiau gan unigolion a oedd yn gweithio mewn galwedigaethau anhraddodiadol, er enghraifft roeddent wedi gwahodd diffoddwr tân benywaidd, a pheiriannydd benywaidd i mewn i roi sgysiau. Fodd bynnag, ymddengys bod y gwaith hwn yn ymwneud yn fwy â chefnogi pobl ifanc i

gyflawni eu hamcanion, yn hytrach na dylanwadu arnynt i fynd ati'n benodol i wneud dewisiadau a oedd yn mynd yn groes i ragdybiaethau ar sail rhyw:

‘Roedd gennym gryn dipyn o ferched a oedd eisiau swyddi a oedd yn draddodiadol yn rhai dynion ac i'r gwrthwyneb. Nhw oedd wrth y llyw wrth lunio eu cynlluniau eu hunain.’ **(Cyfweliadau â staff y prosiect)**

Gweithredu cadarnhaol – Arall (cronfa rwystrau)

- 6.18 Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys dangosydd lefel achosion sy'n ymwneud â chefnogi pethau eraill (cronfa rwystrau). Defnyddiodd Cyd-fuddiolwyr y gronfa rwystrau ar gyfer y camau cadarnhaol canlynol i hyrwyddo cyfle cyfartal:
- Talu am drafnidiaeth i gyfranogwyr er mwyn iddynt fedru mynd i leoliadau coleg neu brofiad gwaith,
 - Talu am gyfrifiaduron i gyfranogwyr i'w galluogi i gael mynediad at gyrsiau hyfforddi ar-lein,
 - Talu am ddillad cyfweliad i gyfranogwyr,
 - Costau pasbortau a mathau eraill o ddulliau adnabod sy'n ofynnol er mwyn agor cyfrifon banc, cyfweliadau ac i ddechrau cyflogaeth,
 - Cefnogi cyfranogwyr i brynu cyfarpar diogelu personol i'w galluogi i gael mynediad at gyrsiau ymarferol, er enghraifft roedd Sir Ddinbych wedi helpu cyfranogwr i brynu'r cyfarpar gofynnol iddo wneud cwrs llif gadwyn,
 - Mae Sir y Fflint a Wrecsam wedi cydlynu â Gweithredu dros Blant i gynorthwyo pobl ifanc sy'n gadael gofal i gael gafael ar gyllid ar gyfer offer coleg.

Hyrwyddo'r Gymraeg

- 6.19 Fel rhan o thema drawsbynciol cyfle cyfartal, roedd y prosiect yn cynnwys dangosydd lefel achosion i fynd ati'n weithredol i gefnogi siaradwyr Cymraeg.
- 6.20 Ar adeg ymuno ag ADTRAC, roedd cyfranogwyr yn gallu dewis pa iaith yr hoffent gyfathrebu ynddi, a dewisodd 12 y cant y Gymraeg, o'i chymharu ag 88 y cant o bobl a oedd yn well ganddynt gyfathrebu yn Saesneg. Er hyn, fodd bynnag, nododd cyfran uwch o'r cyfranogwyr (37 y cant) eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Derbyniodd cyfanswm o 94 o gyfranogwyr (8 y cant) ddarpariaeth ADTRAC yn Gymraeg.

- 6.21 Roedd y galw am ddarpariaeth Gymraeg yn wahanol ledled y rhanbarthau sy'n gweithredu ADTRAC (fel y dangosir yn Nhabl 6.4). Er enghraifft, nododd rhai staff cyflenwi nad oeddent wedi dod ar draws unrhyw gyfranogwyr a oedd am dderbyn cefnogaeth yn Gymraeg, a bod rhai wedi dod ar draws 'un neu ddau' yn unig o gyfranogwyr a ofynnodd am y ddarpariaeth hon.

Tabl 6.4: Cyfranogwyr a dderbyniodd y ddarpariaeth yn Gymraeg, yn ôl Awdurdod Lleol

Awdurdod Lleol	Naddo	Do – yn llawn	Do – yn rhannol
Wrecsam (N=204)	97%	0%	0%
Sir y Fflint (N=97)	98%	0%	0%
Ynys Môn (N=190)	90%	5%	5%
Sir Ddinbych (N=209)	100%	0%	0%
Conwy (N=199)	98%	0%	2%
Gwynedd (N=276)	74%	19%	8%

Sylfaen: Data Monitro Cyfranogwyr (n = 1167)

- 6.22 Gan ystyried dull ADTRAC o ganolbwyntio ar yr unigolyn, nododd staff cyflenwi fod yr iaith a ddefnyddir yn dibynnu ar 'ddewis' y cyfranogwr, a'u bod yn barod i gyflwyno'n ddwyieithog lle dymunir.
- 6.23 Er bod y defnydd o'r Gymraeg i'w weld yn isel mewn rhai ardaloedd, roedd hi'n amlwg bod y tîm cyflenwi wedi rhoi ystod o gamau ar waith i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys:
- Mynediad at fentoriaid dwyieithog.
 - Gofyn am gyflenwi dwyieithog ym mhob manyleb tendro a dogfennaeth contract dwyieithog,
 - Mentor sy'n siarad Cymraeg yn rhoi cefnogaeth yn ystod cyrsiau / gweithgareddau pan nad oedd ddarpariaeth ar gael yn Gymraeg (e.e. cyrsiau diogelwch SIA) ac i gefnogi ymarferydd BIPBC nad yw'n siarad Cymraeg yn ystod sesiynau 1:1 a sesiynau hybiau lles,
 - Darparu dogfennaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg – roedd hyn yn cynnwys ffurflenni'r prosiect a llenyddiaeth i gyfranogwyr, megis y pamffled '[Cael Help gyda'ch Lles](#)' a luniwyd gan y tîm cyflenwi,

- Cyfieithu offer lles ac iechyd meddwl safonol i'r Gymraeg, megis graddfa GLIMWC,
- Cynnwys cyrsiau y gellid eu cynnal yn Gymraeg ar gronfa ddata'r darparwyr,
- Cynnal sesiynau blasu Cymraeg,
- Hyrwyddo'r defnydd ar y Gymraeg trwy fentrau fel 'gair y dydd' i helpu i fagu hyder iaith, ac
- Roedd staff ADTRAC wedi ymchwilio i gyfleoedd i gysylltu cyflogwyr â chyfranogwyr sy'n siarad Cymraeg, gyda'r bwriad o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

6.24 Mae cyfieithu offer lles safonol fel GLIMWC yn dangos gwerth ychwanegol yn erbyn y thema drawsbynciol hon. Gweithiodd ADTRAC ochr yn ochr â LLAIS ac Uned Treialon N Worth i gael fersiwn Gymraeg o offeryn GLIMWC. Mae mwy o fanylion am y broses i'w cael mewn dogfen astudiaeth achos sydd wedi'i hatodi i'r adroddiad hwn (Atodiad A). Bydd y gwaith hwn yn cael effaith barhaol mewn perthynas â hyrwyddo'r Gymraeg gan ei fod yn darparu adnodd parhaol y gall ymarferwyr ac ymchwilwyr ei ddefnyddio gyda siaradwyr Cymraeg i werthuso eu lles.

Datblygu Cynaliadwy

- 6.25 Mae datblygu cynaliadwy yn cynnwys 'cadw pobl yng Nghymru i fyw a gweithio yma, ynghyd â darparu'r ansawdd bywyd ar gyfer trigolion yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru, 2016).
- 6.26 Mae ADTRAC yn mynd i'r afael â'r thema drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy trwy'r dangosyddion canlynol:
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol ac arfer da wrth gynnal gweithgareddau
 - Integreiddio datblygu cynaliadwy i waith codi ymwybyddiaeth a rhaglenni addysg a hyfforddiant, a
 - Hyrwyddo a chydabod iechyd a lles fel un o gonglfeini economi iach, fywiog.

- 6.27 I gyd-fynd â'r dangosydd cyntaf sef hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol, mae ADTRAC wedi datblygu [Cod Eco](#) sy'n ymrwymo'r prosiect i fabwysiadu'r dulliau gweithredu canlynol:
- Lleihau, aildefnyddio, ailgylchu i gael cyn lleied o wastraff â phosibl
 - Annog dulliau teithio sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd (gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, rhannu cerbydau, a lleihau'r angen i deithio)
 - Annog timau'r prosiect i fabwysiadu ffyrdd ymarferol o arbed ynni
 - Annog eraill i fabwysiadu mesurau tebyg.
- 6.28 Roedd tystiolaeth bod ADTRAC wedi integreiddio datblygu cynaliadwy wrth godi ymwybyddiaeth ac yn yr addysg a hyfforddiant. Er enghraifft, roedd staff cyflenwi wedi cefnogi cyfranogwyr i gymryd rhan mewn gweithredu cadarnhaol ar yr amgylchedd. Cymerodd cyfranogwyr o ADTRAC y Dwyrain ran mewn prosiect glanhau traeth i gael llai o wastraff yn mynd i mewn i'r cefnforoedd, gan hyrwyddo meddylfryd cynaliadwy ymhlith cyfranogwyr. Mae staff cyflenwi o Sir y Fflint a Wrecsam hefyd wedi ymgorffori trafodaethau am gynaliadwyedd amgylcheddol yn eu sesiynau coginio ar-lein. Roedd y sgysiau hyn wedi'u trefnu o amgylch defnyddio ac ailgylchu plastig, ac roedd yn helpu'r cyfranogwyr i feddwl am y camau cadarnhaol y gallent eu cymryd i leihau eu defnydd plastig. Roedd Sir Ddinbych hefyd wedi cynnwys mis amgylcheddol yn ei ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol gan fod â ffocws ar arbed ynni. Yn ogystal â hyn, cefnogodd Sir Ddinbych y cyfranogwyr i fynychu cwrs sgiliau coetir wyth wythnos. Yn Ynys Môn, gwelwyd tystiolaeth o hyn hefyd yn eu rhaglen hyfforddi pan drefnodd mentoriaid i'r cyfranogwyr fynychu prosiectau Elfennau Gwyllt lle buont yn helpu i greu gardd ar gyfer yr henoed, glanhau a garddio yng Nghanolfan Gelf Ucheldre a chynorthwyo gyda glanhau traeth yn Nhyddyn Môn.
- 6.29 Fel dangosydd rhaglen ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gwelir yr integreiddio datblygu cynaliadwy i raglenni codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant trwy amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi a ddarperir gan yr ardaloedd hyn, yn enwedig Gwobr John Muir. Cefnogodd timau Ynys Môn, Gwynedd a Sir Ddinbych grŵp o gyfranogwyr i gwblhau rhaglen 12 wythnos yn rhoi profiadau yn yr awyr agored er mwyn hyrwyddo lles a datblygu hunanhyder, sgiliau cymdeithasol a

gweithio mewn tîm. Cafodd y cwrs ei gaffael trwy'r system brynu ddeinamig (DPS) a dysgodd y cyfranogwyr sgiliau amgylcheddol a chadwraeth newydd gan arwain at ennill eu Gwobr John Muir.

- 6.30 Mae datblygu cynaliadwy hefyd yn cynnwys hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal, ynghyd â chydabod a hyrwyddo iechyd a lles i fod yn un o gonglfeini economi iach, fywiog (Llywodraeth Cymru, 2016).
- 6.31 Mae'r nodweddion hyn wedi'u hymgorffori yn nyluniad a rhesymeg ADTRAC. Er enghraifft, mae nod ADTRAC o leihau rhwystrau i bobl ifanc rhag symud ymlaen i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn hyrwyddo cyfle cyfartal. Cefnogir hyn hefyd gan dargedau'r prosiect mewn perthynas â grwpiau demograffig, gan mai eu bwriad yw sicrhau bod y gefnogaeth yn sicrhau cyfle cyfartal ar draws grwpiau amrywiol.
- 6.32 Yn ogystal, mae hybu iechyd a lles yn ganolog i ddyluniad ADTRAC, gan ei fod yn fwriadol yn ymgorffori darpariaeth iechyd meddwl a lles mewn prosiect sy'n ceisio dod ag unigolion yn agosach at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae hyn yn dangos cydnabyddiaeth bod lles yn ganolog i allu pobl ifanc i gael mynediad at gyflogaeth, addysg a hyfforddiant a gwneud cynnydd ynddynt. Mae gweithredu cadarnhaol mewn perthynas â hybu iechyd a lles hefyd yn amlwg yn nefnydd ADTRAC o'r Pum Ffordd at Les ac yn yr hyrwyddo arno ganddynt; mae hwn yn rhoi'r offer i gyfranogwyr feddwl am eu lles eu hunain. Mae ADTRAC hefyd wedi cyfieithu'r offeryn hwn i'r Gymraeg, gan alluogi cyfranogwyr i gael mynediad at yr offeryn hwn yn eu dewis iaith.

Trechu Tlodi

- 6.33 Mae mynd i'r afael â thlodi yn un o amcanion canolog ADTRAC. Mae thema drawbynciol trechu tlodi yn cynnwys creu 'cyfleoedd cyflogaeth a datblygiad gyrfa' (Llywodraeth Cymru, 2016). Mae hyn yn cynnwys 'mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyflogaeth megis sgiliau gwael, diffyg gofal plant neu opsiynau cyfyngedig o ran cludiant, gan helpu mwy o bobl i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth' (Llywodraeth Cymru, 2016).

- 6.34 Mae ADTRAC yn cynnwys sawl nodwedd sy'n helpu i roi sylw i'r rhwystrau hyn. Er enghraifft, mae ADTRAC yn mynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth trwy roi cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau ac astudio am gymwysterau. Mae data monitro yn dangos bod 271 o gyfranogwyr (23 y cant) wedi ennill cymwysterau trwy ADTRAC, ac o'r rhain roedd 117 ohonynt wedi ennill mwy nag un cymhwyster. Ymhellach, roedd 196 o gyfranogwyr (17 y cant) wedi ennill ardystiad sy'n berthnasol i waith trwy eu hymwneud â'r prosiect. Hefyd cefnogodd ADTRAC 47 o gyfranogwyr (pedwar y cant) i gael profiad gwaith, a 60 (pump y cant) i wirfoddoli. Yn hyn o beth mae'r prosiect wedi mynd i'r afael â'r thema drawsbynciol Trechu Tlodi trwy ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc wella eu sgiliau.
- 6.35 Mae ADTRAC hefyd yn cynnig ymyriadau ymarferol i helpu pobl ifanc i gael gwaith. Er enghraifft, mae'r prosiect wedi rhoi cyllid ar gyfer cludiant i gyfranogwyr, gan fod ei ddiffyg yn rhwystr i gael mynediad at gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant i rai cyfranogwyr. Fel y trafodwyd uchod, rhoddodd y prosiect gymorth gofal plant i rieni i'w galluogi i gael mynediad at gyflogaeth a hyfforddiant.
- 6.36 Yn ogystal â'r uchod, mae'r prosiect yn cynnwys y dangosyddion themâu trawsbynciol canlynol:
- Gweithgarwch meithrin sgiliau yn y gymuned
 - Gweithgarwch mentora/eiriolaeth
 - Cynlluniau gwirfoddoli.
- 6.37 Dangosir y dangosyddion hyn isod.

Gweithgarwch meithrin sgiliau yn y gymuned

- 6.38 Mae enghraifft o'r gweithgaredd hwn yn cynnwys sesiynau galw heibio wythnosol mewn canolfan cymunedol yn Ynys Môn, sydd wedi cynnwys cyfleoedd i wirfoddoli, gan gynnwys cefnogi te prynhawn henoed, plannu a phaentio mainc.
- 6.39 Roedd cyfranogwyr o Sir Ddinbych wedi mynychu cwrs meithrin hyder a gynhaliwyd gyda Chanfod Cymru, a hwnnw wedi rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu sgiliau fel gwaith coed. Mynychodd y cyfranogwyr Gwrs Sgiliau Coetir hefyd, sydd wedi rhoi sgiliau iddynt mewn rheoli coetir a gwaith coed.

- 6.40 Mae enghreifftiau i'w gweld hefyd yng Ngwynedd, lle bu cyfranogwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o opsiynau tai a digartrefedd ymhlith pobl ifanc, mewn partneriaeth â Gisda, elusen ddigartrefedd ieuenctid.
- 6.41 Trefnodd Sir y Fflint a Wrecsam hefyd i'r Ymarferydd Gwella Iechyd fynychu grŵp rhieni a phlant bach ADTRAC i godi ymwybyddiaeth o'r cyrsiau sydd ar gael i rieni. Cymerodd ADTRAC y Dwyrain ran hefyd mewn ymgyrch Glanhau Moroedd i fod yn rhan o weithredu cymunedol yn erbyn sbwriel yn y môr.

Gweithgarwch mentora/eiriolaeth

- 6.42 Mae gweithgarwch mentora yn greiddiol i gynnal ADTRAC, gan ei fod yn cynnig mentora un-i-un i gyfranogwyr.
- 6.43 Mae'r tîm cyflenwi wedi arwain mentrau i gefnogi ymgysylltiad rhwng y cyfranogwyr. Er enghraifft, cynhaliodd Sir Ddinbych weithgaredd dringo creigiau i gyfranogwyr a oedd ar fin dechrau'r coleg i roi cyfle iddynt rannu eu profiadau a'u teimladau. Roedd y tîm allgymorth hefyd wedi cefnogi person ifanc i gyflwyno sesiwn ar gyfer cyfranogwyr eraill.
- 6.44 Adroddodd y timau o Wynedd ac Ynys Môn eu bod wedi rhoi cefnogaeth bontio i gyfranogwyr a oedd yn dechrau addysg. Gweithiodd y staff cyflenwi gyda'r coleg i sicrhau eu bod yn ymwybodol o anghenion y cyfranogwr yn ogystal â gweithio gyda'r cyfranogwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Hefyd, roedd tîm Ynys Môn wedi datblygu a chynnal cwrs paratoi at goleg mewn partneriaeth â Choleg Menai.
- 6.45 Cefnogodd y tîm o Sir y Fflint a Wrecsam bobl ifanc i gadw mewn cysylltiad â'i gilydd trwy'r pandemig drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a sefydlu grŵp cyfoedion i gefnogi pobl ifanc gyda'u mathemateg a Saesneg. Fe wnaethant hefyd wahodd gwasanaeth Eirioli Ail Lais i siarad â chyfranogwyr am eiriolaeth a'r hyn y mae'n ei olygu.

Cynlluniau Gwirfoddoli

- 6.46 Mae staff cyflenwi wedi gweithio gyda chyfranogwyr i'w helpu i gael cyfleoedd gwirfoddoli ac, fel y nodwyd uchod, aeth 60 o gyfranogwyr i rôl gwirfoddoli. Mae

rhai enghreifftiau o hyn yn cynnwys unigolion sydd wedi gwirfoddoli mewn siopau elusennol, banciau bwyd a llyfrgelloedd. Mae'r cyd-fuddiolwyr wedi cymryd y camau canlynol hefyd i gynorthwyo cyfranogwyr i wirfoddoli:

- Gweithiodd Sir Ddinbych gyda Chynllun Dechrau Gwaith, Sir Ddinbych yn Gweithio, i helpu cyfranogwyr i gael mynediad at leoliadau â thâl a di-dâl yn y Cyngor.
- Cefnogwyd cyfranogwyr o Wynedd i wirfoddoli mewn prosiect garddio cymunedol a chynigiwyd diwrnodau gwirfoddoli iddynt gyda chloddfa archaeolegol.
- Cysylltodd tîm ADTRAC y Dwyrain â chynllun 'Addewid y Cyflogwr' Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i helpu cyfranogwyr ADTRAC i gael mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli yn y fwrdeistref.
- Roedd cyfranogwyr o Ynys Môn wedi bod yn rhan o greu gardd mewn cartref preswyl i bobl hŷn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

6.47 Ynghyd â dull gweithredu ADTRAC a'i waith yn hyrwyddo'r themâu trawsbynciol a'r dangosyddion lefel achosion, mae amcanion y prosiect i gefnogi pobl ifanc yn gyfannol ac i wella eu hiechyd, eu rhagolygon economaidd a'u rhagolygon bywyd yn gyffredinol yn cyd-fynd yn uniongyrchol â nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:²⁴

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang²⁵

²⁴ Llywodraeth Cymru (2015), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – yr Hanfodion, <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf>

²⁵ Llywodraeth Cymru (2016), *Symud Cymru Ymlaen: Amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru*

6.48 Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn sail i'r ddyletswydd i sicrhau lles unigolion, sydd ymhlyg yn yr amcanion uchod, ac mae'n pwysleisio'r angen i gefnogi pobl ifanc mewn ffordd sy'n gynaliadwy ac yn ataliol. Cefnogir yr amcanion hyn gan brosiect ADTRAC sydd wedi pwysleisio pwysigrwydd canlyniadau cadarnhaol, ochr yn ochr â chanlyniadau cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, ac mae wedi integreiddio cymorth lles ac iechyd meddwl i fod yn elfen allweddol o'r gwasanaeth. Tystiolaeth o hyn yw'r dull Pum Ffordd at Les a fabwysiadwyd gan staff cyflenwi, yn ogystal â'r adborth gan gyfranogwyr sy'n dangos pwysigrwydd cefnogaeth sy'n gysylltiedig â lles ac iechyd meddwl (gweler Adran 4).

7. Gwerthuso Canlyniadau – Canlyniadau i Sefydliadau

Partneriaeth

- 7.0 Y tu hwnt i effaith ADTRAC ar gyfranogwyr, gofynnwyd i randdeiliaid a staff drafod effaith y gweithio mewn partneriaeth. Cytunodd y mwyafrif o randdeiliaid fod y partneriaethau wedi gweithio'n dda (5/8). O fewn hyn, dywedwyd ganddynt fod cysylltiadau wedi cryfhau dros amser a bod staff ar y cyfan yn gadarnhaol iawn ynglŷn â chydweithio ar y prosiect. Nododd rhanddeiliaid fod hyn yn elfen unigryw i ADTRAC:

‘O’i gymharu â phrosiectau ESF eraill, teimlwn fod gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn effeithiol iawn [...]. [Mae] ymdeimlad cryf iawn o optimistiaeth a phositifrwydd ynglŷn â’r rhaglen. [...] Mae pobl yn frwdfrydig iawn amdano, ac mae hyn yn dod drwodd i’r prosiect. Mae angerdd y rheolwyr cyflenwi hefyd yn amlwg. Mae gan dîm y prosiect ddealltwriaeth ragorol o ganllawiau WEFO, a hynny wedi gwneud pethau’n llawer mwy llyfn.’ **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

- 7.1 Awgrymodd rhanddeiliaid a staff hefyd fod gwell cynefindra â’r system brynu ddeinamig²⁶ (DPS) wedi helpu partneriaethau i dyfu gan fod staff nawr yn teimlo’n fwy cyfforddus â phrosesau’r system ac felly’n fwy abl i ddefnyddio cefnogaeth, ac ar ben hynny i weithio’n hyblyg ac yn greadigol gyda phrosiectau, gwasanaethau a sefydliadau eraill. Fodd bynnag, mewn un achos, awgrymwyd bod angen atgoffa staff ar adegau bod cefnogaeth ychwanegol y gallant ddibynnu arni i’w gael y tu allan i’w tîm prosiect.
- 7.2 Er bod y staff a’r rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn fwyfwy cadarnhaol ynghylch y system brynu ddeinamig (o’i gymharu â’r cyfweliadau yn ystod y cam interim) roedd rhai yn dal i dynnu sylw at bryderon a rhwystrau sy’n gysylltiedig â’r system (2/8 o randdeiliaid a 5/17 aelod o staff). Roedd y pryderon fel arfer yn canolbwyntio ar faint o amser oedd ei angen i ddefnyddio’r system. Awgrymodd

²⁶ Mae’r System Brynu Ddeinamig yn fframwaith caffael a ddefnyddir gan gyd-fuddiolwyr i gaffael gwasanaethau (e.e. cyrsiau a hyfforddiant) gan sefydliadau allanol ar gyfer cyfranogwyr ADTRAC.

rhanddeiliaid y gallai'r broses fod yn feichus ac, o ganlyniad, nid oedd sefydliadau llai eisiau bod arni. Dywedodd staff ei bod hi'n cymryd gormod o amser i gaffael cyrsiau a hyfforddiant trwy'r system brynu ddeinamig a hynny wedi arwain mewn rhai achosion at gyfranogwyr yn ymddieithrio:

'Mae gwasanaeth y DPS yn dipyn o boen, mae'n cymryd cymaint o amser i gaffael. Mae'n hawdd meddwl sut y gallwch chi gefnogi pobl ifanc ond mae'n broses hir ac mae'n anodd cadw diddordeb pobl os yw mor araf a chaeth.'

(Cyfweliad â staff rheoli a chyflenwi)

- 7.3 Cododd staff a rhanddeiliaid bryderon hefyd ynghylch nifer fach yn ymateb i'r ceisiadau hyfforddi ar y system brynu. Dywedwyd, ar sawl achlysur, na chafwyd unrhyw gynigion trwy'r system yn sgil ceisiadau am gyrsiau hyfforddi. Awgrymodd staff fod hyn wedyn yn trosglwyddo'r baich ar staff cyflenwi i ddod o hyd i'r cwrs priodol.
- 7.4 Gan adfyfrio ar bartneriaethau, cadarnhaodd yr holl rhanddeiliaid fod cyfranogiad BIPBC wedi yn rhan hanfodol o ADTRAC. Yn y cyswllt hwn, disgrifiodd rhanddeiliaid yr angen a'r galw cynyddol am wasanaethau cymorth iechyd meddwl a'r budd o allu datblygu sgiliau staff prosiect ADTRAC yn y maes cymorth hwn. O fewn hyn, pwysleisiodd dau rhanddeiliad fudd a phwysigrwydd integreiddio cymorth iechyd meddwl mewn prosiect fel ADTRAC gan ei fod yn symleiddio'r broses i gyfranogwr dderbyn cefnogaeth gan weithiwr proffesiynol meddygol. Fodd bynnag, er bod rhai rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at y ffaith bod cysylltiadau gweithio wedi gwella rhwng staff BIPBC ac ADTRAC ers ein hadroddiad interim (4/8), awgrymwyd bod lle i wella yn dal, yn benodol o ran yr oedi ar ddechrau'r prosiect cyn i glinigwyr BIPBC ddod yn rhan:

'Mae'n amrywio [y bartneriaeth â BIPBC], oherwydd mewn rhai ardaloedd mae wedi cymryd mwy o amser i'w cael i ymuno. Mae BIPBC wedi cymryd amser i gael y cyflenwad llawn o weithwyr iechyd sydd wedi'u cymeradwyo'n glinigol.'

(Cyfweliad â rhanddeiliad)

- 7.5 Pan ofynnwyd iddynt pam mae ADTRAC wedi bod yn llwyddiannus, roedd staff hefyd yn aml yn tynnu sylw at weithio da mewn partneriaeth (7/15). Mae'r rheswm am hyn yn ddeublyg; yn gyntaf, o ganlyniad i gymorth iechyd meddwl arbenigol a

oedd wedi rhoi cymorth iechyd meddwl mwy uniongyrchol i gyfranogwyr (2/7) ac yn ail, oherwydd y mynediad at arbenigedd y mae'n ei gynnig i staff (2/7). O fewn hyn, disgrifiodd staff effeithiolrwydd y partneriaethau a ddatblygwyd trwy'r system brynu ddeinamig gan fod staff wedi gallu cael hyfforddiant priodol ar gyfer cyfranogwyr drwy hynny.

Gwersi a ddysgwyd

- 7.6 Wrth bwysu a mesur eu profiadau, bu'r staff yn adfyfyrio ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu o ganlyniad i ADTRAC. Mae'n bwysig nodi bod y gwersi a nodwyd yn cyd-fynd â'r hyn a ddywedai gan staff oedd llwyddiannau allweddol y prosiect, gyda staff gan amlaf yn nodi bod modelau cymorth hyblyg wedi'u llunio'n bwrpasol yn allweddol ar gyfer cefnogaeth dda i'r garfan hon o bobl ifanc (7/17). Ystyrir bod dulliau hyblyg o gefnogi, wedi'u llunio'n bwrpasol, yn gwella'r ffordd y gall staff gefnogi pobl ifanc gan ei fod yn rhoi mwy o amser iddynt ymgysylltu â'r cyfranogwr ac yn cydnabod bod angen cefnogaeth ddwysach a mwy gofalus i'r rhai anoddaf eu cyrraedd.
- 7.7 Roedd staff hefyd wedi cydnabod budd a phwysigrwydd gweithio da mewn partneriaeth (6/17). Yn benodol, mae'r cysylltiadau y mae staff wedi'u sefydlu â BIPBC a sefydliadau eraill trwy'r system brynu ddeinamig wedi bod yn hanfodol wrth gynnig cefnogaeth gydgyssylltiedig i gyfranogwyr wrth ddiwallu ystod eang o anghenion ac yn cynnig cefnogaeth symlach sy'n cynnwys anghenion cyflogadwyedd, hyfforddiant, addysg, iechyd meddwl a lles. Er mwyn sicrhau gweithio da mewn partneriaeth, ystyriwyd bod cyfathrebu clir ac effeithiol ar draws gwahanol bartneriaid a gwasanaethau, yn enwedig rhwng timau cyflenwi a BIPBC, yn hanfodol. Meddai un aelod o staff:

'Mae'n cymryd cryn fuddsoddiad o ran amser ac mae angen gallu bod mor hyblyg â phosibl i helpu pobl sydd ag anghenion a rhwystrau cymhleth. [...] Gyda gwaith amlasiantaethol, gyda'r bobl ifanc rydyn ni wedi bod yn delio â nhw, mae ganddyn nhw i gyd 4 neu 5 asiantaeth wahanol. Fe ysgwyddon ni'r fantell o gydlynw'r cynllun hwnnw, os nad oes gennych y cyfathrebu hwnnw [gyda gwasanaethau eraill] yna ni fydd yn gweithio. Mae'r cyfathrebu hwnnw o amgylch y person ifanc yn gwneud gwahaniaeth enfawr. Mae angen yr holl

wybodaeth a darnau o'r pos arnoch i sicrhau dull cwbl gyfannol. Mae yna lu o raglenni cyflogaeth ond yr hyn sydd ar goll ynddyn nhw yw'r parodrwydd hwnnw i gymryd rhan yn yr ochr hon i bethau, gwneud yn siŵr eu bod nhw [y cyfranogwyr] yn barod i ymgysylltu a bydd darn o'r pos hwn yn cael ei golli pan fydd ADTRAC wedi mynd.' **(Cyfweliad â staff rheoli a chyflenwi)**

- 7.8 Wrth ystyried y broses rhoi ADTRAC ar waith, roedd rhai staff yn dal i dynnu sylw at bwysigrwydd amlinellu'n glir rolau a llinellau cyfrifoldeb er mwyn sicrhau bod cefnogaeth yn rhedeg mor effeithiol â phosibl (4/17). Yn yr achosion hyn, awgrymodd staff fod angen i'r cyfathrebu o fewn y prosiect fod yn well; yn benodol, soniodd staff am y gefnogaeth a'r arweiniad cyfyngedig gan y prosiect ar y dechrau a hynny wedi arwain, ar adegau, at staff yn aneglur ynghylch eu rôl a'u cylch gwaith. Mewn dau achos dywedwyd hefyd fod yr ymwneud â staff BIPBC hefyd yn gallu bod yn arafach na'r disgwyl o ganlyniad i oedi biwrocrataidd. Er mwyn goresgyn hyn, awgrymodd staff fod angen cael rheolwyr amser llawn i redeg y prosiect ac i gysylltu gwasanaethau a phartneriaid gyda'i gilydd.

8. Camau nesaf ac etifeddiaeth

- 8.0 Wrth feddwl am etifeddiaeth y prosiect a'r camau nesaf, roedd staff yn aml yn tynnu sylw at yr angen i gadw o leiaf ryw fath o gymorth lles ac iechyd meddwl (8/17), os nad prosiect ADTRAC yn ei gyfanrwydd (7/17). Fel y nodwyd yn flaenorol, ystyrir bod ADTRAC yn llenwi bwlch hanfodol rhwng cyflogadwyedd a chymorth iechyd meddwl i bobl ifanc yn y Gogledd. Mynegodd staff bryder y bydd bwlch sylweddol yn y gefnogaeth heb ADTRAC, yn enwedig i'r rheiny sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur ac sydd â'r rhwystrau mwyaf difrifol ac/neu niferus:

'I mi, dyma fy mhryder ynghylch y prosiectau newydd sy'n dod i'r fei. Mae'r holl arian brys hwn yn dda ond dydi o ddim yn mynd i'r afael â'r math o gefnogaeth sydd ei hangen ar y bobl ifanc hyn ac os byddwch chi'n gadael hynny am ychydig flynyddoedd mae'r problemau yn gwaethygu. Maen nhw eisoes yn dod i mewn yn groendenau rŵan, ond maen nhw'n ddigon ifanc i'w mowldio.' **(Cyfweliad â staff rheoli a chyflenwi)**

- 8.1 Gan ystyried y camau nesaf ar lefel yr awdurdodau lleol, manylir ar gynlluniau etifeddiaeth isod.
- 8.2 Yn Ynys Môn, bydd cyfranogwyr ADTRAC yn cael eu cyfeirio at lu o sefydliadau yn dibynnu ar eu cynnydd yn ADTRAC. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni cyflogaeth Môn CF, hyfforddeiaeth rhaglen Hyfforddiant Gogledd Cymru, ICAN, Cefnogi Pobl, CAMHS, Golau a Mind. Y tu hwnt i atgyfeirio cyfranogwyr, mae cwestiwn ehangach o hyd ynghylch sut y bydd modd cynnal ymgysylltiad â'r cyfranogwyr heb y gefnogaeth ddwys a roddir gan fentor ADTRAC. Deallir y bydd rôl Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid a ariannir gan Lywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â Gyrfa Cymru a'r panel 16+ i ymgysylltu â phobl ifanc Haen un a dau yn y cymunedau ac i'w cyfeirio at yr asiantaethau priodol. Mae'n bosibl y bydd y cylch gwaith hwn yn ehangu hefyd i gynnwys pobl ifanc ym Mlwyddyn 10 ac 11 yn ogystal. Ar adeg adrodd, mae Ynys Môn yn aros i Lywodraeth Cymru roi gwybod ynghylch ariannu dwy swydd Gweithiwr leuenctid ychwanegol i weithio ochr yn ochr â'r rôl ymgysylltu â'r Fframwaith.

- 8.3 Mae Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd wrthi'n ailstrwythuro ei dîm Cymorth Ieuenctid Ôl-16 o ganlyniad i newidiadau i strwythurau a ariennir ac anghenion pobl ifanc. Bydd y cynnig newydd ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed yn cynnwys elfennau o'r hyn a gynigid o dan ADTRAC o gyllid ESF, ond nid y cyfan. Bydd y gwasanaeth yn cadw pedwar Gweithiwr Cymorth Ieuenctid Arweiniol i gefnogi pobl ifanc 16-25 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Bydd y ddarpariaeth newydd hon yn canolbwyntio ar hyrwyddo lles ac iechyd meddwl da, cefnogaeth i gyfranogwyr oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael canlyniad cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, broceru cefnogaeth a chynghor pellach er mwyn i gyfranogwyr gael mynediad at ddarpariaeth arall a cheisio sicrhau bod pobl ifanc yn symud ymlaen ar y llwybr cyflogadwyedd. Bydd y ddarpariaeth hon hefyd yn canolbwyntio ar y Pum Ffordd at Les.
- 8.4 Yng Nghonwy, unwyd tîm ADTRAC â Chymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy ym mis Ebrill 2020. Ar ôl cau prosiect ADTRAC, trosglwyddwyd yr holl gyfranogwyr i Gymunedau am Waith a Mwy Conwy sydd wedi sicrhau cyllid tan fis Mawrth 2022. Er mai'r gobaith oedd defnyddio cyllid Cymunedau am Waith a Mwy i gyflogi staff presennol ADTRAC er mwyn parhau i gefnogi cyfranogwyr ADTRAC, ni fu'r cais hwn i Lywodraeth Cymru yn llwyddiannus.
- 8.5 Bydd yr holl atgyfeiriadau yn Sir Ddinbych yn parhau i gael eu hanfon i Un Pwynt Mynediad Sir Ddinbych yn Gweithio. Bydd cyfranogwyr a fyddai wedi bod yn gymwys i gael ADTRAC nawr yn cael eu cyfeirio at Cymunedau am Waith, Cymunedau am Waith a Mwy, Ymroi i Newid (Engage to Change), Gallaf Weithio, Gwasanaethau Ieuenctid y sir neu wasanaethau cymorth eraill a ddarperir gan elusennau yn Sir Ddinbych. Bydd y sesiwn Galw Heibio Ar-lein i Bobl Ifanc yn parhau fel rhan o raglen gymorth Sir Ddinbych yn Gweithio.
- 8.6 Ym mis Ionawr 2021, daethpwyd i gytundeb yn Sir y Fflint a Wrecsam i gynnal prosiect i ganolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc 14-18 oed sydd yn NEET/mewn perygl o ddod yn NEET. Yn y lle cyntaf, bydd hwn yn rhedeg o ddiwedd Mai 2021 tan 31 Mawrth 2022 ac yn cael ei ariannu gan bartneriaid y prosiect. Bydd y prosiect newydd hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:
- Bylchau/anghenion cymorth ategol y sylwyd arnynt yn sgil effaith COVID-19.

- Cefnogi trosglwyddo i gyrchfan ôl-16 ar gyfer ymadawyr ysgol sydd mewn perygl o ddod yn NEET a darparu ymyriad pwrpasol i atal hyn.
- Gweithio ochr yn ochr â phrosiect TRAC a ariennir gan ESF i ategu'r gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion ar TRAC sydd angen cefnogaeth ddwysach nag y gall adnoddau TRAC ei ddarparu.
- Cefnogi pobl ifanc i addysg a hyfforddiant (a chyflogaeth os yw'n bosibl), a
- Cynnig cefnogaeth iechyd meddwl bwrpasol a mentora dwys i gyfranogwyr y prosiect.

Bydd rhai o'r staff y prosiect a ariennir gan ESF yn cael eu cyflogi i gynnal a rheoli'r prosiect etifeddiaeth hwn. Bydd tîm y staff sy'n gyfrifol am y prosiect newydd yn cynnwys un Cydlynnydd, tri Mentor Ymgysylltu ag leuenctid ac un Ymarferydd Iechyd Meddwl rhan-amser (0.5WTE).

8.7 Yn BIPBC, cyflwynwyd y rhaglen Cydnerthu Cyfeillion ([Friends Resilience](#)) i hyfforddi staff ADTRAC i hyrwyddo'r Rhaglen Cydnerthu Oedolion. Bydd y rhai a gwblhaodd yr hyfforddiant yn cael cynnig sesiwn gloywi dair blynedd ar ôl ardystio, fel sy'n ofynnol o dan drwydded. Gall staff ADTRAC wedi'u hyfforddi gan hwylusydd, gan gynnwys Ymarferwyr Iechyd Meddwl BIPBC, barhau i gynnig yr ymyriad i gyfranogwyr eraill y tu allan i brosiect ADTRAC, os ydynt yn parhau i weithio yn y Gogledd. Ar y cam hwn, y gobaith yw y bydd un Ymarferydd Iechyd Meddwl ADTRAC sy'n siarad Cymraeg a Hyfforddwr Cydnerthu Cyfeillion yn mynd ymlaen i hyfforddi o dan Drwydded BIPBC. Bydd hyn, yn ei dro, yn cefnogi cyflwyno'r deunyddiau wedi'u cyfieithu er mwyn i bob plentyn a pherson ifanc yn y Gogledd fedru defnyddio'r rhaglen. Rhagwelir hefyd y bydd un Ymarferydd Iechyd Meddwl ADTRAC yn gallu parhau i gefnogi'r gwaith o hwyluso'r rhaglen yn ei rôl CAMHS newydd. Bydd pawb yn gallu rhannu eu dealltwriaeth o'r deunyddiau mewn lleoliadau newydd.

8.8 Bydd pecynnau cymorth i dimau cyflenwi ADTRAC gan Ymarferwyr Iechyd Meddwl BIPBC hefyd yn cael eu hystyried ar gyfer eu hachredu er mwyn gallu parhau i gynnal y rhaglen ddatblygu a ddyluniwyd ar gyfer ADTRAC a'i chyflwyno i staff proffesiynol sy'n cefnogi pobl ifanc. Mae Llawlyfr a Llyfryn Adnoddau wrthi'n cael eu datblygu gan BIPBC i lunio 'cymorth cof' i'w ddefnyddio gan Gyd-fuddiolwyr yn

eu gyrfaoedd. Trwy hyn, nod BIPBC yw hysbysu ac atgoffa staff am iechyd a lles staff a'r bobl ifanc y gallent eu cefnogi mewn rolau yn y dyfodol. Bydd BIPBC hefyd yn cynhyrchu adnodd llyfrgell ar fodelau rôl o brosiect ADTRAC i ddangos canlyniadau ysbrydoledig y bobl ifanc, gan gynnwys ymadroddion cadarnhaol a fydd yn atgyfnerthu buddion prosiect ADTRAC.

9. Gwerthusiad Economaidd

Cyflwyniad

- 9.0 Wrth ystyried y dull mwyaf priodol i fynd ati i feintio a phrisio effaith ADTRAC, archwiliwyd amrywiol ddulliau o gyfrifo'r hyn y mae ADTRAC wedi esgor arno. Mae natur yr unigolion sy'n cael eu cefnogi gan y rhaglen, ac yn benodol nifer a difrifoldeb y rhwystrau a wynebiant rhag cael cyflogaeth, yn golygu y byddai dull traddodiadol o gipio effaith ac enillion sy'n llwyr seiliedig ar gyflawni canlyniadau economaidd caled fel cyflogaeth yn druenus o annigonol i ddarlunio gwerth llawn y rhaglen.
- 9.1 Byddai dulliau traddodiadol yn rhoi pwyslais ar y llwyddiannau hyn ond byddent yn tueddu i danbrizio trawsnewidiad llawer o gyfranogwyr mewn perthynas ag iechyd meddwl, hunanhyder, dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, digartrefedd ac iechyd corfforol trwy fethu â chipio'n llawn y gost a osgowyd a'r buddion lles i unigolion nad ydynt mwyach yn wynebu'r rhain.
- 9.2 Byddai'r ffocws ar gostau gweladwy – gostyngiadau mewn ymweliadau ysbyty neu gymorth cwnsela fel dwy enghraifft – ond byddai'n anwybyddu'r costau llawer mwy sylweddol sy'n gysylltiedig â'r effaith ar les unigolyn. Dewis arall yn lle'r dull hwn fyddai defnyddio dull Budd Cymdeithasol o Fuddsoddi (SROI), gan fod hwn yn defnyddio procsis ariannol i brisio canlyniadau ar gyfer amrywiaeth o randdeiliaid (yn ei ystyr ehangaf) sy'n gysylltiedig ag ymyriad. Roedd graddfa, cymhlethdod ac ehangder yr hyn a gynigai ADTRAC yn ddwys o ran adnoddau, ac mae posibilrwydd o'i danseilio drwy beidio defnyddio dyfarniadau addas i gymharu costau neu fuddion.
- 9.3 Dull arall sy'n dod yn fwyfwy pwysig yw defnyddio asesiad o'r effaith a gafodd ymyriad ar les goddrychol cyfranogwr. Gellir wedyn defnyddio'r darlun o les goddrychol pobl wrth Brisio Lles, mae hyn yn rhoi modd mesur llwyddiant ymyriad cymdeithasol yn ôl faint y mae'n cynyddu lles pobl.

- 9.4 Cyfeirir at Brisio Lles yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM fel dull ar gyfer rhoi gwerth ar gostau a buddion cymdeithasol nad oes ganddynt bris ar y farchnad.²⁷ Un o brif fanteision Priso Lles (fel y nodir yn Fujiwara et al 2014)²⁸ yw bod ddefnyddio data hunangofnodedig ar les ac amgylchiadau bywyd yn rhoi gwybodaeth am brofiadau gwirioneddol pobl ac felly mae'r gwerthoedd yn seiliedig ar sut mae pobl yn byw eu bywydau; gall hyn fod yn wahanol i ddulliau priso eraill sy'n seiliedig ar sut mae pobl yn dirnad eu bywyd, sy'n cyflwyno cymhlethdodau a thueddiadau seicolegol.
- 9.5 Mae priso lles yn defnyddio setiau data sy'n bodoli eisoes wedi'u codi o arolygon cenedlaethol er mwyn deall gwerth effaith elfen benodol ym mywyd unigolyn ar ei les; gan eu bod yn seiliedig ar setiau data mawr, mae'r newidiadau mewn gwerth yn gadarn eu natur. Y model priso lles a ddefnyddir ar gyfer y gwerthusiad hwn yw model HACT; mae hwnnw'n pwysu ar werthoedd a gyfrifir trwy ddadansoddiad ystadegol o bedair set ddata genedlaethol fawr yn y Deyrnas Unedig sy'n cynnwys data ar les ac amgylchiadau bywyd:
- Arolwg Panel Cartrefi Prydain (BHPS)
 - Deall Cymdeithas / Understanding Society
 - Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr
 - Arolwg Cymryd Rhan / Taking Part.
- 9.6 Gellir defnyddio'r priso lles ar y cyd â dadansoddi cost a budd (CBA) ac fe'i defnyddiwyd felly fel rhan o'r asesiad hwn, ond mae sawl cyfyngiad gyda'r dull hwn y mae'n rhaid eu cadw mewn cof wrth ystyried yr asesiad priso.

Canlyniadau o Ddiddordeb

- 9.7 Mae ystyried y model rhesymeg gwreiddiol, theori newid y rhaglen, y fframwaith gwerthuso a'r dystiolaeth a gasglwyd wedi arwain at nodi ystod o ganlyniadau. Mae rhai yn gysylltiedig â chynnydd unigolyn (gan gynnwys cael cyflogaeth neu fynd i addysg), tra bod eraill yn ganlyniadau blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â rhwystrau

²⁷ Gweler Fujiwara a Campbell (2011) 'Valuation Techniques for Social Cost-Benefit Analysis: Stated Preference, Revealed Preference and Subjective Wellbeing Approaches' ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/valuation-techniques-for-social-cost-benefit-analysis>

²⁸ Lizzie Trotter, Jim Vine, Matt Leach, Daniel Fujiwara (Mawrth 2014). Measuring the Social Impact of Community Investment: A Guide to using the Wellbeing Valuation Approach. HACT.

Llundain. <http://www.hact.org.uk/measuring-social-impact-community-investment-guide-using-wellbeing-valuation-approach>

sy'n wynebu cyfranogwyr ar adeg ymgysylltu â'r rhaglen (ac y gellid eu goresgyn trwy ymyriad y rhaglen).

9.8 Mae hyn wedi arwain at gynnwys y canlyniadau canlynol yn y model prisio.

Canlyniadau datblygiad/cynnydd:

- Mynd i gyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth, ar adeg gadael >16 awr
- Ennill cymhwyster ar adeg gadael
- Mynd i addysg/hyfforddiant ar adeg gadael
- Addysg/hyfforddiant llai nag 16 awr
- Cyflogaeth/hunangyflogaeth llai nag 16 awr
- Dechrau cyflogaeth ar gontract dim oriau
- Gwelliant mewn lles emosiynol/meddyliol

Canlyniadau yn gysylltiedig â blaenoriaeth/rhwysstr:

- Anabledd corfforol neu iechyd corfforol gwael
- Cam-drin domestig
- Camddefnyddio sylweddau
- Pryderon iechyd meddwl
- Tai/Digartrefedd (risg)
- Hyder
- Ariannol/Dyled
- Teimlo'n ynysig yn gymdeithasol

Prisio sy'n ymwneud â chanlyniadau yn gysylltiedig â chynnydd a rhwystrau

9.9 Mae'r prisio canlynol ar ganlyniadau yn gyfuniad o'r rhai sy'n gysylltiedig â newidiadau sydd â chanlyniadau economaidd (yn bennaf y rhai o'r rhestr canlyniadau cynnydd ac sy'n seiliedig ar feincnodau sydd ym model tîm ymchwil Greater Manchester Combined Authority [GMCA] [y New Economy gynt]²⁹) a'r rhai sy'n gysylltiedig â rhwystrau o'r gwerthoedd buddsoddi Cymunedol a digartrefedd gan y Social Value Bank (model HACT)³⁰.

²⁹ <https://www.greatermanchester-ca.gov.uk/what-we-do/research/research-cost-benefit-analysis/>

³⁰ <https://www.hact.org.uk/social-value-bank>

Tabl 9.1:risio Canlyniadau

Maes canlyniad	Gwerth (blynyddol)	Ffynhonnell
Cyflogaeth amser llawn	£18,504	model GMCA
Cyflogaeth ran-amser ³¹	£6,738	model GMCA ³²
Camddefnyddio sylweddau	£25,616	HACT
Rhyddhad rhag iselder/pryder	£11,819	HACT
Hyder wedi gwella	£9,455	HACT
Rhyddhad rhag y baich o fod yn drwm mewn dyled	£7,065	HACT
Ymarfer corff ysgafn aml	£2,130	HACT
Symud o lety dros-dro i le diogel	£8,019	HACT
Aelod o grŵp cymdeithasol	£342,786	HACT
Cymhwyster NVQ Lefel 2 – buddion ariannol ac economaidd ariannol	£509	model GMCA
Cymhwyster NVQ Lefel 3 – buddion ariannol ac economaidd ariannol	£1,071	model GMCA
Cymhwyster graddedig Lefel 4+ - buddion ariannol ac economaidd ariannol ³³	£3,632.00	model GMCA
Mynd ymlaen i hyfforddeiaeth	£10,458	model GMCA
Gwirfoddoli'n rheolaidd	£2,561.91	HACT
Hyfforddiant galwedigaethol	£1,018.67	HACT

- 9.10 Mae ymchwil yn awgrymu y gall buddion sy'n gysylltiedig ag ymyriadau cyflogadwyedd bara am dair blynedd³⁴, fodd bynnag ar gyfer pob blwyddyn ddilynol, mae perthnasedd a rôl yr ymyriad hwnnw yn gwanhau (weithiau gelwir hyn yn gyfradd parhad [*persistence rate*]). Mae cyfradd parhad tair blynedd ynghyd â chyfradd gadael cyn cwblhau o 33% flwyddyn ar ôl blwyddyn wedi'u cymhwyso i'r canlyniadau hynny yn Nhabl 9.1 uchod lle ymddengys y byddai'n briodol gwneud hynny. Er enghraifft, i'r rheiny sydd wedi camddefnyddio sylweddau, mae ymchwil yn dangos y gallai'r siawns o ailgydio ynddi fod mor uchel ag 80%. Felly, byddai'n amhriodol neilltuo cyfradd parhad tair blynedd i'r gwerth hwn.

³¹ Mae hwn yn cynnwys y rheiny sy'n mynd i gyflogaeth dim oriau.

³² Wedi'i addasu ar gyfer llai o enillion o'i gymharu â'r rhai sy'n dechrau cyflogaeth amser llawn (amcangyfrif o 50% o enillion amser llawn gydag addasiadau pellach yn gysylltiedig â chadw budd-daliadau mewn gwaith).

³³ Sylwer y rhoddwyd canlyniad cymhwyster i unrhyw un a oedd wedi mynd i addysg ar lefelau NVQ Lefel 2 neu uwch.

³⁴ PWC (2008) *Impact of RDA spending – National report – Volume 1 – Main Report*, Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio, Llywodraeth y DU

Tabl 9.2: Prasio Canlyniadau ADTRAC

Canlyniad	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
Cyflogaeth amser llawn	£1,745,852	£1,169,721	£783,713
Cyflogaeth ran-amser	£595,639	£399,078	£267,382
Camddefnyddio sylweddau	£504,890		
Rhyddhad o iselder/pryder	£1,130,209		
Gwella hyder	£1,649,584		
Rhyddhad rhag y baich o fod yn drwm mewn dyled	£107,386	£71,948.71	£48,206
Ymarfer corff ysgafn aml	£12,949		
Symud o lety dros-dro i le diogel	£344,817	£231,027	£154,788
Aelod o grŵp cymdeithasol	£342,786		
Cyflawni Cymhwyster NVQ Lefel 2 (pan ddaeth hwn yn gymhwyster uchaf iddynt)	£15,270	£10,231	£6,855
Cyflawni cymhwyster NVQ Lefel 3 (pan ddaeth hwn yn gymhwyster uchaf iddynt)	£94,272	£63,162	£42,319
Trais domestig – cost gyfartalog fesul digwyddiad (gwerthoedd ariannol, economaidd a chymdeithasol) (uned fesul pen fesul blwyddyn)	£57,854	£38,762	£25,971
Canlyniad cynnydd: hyfforddeiaeth	£177,786	£119,116	£79,808
Gwirfoddoli'n rheolaidd	£68,479.73		
Hyfforddiant galwedigaethol	£83,123.24	£55,692.57	£27,430.67
Cyflawni Cymhwyster NVQ Lefel 2 (pan aethant i wneud cymhwyster Lefel 2)		£4,581.00	
Cyflawni cymhwyster NVQ Lefel 3 (pan aethant i wneud cymhwyster Lefel 3)		£11,783.98	
Cymhwyster Graddedig Lefel 4+ (pan aethant i wneud cymhwyster Lefel 4)			£22,925.18
Cyfanswm			£10.56m

Cymhareb buddion

- 9.11 Mae cymhwyso'r prisiad yn Nhabl 9.2 uchod ar gyfer prosiect ADTRAC yn erbyn y costau yn arwain at gymhareb cost a budd o £1.11 o fudd o'i gymharu â phob £1 a fuddsoddir.³⁵ Ar yr wyneb, mae hyn yn dangos bod budd i gostau ADTRAC; am bob punt a fuddsoddir, mae enillion ychwanegol o £0.11 ar y buddsoddiad. Yn ogystal

³⁵ Mae hyn yn seiliedig ar gyfanswm costau gweithredu o £9.5miliwn a phrisio'r enillion o fuddsoddi i fod yn gyfanswm o £10.56 miliwn.

â'r canlyniadau meddalach a sicrhawyd a'r gefnogaeth iechyd meddwl a lles a roddwyd i gyfranogwyr, dengys hyn fod enillion ychwanegol ar fuddsoddiad yn sgil prisio'r buddion a roddir i gyfranogwyr ADTRAC.

- 9.12 Fodd bynnag, mae sawl cafeat yn gysylltiedig â'r asesiad hwn. Dim ond costau sy'n gysylltiedig â rhaglen ADTRAC yw'r rhain ac nid ydynt yn ystyried y ddarpariaeth gymorth y cyfeirir cyfranogwyr ati o ddulliau eraill (na'r costau yn hyn o beth gan asiantaethau atgyfeirio). Fel y nodwyd yn 9.12 uchod, mae'r dadansoddiad hefyd yn eithrio llu o fanteision cymdeithasol eraill (gan fod ffocws y prisiad ar yr unigolyn). Felly nid yw'n cyfrif am osgoi costau sy'n gysylltiedig â gostyngiad yn y defnydd ar wasanaethau statudol ac nid yw'n cyfrif am yr effeithiau gorlifo tebygol i deuluoedd o ran materion yr eir i'r afael â nhw yn ymwneud â dyled a dibyniaeth ar alcohol/cyffuriau (er enghraifft).

10. Casgliadau ac Argymhellion

- 10.0 Mae'r adran hon yn pwyso a mesur y dystiolaeth a'r dadansoddiad a gyflwynir yn yr adroddiad gwerthuso hwn ac yn nodi cyfres o argymhellion i'w hystyried. Gan fod y cyfnod cyllido ar gyfer ADTRAC bellach wedi dod i ben, dylid ystyried yr argymhellion yn yr adran hon ar gyfer unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol y mae'r Cyd-fuddiolwyr neu eraill am ei darparu.

Casgliadau cyffredinol

- 10.1 Yn ystod ei oes, mae 1,178 o bobl ifanc wedi cymryd rhan ym mhrosiect ADTRAC. Er na lwyddodd ADTRAC i gyflawni ei darged o ran nifer y cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â hwy (gan gyflawni 81 y cant drwyddi draw) dylid cadw mewn cof fod yr holl gyd-fuddiolwyr wedi cynyddu eu hymgysylltiad â chyfranogwyr rhwng 12-20 y cant rhwng yr adroddiad interim a'r un terfynol. O gofio cyd-destun COVID-19, dylid cydnabod bod yr ymgysylltiad hwn yn dal i fod yn gadarnhaol, yn enwedig yng ngoleuni'r anawsterau a ddaeth yn sgil y pandemig.
- 10.2 Mae rhaglen ADTRAC yn erbyn y costau yn arwain at gymhareb cost a budd o £1.11 o fudd o'i gymharu â phob £1 a fuddsoddir. Yn ogystal â'r canlyniadau meddalach a sicrhawyd a'r gefnogaeth iechyd meddwl a lles a roddwyd i gyfranogwyr, dengys hyn fod enillion ychwanegol o £0.11 ar y buddsoddiad yn sgil priso'r buddion i gyfranogwyr ADTRAC.
- 10.3 Mae gwerth ADTRAC yn deillio o'r angen clir am gefnogaeth i'r bobl ifanc anoddaf eu cyrraedd yn y Gogledd. Er bod cefnogaeth arall sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd ar gael ledled y rhanbarth, mae'n glir fod y mentora un-i-un, y ffocws ar iechyd meddwl a darpariaeth arbenigol ynghyd â hyblygrwydd y dull yn unigryw i ADTRAC.
- 10.4 Roedd gan gyfranogwyr ADTRAC yn aml nifer o rwystrau a'r rheiny'n rhai cymhleth. Ar gyfartaledd, roedd gan y cyfranogwyr 7.6 rhwystr ar adeg dechrau gyda'r prosiect ac roedd gan fwyafrif helaeth y cyfranogwyr ledled yr holl awdurdodau lleol o leiaf un rhwystr. Mae ystod ac amlygrwydd y rhwystrau hynny yn awgrymu bod angen cynyddol am gefnogaeth fel ADTRAC h.y., un sy'n rhoi cymorth cyfannol

ac yn canolbwyntio ar les, gan danlinellu ymhellach honiadau rhanddeiliaid am werth ADTRAC.

- 10.5 Ledled y prosiect, roedd gan 60 y cant o'r cyfranogwyr bryderon iechyd meddwl ar adeg dechrau ADTRAC, roedd dros hanner yn ddi-waith hirdymor, roedd 44 y cant wedi cael profiadau dysgu negyddol yn y gorffennol ac nid oedd gan 18 y cant unrhyw gymwysterau. Mae hyn yn tystio i nifer a difrifoldeb y rhwystrau sy'n wynebu cyfranogwyr ADTRAC ac felly'r angen hanfodol am gefnogaeth debyg i ADTRAC.

- 10.6 **Argymhelliad Un:** Dylai prosiectau yn y dyfodol ystyried bod ADTRAC fel sylfaen dystiolaeth glir, sef sylfaen sy'n amlinellu nifer a difrifoldeb y rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc sydd bellaf o'r farchnad lafur rhag cael canlyniad cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

Rhoi cefnogaeth

- 10.7 Cafodd dros hanner y cyfranogwyr gefnogaeth ADTRAC am dros chwe mis, a bron i chwarter ohonynt wedi cael cefnogaeth am flwyddyn neu hirach. Er bod hyn yn bryder i rai gan ei fod yn hirach na'r disgwyl wrth ddylunio'r prosiect, mae'n bwysig pwysleisio eto ystod ac amllder y rhwystrau yr oedd gan y cyfranogwyr nodweddiadol ar adeg dechrau cael cefnogaeth ADTRAC.
- 10.8 Roedd mwy na dau o bob pump o'r cyfranogwyr wedi cael cefnogaeth arall cyn ADTRAC. Dywedodd traean o'r cyfranogwyr hynny fod ADTRAC yn teimlo'n fwy pwrpasol ar eu cyfer nhw na'r gefnogaeth arall a gawsant.
- 10.9 **Argymhelliad Dau:** Dylai darpariaeth yn y dyfodol sydd am geisio cefnogi'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur ystyried y gallai fod angen cefnogaeth ar y garfan hon am gyfnod hirach nag a bennir wrth ddylunio prosiect.
- 10.10 Roedd bron i hanner y cyfranogwyr a gyfwelwyd yn gobeithio cael swydd o ganlyniad i ymwneud ag ADTRAC tra dywedodd un o bob pump ohonynt yr hoffent wella eu hyder a'u sgiliau cyfathrebu ac/neu gael rhywfaint o gymorth i chwilio am gyflogaeth briodol. Roedd cyfranogwyr yn aml yn disgrifio eu hunain i fod 'heb

- gyfeiriad' neu'n teimlo 'ar goll'. Pan oedd hyn yn wir, roedd cyfranogwyr yn gobeithio y gallai eu cynghorydd ADTRAC eu helpu i ddatrys eu camau nesaf.
- 10.11 Roedd mwyafrif helaeth y cyfranogwyr yn gadarnhaol iawn am y gefnogaeth a gawsant gan ADTRAC. Yn fwyaf cyffredin, soniai cyfranogwyr am y berthynas â'u cynghorydd ADTRAC fel ffactor cadarnhaol allweddol yn hyn o beth gan ddisgrifio staff i fod yn fawr eu cymorth, yn gefnogol ac yn anfeirniadol.
- 10.12 **Argymhelliad Tri:** Dylai darpariaeth amgen yn y dyfodol ystyried a yw mentora un-i-un yn bosibl yn eu dull gweithredu, yn enwedig oherwydd bod y cyfranogwyr eu hunain wedi nodi ei bwysigrwydd a'r effaith arnynt o gael rhywun i 'fwrw eu bol iddynt'.
- 10.13 Yn yr ychydig iawn o achosion pan oedd cyfranogwyr yn negyddol roedd hyn fel rheol o ganlyniad i gyfathrebu anghyson â'u cynghorydd. Daeth rhai cyfranogwyr i'r casgliad fod hyn o ganlyniad i'r pandemig.
- 10.14 Nododd mwyafrif helaeth y cyfranogwyr a gyfwelwyd eu bod yn trafod eu lles gyda'u cynghorydd ADTRAC ac roedd hyn o gymorth iddynt. O ganlyniad i'r sgysiau hyn, roedd cyfranogwyr wedi gallu derbyn cefnogaeth yn uniongyrchol yn gysylltiedig â'u lles, cael eu cyfeirio at wasanaethau eraill oedd ar gael ac/neu drafod eu diffyg hyder ac/neu sgiliau meddal eraill.
- 10.15 Cafodd deuparth y cyfranogwyr a ymgysylltodd ag ADTRAC (37 y cant) eu hatgyfeirio i Betsi Cadwaladr (BIPBC). O'r achosion a atgyfeirwyd i BIPBC, rhoddwyd rhyw fath o gymorth i dros ddau draean ohonynt a hwnnw'n tueddu i fod yn gefnogaeth un-i-un mwy dwys.
- 10.16 Credai staff a rhanddeiliaid ill dau fod cynnwys BIPBC yn ADTRAC wedi bod yn gryfder allweddol ac wedi rhoi gwerth i'r prosiect. Tybiwyd bod cael BIPBC yn rhan wedi darparu set sgiliau oedd fawr ei hangen a oedd yn ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau iechyd meddwl yn ogystal ag yn cefnogi staff i sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn gwneud y penderfyniadau cywir wrth gefnogi cyfranogwyr.
- 10.17 Roedd yr oedi cyn i BIPBC ddod yn rhan yn cael ei ystyried yn rhwystr estynedig i gefnogaeth iechyd meddwl a lles effeithiol mewn lleiafrif o achosion. Er mai siomedig oedd y ffaith fod hyd cyfranogiad BIPBC wedi para'n llai na'r disgwyl a bod lleiafrif o achosion lle nad oedd BIPBC wedi gallu darparu staff a oedd yn gallu

siarad Cymraeg, roedd y mwyafrif o staff yn dal i fod yn gadarnhaol am y budd a'r effaith o'u cael yn rhan.

10.18 **Argymhelliad Pedwar:** Dylai cyd-fuddiolwyr ganu clodydd y cymorth iechyd meddwl a lles, o ran y niferoedd a fanteisiodd arno, ei effaith ac ymateb cadarnhaol ar y cyfan staff a rhanddeiliaid, a dylid ei arddangos fel llwyddiant allweddol ADTRAC ac yn ystyriaeth bwysig ar gyfer cefnogaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylai cefnogaeth yn y dyfodol hefyd ystyried faint o amser rhagarweiniol a rhoi ar waith sydd ei angen, yn enwedig wrth weithio mewn partneriaeth â sefydliadau mawr fel BIPBC.

Goblygiadau COVID-19

- 10.19 Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, nid oedd y rhan fwyaf o lwybrau atgyfeirio arferol ADTRAC wedi gweithredu yn ôl yr arfer a'r cyfraddau atgyfeirio wedi amrywio ledled yr awdurdodau lleol. Roedd cryn dipyn yn llai o atgyfeiriadau i ADTRAC yn 2020 o gymharu â blynyddoedd blaenorol, a hynny'n cadarnhau bod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar nifer yr atgyfeiriadau i ADTRAC a dylid cydnabod hyn wrth asesu perfformiad y prosiect.
- 10.20 Fel y byddai disgwyl, daeth yr holl gysylltiad wyneb-yn-wyneb i ben yn ystod y cyfnod clo cyntaf a'r rhai dilynol. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi parhau i allu cynnig rhywfaint o gefnogaeth i gyfranogwyr trwy eu ffonio, negeseuon testun neu drwy ddulliau digidol.
- 10.21 Yn gyffredinol, roedd staff o'r farn fod ymgysylltu digidol yn llai effeithiol oherwydd nad oeddent yn gallu 'dal dwylo' yn sensitif a rhyngweithio â chyfranogwyr yn yr un modd yn rhithwir. Yr eithriad i hyn oedd achosion pan oedd perthynas gref eisoes wedi'i chreu gyda chyfranogwyr cyn y pandemig ac/neu pan fo gan unigolion gyfrifoldebau gofalu ac/neu'n byw mewn man anghysbell (gan ei gwneud hi'n anodd teithio i gefnogaeth ADTRAC).

10.22 **Argymhelliad Pump:** Er bod y gefnogaeth holisitig ac wyneb-yn-wyneb yn elfen gynhenid a hanfodol yn ADTRAC, gall fod rhai achosion pan fo'n well cyflwyno drwy ddulliau digidol. Dylai unrhyw gefnogaeth yn y dyfodol, wrth asesu anghenion

cyfranogwyr, ystyried opsiynau digidol ac wyneb-yn-wyneb, gan gynnig model cymorth hybrid a chyfunol. O fewn hyn, dylai cefnogaeth yn y dyfodol ystyried pa adnoddau, e.e., llechen gyfrifiadurol a meddalwedd, fydd eu hangen ar staff, partneriaid a chyfranogwyr.

- 10.23 Dywedodd staff fod COVID-19 wedi gwaethygu rhai o'r problemau a rhwystrau yr oedd gan gyfranogwyr eisoes, gan sôn yn benodol am fwy o bryder a theimlo'n ynysig.
- 10.24 Nododd staff hefyd fod y pandemig wedi bod yn 'ergyd' ychwanegol i gyfranogwyr. Awgrymwyd ganddynt y bydd hi'n anoddach i gyfranogwyr gael swydd o ganlyniad i farchnad lafur orlawn. O fewn hyn, rhagwelai staff mai llawer o'r unigolion a fydd hefyd yn chwilio am waith fydd y rhai â sgiliau a phrofiad uwch o ganlyniad i ddiswyddiadau a wnaed yn ystod y pandemig. Tybiwyd y bydd cyfranogwyr yn ei chael yn anoddach cael gwaith ac y bydd hyn yn cael effaith ychwanegol ar eu hyder a'u hunan-barch.
- 10.25 **Argymhelliad Chwech:** O ystyried y bydd sefyllfaoedd rhai pobl ifanc wedi gwaethygu yn ystod y pandemig ac y gallai fod yn anoddach nag o'r blaen iddynt gael canlyniad cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, dylai fod hyblygrwydd i ddarpariaeth yn y dyfodol i addasu targedau. Bydd hyn yn sicrhau bod targedau'n adlewyrchu newidiadau mewn amodau economaidd dros oes prosiect.

Canlyniadau i gyfranogwyr

- 10.26 Ar y cyfan, roedd 52 y cant o'r cyfranogwyr yn swyddogol wedi gadael ADTRAC. O'r rheiny, roedd 44 y cant wedi cael cymhwyster, 34 y cant wedi mynd i gyflogaeth a 24 y cant wedi mynd i addysg a hyfforddiant. Yn gyffredinol, roedd staff o'r farn bod ADTRAC yn perfformio'n dda ac yn awgrymu y dylid cydnabod gallu'r prosiect i gefnogi lles cyfranogwyr ochr yn ochr â'u helpu i gyflawni canlyniadau cyflogaeth, addysg a hyfforddiant, yn enwedig dros y flwyddyn ddiwethaf.
- 10.27 Roedd canlyniadau cyflogaeth yn bryder i staff. Er mai'r targed cyflogaeth fel rheol yw'r canlyniad anoddaf i'w gyrraedd i bobl ifanc sydd bellaf o'r farchnad lafur, roedd hyn wedi gwaethygu hyd yn oed yn fwy dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y

crebachu a welwyd mewn sectorau penodol fel lletygarwch a thwristiaeth, meddai staff, hefyd wedi arwain at lai o gyfleoedd i bobl ifanc.

- 10.28 Mae'r prosiect wedi rhagori ar ei darged canlyniad ar gyfer cyfranogwyr yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol eraill gyda 70 y cant o'r cyfranogwyr a oedd wedi gadael yn cael canlyniadau cadarnhaol eraill, gan gynnwys canlyniadau meddal. Nododd cyfranogwyr nifer o fuddion, gyda llawer ohonynt yn ymwneud â gwella eu hyder. Boed cyfranogwyr wedi llwyddo ai peidio i gael canlyniad cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, roedd y mwyafrif yn gadarnhaol am eu datblygiad personol o ganlyniad i ADTRAC ac yn teimlo eu bod mewn gwell sefyllfa ar gyfer eu camau nesaf.

Canlyniadau i Sefydliadau

- 10.29 Cytunai'r rhan fwyaf o randdeiliaid a staff fod y partneriaethau wedi gweithio'n dda. Dywedwyd bod perthnasoedd wedi cryfhau dros amser ac yn cynnig buddion sylweddol drwyddi draw.
- 10.30 Awgrymai rhanddeiliaid yn aml fod ADTRAC yn cyd-fynd â chefnogaeth arall i'r grŵp targed yn y Gogledd. Deallir ADTRAC yn yr achos hwn i fod yn llenwi bylchau mewn modelau gwasanaeth a oedd yn bodoli cyn y rhaglen ac yn mynd un cam ymhellach nag y mae gwasanaethau eraill yn gallu eu gwneud wrth roi sylw i'r rhwystrau sy'n wynebu'r rhai o'r bobl anoddaf eu cyrraedd.
- 10.31 **Argymhelliad Saith:** Dylai'r cyd-fuddiolwyr ystyried sut y gallant sicrhau nad yw bylchau mewn modelau gwasanaeth yn ailymddangos nawr bod ADTRAC wedi dod i ben.
- 10.32 Awgrymwyd bod cynefindra cynyddol â'r system brynu ddeinamig (DPS) wedi helpu partneriaethau i dyfu ac wedi annog staff i weithio'n hyblyg ac yn greadigol gyda phrosiectau, gwasanaethau a sefydliadau eraill. Fodd bynnag, roedd pryderon yn parhau ynghylch pa mor ddwys o ran adnoddau y gall y system hon fod i'r rheini sy'n caffael ac yn tendro, a'r sgil-effaith y gall hyn ei chael ar gyfranogwyr sy'n aros ar gwrs neu hyfforddiant. Her arall mewn rhai achosion oedd na theimlwyd bod gwneud cais am ddarpariaeth trwy'r DPS yn economaidd hyfyw o ganlyniad i'r nifer fach o gyfranogwyr y llwyddwyd i gael darpariaeth ar eu cyfer. Yn ogystal, dywedodd staff a rhanddeiliaid hefyd na chafwyd unrhyw gynigion trwy'r system i

geisiadau am gyrsiau hyfforddi ar sawl achlysur. Deallwyd bod hyn wedyn yn rhoi baich ar staff cyflenwi i ddod o hyd i'r cwrs priodol.

- 10.33 **Argymhelliad Wyth:** Er bod cryn fanteision i ddefnyddio system brynu ddeinamig (DPS), dylid ystyried natur system sy'n ddwys ei adnoddau – yn weinyddol ac wrth gyflenwi. Ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol, dylai Cyd-fuddiolwyr ailasesu a ellid ac/neu a ddylid defnyddio dulliau amgen neu ychwanegol i sicrhau bod y broses gaffael mor syml ac effeithiol â phosibl.

Camau nesaf ac etifeddiaeth

- 10.34 Wrth adfyfrio ar etifeddiaeth y prosiect a'r camau nesaf, cyfeiriodd staff yn aml at yr angen i gadw o leiaf ryw fath o gymorth lles ac iechyd meddwl, os nad cadw prosiect ADTRAC cyfan.
- 10.35 Mae staff a rhanddeiliaid o'r farn fod ADTRAC yn llenwi bwlch hanfodol rhwng cymorth cyflogadwyedd a chymorth iechyd meddwl i bobl ifanc yn y Gogledd. Yn ystod blwyddyn olaf y prosiect, mae'r pandemig ac oblygiadau parhaus ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd wedi arwain at hinsawdd heriol ac ansicr sy'n debygol o barhau. Mynegodd staff bryder y bydd bwlch sylweddol yn y gefnogaeth heb ADTRAC, yn enwedig i'r rheiny sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur ac sydd â'r rhwystrau mwyaf difrifol ac/neu niferus.
- 10.36 Fel y manylir yn Adran 6, fodd bynnag, mae cyd-fuddiolwyr wedi datblygu cynlluniau ar gyfer eu camau nesaf y tu hwnt i ADTRAC. Er nad yw rhai yn gallu darparu cefnogaeth mor helaeth ag y gallent gydag ADTRAC, gwelwyd pwysigrwydd cymorth lles ac iechyd meddwl a chefnogaeth ddwys un-i-un a chaiff hyn ei gadw pan fo hynny'n bosibl.

11. Cyfeiriadau

Llyfryddiaeth

Allen, M. (2014). *Reducing the number of young people not in employment, education or training (NEET)*. Llundain: Public Health England.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. (2017). *Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru*. NWEAB.

Coles, B., Godfrey, C., Keung, A., Parrott, S., a Bradshaw, J. (2010). *Estimating the life-time cost of NEET: 16-18 year olds not in Education, Employment and Training. Research Undertaken for the Audit Commission*. Efrog: Prifysgol Efrog.

Crawford, C., Duckworth, K., Vinales, A., ac Wyness, G. (2011). *Young people's education and labour market choices aged 16/17 to 18/19*. Llundain: Adran Addysg.

Edwards, K. (2016). *Mapping of Provision and Support for Young People Aged 16-24 in North Wales: Project Report*. Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Friedli, L., a Parsonage, M. (2009). *Promoting mental health and preventing mental illness: the economic case for investment in Wales*. Rhwydwaith Hybu Iechyd Meddwl.

Goldman-Mellor, S., Caspi, A., Arseneault, L., Ajala, N., Ambler, A., Danese, A., . . . Moffitt, T. E. (2015). Committed to work but vulnerable: self-perceptions and mental health in NEET 18-year olds from a contemporary British cohort. *The Journal of Child Psychology and Psychiatry*, 57(2), 196-203.

Groundwork. (dim dyddiad). *Mental health support available for NEET young people in Warwickshire*. Adalwyd Awst 21, 2019, o <https://www.groundwork.org.uk/mental-health-support-available-for-neet-young-people-in-warwickshire>

Groundwork North Wales. (dim dyddiad). *TRAC*. Adalwyd Awst 21, 2019, o <https://www.groundworknorthwales.org.uk/projects-and-education/projects/trac/>

Kessler, R. C., Berglund, P., Demler, O., Merikangas, K. R., ac E, W. E. (2005). Lifetime Prevalence and Age-of-Onset Distributions of DSM-IV Disorders in the National Comorbidity Survey Replication. *Archives of General Psychiatry*, 62(6), 593-602.

Kings College London. (2015). *Unemployment takes its toll on young people's mental health*. Adalwyd Awst 21, 2019, o <https://www.kcl.ac.uk/ioppn/news/records/2015/september/unemployment-takes-its-toll-on-young-peoples-mental-health>

- Llywodraeth Cymru. (2013). *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid. Cynllun Gweithredu. Crynodeb Gweithredol*. Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru. (2016). *Themâu Trawsbynciol Dogfen Allweddol – Cronfa Gymdeithasol Ewrop*.
- Llywodraeth Cymru. (2018). *Cynllun Cyflogadwyedd*. Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru. (2019). *Canllawiau Themâu Trawsbynciol*. Llywodraeth Cymru.
- OECD. (2014). *Mainstreaming cross-cutting issues*. OECD.
- Powell, A. (2018). *NEET: Young People Not*. Llundain: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin.
- Powell, R., Bashir, N., Crisp, R., a Parr, S. (2015). *Talent Match Case Study Theme Report: Mental Health & Wellbeing*. Sheffield: Prifysgol Sheffield Hallam.
- Robertson, P. J. (2018). The casualties of transition: the health impact of NEET status and some approaches to managing it. *British Journal of Guidance & Counselling*, 47(3), 390-402.
- Siegriest, J., Benach, J., McNamara, K., Goldblatt, P., a Muntaner, C. (2010). *Employment arrangements, work conditions and health inequalities*.
- Singh, S. P., Paul, M., Islam, Z., Weaver, T., Kramer, T., McLaren, S., . . . Harley, K. (2010). *Transition from CAMHS to Adult Mental Health Services (TRACK): A Study of Service Organisation, Policies, Process and User and Carer Perspectives*.
- Swyddfa Ystadegau Gwladol ONS. (2020). *Young people not in education, employment or training (NEET), UK: November 2020*. Adalwyd Awst 22, 2019, o <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/unemployment/bulletins/youngpeoplenotineducationemploymentortrainingneet/november2020>
- Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2021, Ionawr 21). *Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): Hydref 2019 i Fedi 2020*. Adalwyd Awst 22, 2019, from <https://llyw.cymru/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-hydref-2019-i-fedi-2020>
- Y Comisiwn Archwilio. (2010). *Against the odds: re-engaging young people in education, employment or training: local government*. Llundain: Y Comisiwn Archwilio.
- Ymddiriedolaeth y Tywysog. (2015). *The Prince's Trust Macquarie Youth Index 2015*. Ymddiriedolaeth y Tywysog.

12. Atodiad A: Astudiaeth Achos Cyfieithiad Cymraeg o GLIMWC

Dr Llinos Haf Spencer, Beryl Cooledge, Delyth Prys, Prifysgol Bangor


Dr Sara Hammond-Rowley, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

12.0 Er yr angen cynyddol am ymwybyddiaeth iaith a diwylliant mewn ymchwil iechyd, mae prinder mesurau yn y Gymraeg i wella dibynadwyedd a dilysrwydd offerynnau megis mesurau canlyniadau ar gyfer treialon ac astudiaethau ymchwil yng nghydestun dwyieithog Cymru. Mae LLAIS yn rhan o Uned Treialon N Worth ac wedi'i ariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i nodi, blaenoriaethu a datblygu cyfieithiadau Cymraeg yn ogystal â dilysu mesurau iechyd yn ieithyddol ar gyfer y seilwaith ymchwil ledled Cymru. Mae hefyd yn archwilio ffyrdd o bennu'r data dilysu seicometrig i archwilio'r ymateb iddynt ymhlith gwahanol boblogaethau.

12.1 Nodau ac amcanion dilysu Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin (GLIMWC): Blaenoriaethu a sefydlu fersiwn Gymraeg o fesur lles GLIMWC drwy:

- Mynd ati i gyfieithu a dilysu'n ieithyddol fersiwn Gymraeg o fesur GLIMWC er budd cyd-destun clinigol yn ogystal â chyd-destun ymchwil;
- Sicrhau bod fersiwn Gymraeg o fesur GLIMWC ar gael ar yr adnodd gwe rhwngweithiol, MI-CYM i hwyluso'r mynediad iddo gan glinigwyr ac ymchwilwyr.

12.2 Cynhaliwyd proses hir gam-wrth-gam ac iddi gamau rheoli ansawdd a phrofion gwybyddol i sicrhau cael cyfieithiadau sy'n gyfwerth yn gysyniadol ac yn semantig. Roedd y camau fel a ganlyn:



12.3 Dyfyniad gan berson ifanc:

“Mae’n bwysig cael holiaduron Cymraeg i bobl ifanc Cymraeg fel ni.”

Dyfyniad gan Glinigydd:

“Mae’n angenrheidiol cael mesurau iechyd a lles Cymraeg ar gyfer y boblogaeth leol yma yng Nghymru. Cymraeg yw iaith gyntaf y mwyafrif o bobl ifanc sy’n defnyddio ein gwasanaeth. ”

Canfyddiadau

- 12.4 Yn ogystal â chyfieithwyr proffesiynol, terminolegydd iaith, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, rhoddodd deuddeg o bobl ifanc o’r Gogledd eu barn ar fersiwn Gymraeg o’r GLIMWC mewn sesiynau grŵp ffocws neu mewn cyfweiliadau wyneb yn wyneb er mwyn sicrhau bod y cwestiynau yn eglur. Gwnaed newidiadau i’r geiriad yn seiliedig ar y trafodaethau hyn a sylwadau terfynol gan y terminolegydd iaith.

<i>Graddfa Llesiant Meddwl Warwick- Caeredin (GLIMWC)</i>	<i>Y fersiwn Gymraeg i'w rhoi ar brawf</i>	<i>Sylwadau gan bobl ifanc</i>	<i>Sylwadau gan derminolegydd</i>	<i>Y fersiwn Cymraeg terfynol</i>
I've been feeling relaxed	Rwyf wedi bod yn teimlo fel fy mod wedi ymlacio	G4 – o dan straen GS – medru ymlacio G6 – rwyf wedi gallu ymlacio	Yn dderbyniol cynnwys y gair 'gallu' gan fod y bobl ifanc yn teimlo bod rhywbeth ar goll.	Rwyf wedi bod yn teimlo mod i wedi gallu ymlacio
I've been feeling good about myself	Rwyf wedi bod yn teimlo'n dda amdanaf fy hun	G1 – am fi fy hun G3 – amdanaf fi fy hun G4 – amdan fy hun	Gan fod yn well gan y bobl ifanc gynnwys 'fi', mae'n dderbyniol cynnwys 'i'.	Rwyf wedi bod yn teimlo'n dda amdanaf i fy hun
I've been feeling loved	Rwyf wedi bod yn teimlo fy mod yn cael fy ngharu	G4 – rwyf wedi bod yn teimlo bod rhywun yn fy ngharu. (nid yw'r gair 'rhywun'/' 'someone' yn y fersiwn Saesneg).	Newidiwyd cywair iaith y datganiad yn unol â'r newidiadau uchod.	Rwyf wedi bod yn teimlo mod i'n cael fy ngharu
Rarely	ANAML	G6 – yn anaml	Mae'n newid derbyniol.	YN ANAML
Often	Aml	G6 – yn aml	Mae'n newid derbyniol.	YN AML

Casgliad

- 12.5 Ers mis Hydref 2018, mae'r GLIMWC wedi bod ar gael i ymarferwyr ac ymchwilwyr i'w ddefnyddio yng Nghymru. Bydd yr offeryn lles hwn o fudd wrth hybu pobl ifanc i fynegi eu lles yn Gymraeg. Mae gwaith dilysu ieithyddol LLAIS yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at sefydlu systemau cadarn i sicrhau cynnal treialon clinigol o'r ansawdd uchaf sy'n bodloni gofynion rheoleiddiol a llywodraethu ar yr un pryd â hyrwyddo dulliau methodolegol sydd o bwysigrwydd rhyngwladol.
- 12.6 Hyd yma, rhestrwyd 44 o fesurau canlyniadau ar wefan micym.org ac mae tua 40 o'r rhain wedi'u dilysu'n ieithyddol gan LLAIS, Uned Treialon NWORTH.

Cyfeiriadau

- Tennant, R., Hiller, L., Fishwick, R., Platt, S., Joseph, S., Weich, S., ... Stewart-Brown, S. (2007). Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin / The Warwick-Edinburgh Mental Well-being Scale
- (GLIMWC/WEMWBS): development and UK validation. Health and Quality of Life Outcomes, 5, 63. <http://doi.org/10.1186/1477-7525-5-63>
- Wild D, Grove A, Martin M, Eremenco S, McElroy S, Verjee-Lorenz A ac Erikson P (2005) Principles of good practice for the translation and cultural adaptation process for patient-reported outcomes (PRO) measures: Report of the ISPOR task force for translation and cultural adaptation. *Value in Health*, 8 (2), 94-104.
- Mae fersiwn Gymraeg o GLIMWC i'w chael ar wefan GLIMWC neu gweler y ddolen i'r mesur Cymraeg ar wefan Mesurau Iechyd Cymraeg micym.org
- Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Dr Llinos Haf Spencer 01248 38 3171 neu L.spencer@bangor.ac.uk yn Uned Treialon NWORTH, Y Wern, Prifysgol Bangor.

Dilynwch @micymraeg i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fesurau Cymraeg.

Adtrac is being led by:



Adtrac is being delivered by the following partners:



gllm.ac.uk/adtrac